

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018/19



Lluniau: SS Great Britain ym Mryste - Liz Humphrey a'r Bont Grog - Nick Holmes / Stadiwm
Principality Caerdydd, ac Adeilad y Pierhead a'r Senedd - © Hawlfraint y Goron 2019
(Croeso Cymru)

Yr Arolygiaeth Gynllunio

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018/19

Cyflwynwyd gerbron Tŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 7 Deddf
Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

I'w argraffu dan orchymyn Tŷ'r Cyffredin ar 11 Gorffennaf 2019

The Planning Inspectorate
Temple Quay House
2 The Square
Temple Quay
Bristol
BS1 6PN

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 0303 444 5000

Rhif ffôn: 0303 444 5940

E-bost:
enquiries@planninginspectorate.gov.uk

E-bost:
wales@planninginspectorate.gov.uk

This publication is also available in English
and can be obtained from the Inspectorate's
Cardiff Office.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn
Saesneg a gallwch gael copi ohono gan
Swyddfa'r Arolygiaeth yng Nghaerdydd.



© Hawlfraint y Goron 2019

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni ddywed yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i <http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3>

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/collections/the-planning-inspectorate-annual-report-and-accounts>

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn Planning Inspectorate Press Office, Temple Quay House, 2 The Square, Bristol, BS1 6PN neu drwy anfon neges e-bost at Press.office@planninginspectorate.gov.uk

ISBN 978-1-5286-1094-0

CCS0319712780

07/19

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys lleiafswm o 75% o ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

| <h1>Cynnwys</h1> | | Tudalen |
|---|--|---------|
| Adroddiad ar Berfformiad | | |
| Trosolwg | | 3 |
| | 1. Datganiad y Prif Weithredwr | 5 |
| | 2. Datganiad Cadeirydd y Bwrdd | 8 |
| | 3. Datganiad o ddiben a gweithgareddau | 10 |
| | 4. Risgiau allweddol | 13 |
| | 5. Crynodeb o berfformiad | 15 |
| Dadansoddiad o berfformiad | | 17 |
| | 6. Portffolio Newid | 19 |
| | 7. Rhaglen Adfer Perfformiad | 20 |
| | 8. Rhaglen Gweddnewid | 24 |
| | 9. Rhaglen Moderneiddio TG | 26 |
| | 10. Gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd | 27 |
| | 11. Darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol | 29 |
| | 12. Mwy o ymgysylltu â staff | 32 |
| | 13. Perfformiad – Lloegr | 33 |
| | 14. Perfformiad – Cymru | 37 |
| | 15. Ansawdd – Cymru a Lloegr | 40 |
| | 16. Effaith gymunedol ac amgylcheddol | 43 |
| | 17. Adroddiad cynaliadwyedd | 46 |
| Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu: Adroddiad ar Berfformiad | | 50 |
| Adroddiad Atebolrwydd | | |
| Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol | | 51 |
| | 18. Adroddiad y Cyfarwyddwyr | 53 |
| | 19. Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 54 |
| | 20. Y Datganiad Llywodraethu | 56 |
| Adroddiad Cyflogau a Staff | | 72 |
| | 21. Adroddiad Cyflogau | 74 |
| | 22. Adroddiad Staff | 79 |
| Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwilio | | 85 |
| | 23. Dyraniadau'r Gyllideb ac Alldro | 87 |
| | 24. Taliadau credydwyr | 90 |
| | 25. Ffioedd a thaliadau | 91 |
| | 26. Rheoleidd-dra gwariant | 92 |
| | 27. Rhwymedigaethau digwyddiadol bychan | 93 |
| Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu: Adroddiad Atebolrwydd | | 94 |

| | | |
|---|---|-----|
| Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin | | 95 |
| | | |
| Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 | | 99 |
| 28. | Datganiad o wariant net cynhwysfawr | 101 |
| 29. | Datganiad o'r sefyllfa ariannol | 102 |
| 30. | Datganiad o lifoedd arian | 103 |
| 31. | Datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr | 104 |
| 32. | Nodiadau i'r Cyfrifon | 105 |
| | | |
| Atodiadau | | 121 |
| A. | Perfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol | 123 |
| B. | Gwasanaeth cwsmeriaid a chysylltiadau | 127 |
| | | |

Adroddiad ar Berfformiad

Trosolwg



“Yr Arolygiaeth Gynllunio – Arbenigwyr annibynnol, sy’n ennyn hyder ac yn ffurfio cymunedau eithriadol, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau i ddod.”

Mae'r adran Trosolwg o Berfformiad yn cynnwys safbwyntiau'r Prif Weithredwr a Chadeirydd y Bwrdd ar y flwyddyn ddiwethaf, ac wrth edrych ymlaen.

Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am ddiben y sefydliad, ei brif weithgareddau, risgiau allweddol a chrynodeb o berfformiad.

Tynnwyd y lluniau sy'n cael eu defnyddio ar ddechrau bob adran yn yr adroddiad hwn gan staff, ac mae'r credydau wedi'u cynnwys ar gefn pob un ohonynt.

Llun: Lakeshore (hen swyddfeydd ffatri tybaco Wills) - Jo Millard

1. Datganiad y Prif Weithredwr



Yn y flwyddyn ddiwethaf, sef yr ail ar ein taith o welliannau cynlluniedig, gwnaethom gymryd camau mawr ymlaen o ran moderneiddio'r Arolygiaeth Gynllunio. Gwnaethom fuddsoddi yn ein pobl, ein seilwaith TG, a miniogi ein ffocws ar yr hyn sydd ei angen ar ein cwsmeriaid a'n defnyddwyr. Mae'r rhaglen i weddnewid ein prosesau cyflenwi o'r dechrau i'r diwedd yn mynd rhagddi'n gadarn, ac mae wedi cynnwys lefelau uchel o ymgysylltiad â chwsmeriaid. Er bod mwy i'w wneud o hyd, mae'r newidiadau hyn eisoes yn dechrau cael effaith fuddiol ar ein perfformiad, ac rwy'n hyderus y bydd hyn yn parhau yn ystod y flwyddyn nesaf.

Roedd ein nodau strategol ar gyfer y flwyddyn yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol; gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd; ac ymgysylltu mwy â staff.

Darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol



Mae adborth yn rhoi gwybod i ni fod cwsmeriaid yn credu ein bod yn ddiduedd, yn deg, yn broffesiynol ac y gellir ymddiried ynom wrth ein gwaith, ond bod angen i ni fod yn fwy cyson yn ein penderfyniadau a'n gweithdrefnau, penderfynu ar apeliadau ynghynt a gwella'r ffordd y gellir olrhain achosion yn ein systemau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd cryftuag at ddatblygu system gwaith achos newydd, a fydd yn rhoi ffordd symlach i'n cwsmeriaid wneud ac olrhain apeliadau, a system fwy effeithlon i'n rheolwyr achosion reoli achosion. Rydym yn edrych ymlaen at ei lansio yn ystod 2019.

Gwella effeithlonrwydd

Rwy'n gwybod na fu ein perfformiad o ran ein gwaith yn ôl cyfaint (achosion apeliadau cynllunio yn Lloegr) yn ddigon da eleni. Rydym wedi bod yn glir ynghylch diagnosis o'r broblem ac wedi rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod ein perfformiad yn dychwelyd i lefel dderbyniol ar draws yr holl waith achos erbyn canol 2020. O ganlyniad, rydym wedi croesawu nifer fawr o Arolygwyr newydd i'r sefydliad eleni. Rydym wedi ceisio gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau

Arolygwyr trwy gaffael Arolygwyr heb fod ar gyflog misol a recriwtio Swyddogion Apeliadau Cynllunio. Yng nghyd-destun cynnydd sylweddol yn y llwyth achosion yn 2018/19, bydd y staff newydd hyn a'r adnodd hyblyg, wedi'i iddynt ymsefydlu, yn rhoi mwy o wydnwch i ni fynd i'r afael â'n llwyth achosion.

Cryfhawyd adnoddau'r sefydliad o ran pobl ymhellach trwy wneud newidiadau sylweddol i strwythur rheoli'r Arolygiaeth Gynllunio a phenodi Cyfarwyddwyr Strategaeth a Gweithrediadau newydd ar gyfer 2019/20. Bydd y strwythur ailgynlluniedig, symlach yn darparu cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir ar gyfer perfformiad gweithredol ac yn grymuso symud adnoddau'n uniongyrchol i'r gwaith sydd â'r flaenoriaeth uchaf.

| | |
|--|---|
| <p>Christine Thorby</p>  <p>Cyfarwyddwr Strategaeth</p> | <p>Graham Stallwood</p>  <p>Cyfarwyddwr Gweithrediadau</p> |
|--|---|

Rydym hefyd wedi cefnogi ein pobl trwy gyflwyno TG newydd i'n gweithlu i gyd ar ffurf dyfeisiau modern ysgafnach a chyflymach, a meddalwedd fwy effeithlon. Mae hyn eisoes wedi dechrau gweddnewid y ffordd rydym yn gweithio, gan gynnig mwy o hyblygrwydd o ran ble a sut gallwn weithio, ac annog mwy o gydweithio a rhannu.

Ymgysylltu â staff

Ein pobl yw ein hadnodd mwy sylweddol a gwerthfawr o hyd. Mae ymgysylltu â staff wedi cynyddu, a chyrraeddodd ein harolwg staff 2018 uchafbwynt o 61%, a gyflawnwyd y tro diwethaf yn 2010. Mae'r canlyniadau'n dystiolaeth bod ein staff yn glir ynghylch amcanion a diben y sefydliad, eu bod yn fodlon â'u gwaith a chyfleoedd i ddysgu a datblygu, yn hyderus yng ngalluoedd eu rheolwyr ac yn teimlo y cânt eu trin yn deg yn y gweithle. Mae ein huchelgais i adeiladu at hyn a chyrraedd sgôr sy'n ein rhoi yn chwartzel uchaf adrannau'r Gwasanaeth Sifil yn parhau heb ei newid. Fodd bynnag, rydym 5% islaw perfformwyr uchaf y Gwasanaeth Sifil o hyd, felly gwyddwn fod lle i wella o hyd.

Cymru

Ar 9 Mai eleni, mewn Datganiad Ysgrifenedig, nododd Llywodraeth Cymru (LIC) ei bwriad i sefydlu Arolygiaeth Gynllunio bwrpasol, ar wahân i Gymru oherwydd y gwahaniaethau parhaus rhwng y cyfundrefnau yng Nghymru a Lloegr. Bydd yr

Arolygiaeth yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i lunio'r ffordd fwyaf effeithiol ymlaen a sicrhau trosglwyddiad di-dor .

Ac yn olaf...

I gloi, byddai'n ddiofal i mi beidio â chydabod gwaith caled ac ymroddiad y rhai a oedd yn aelodau o'm Tîm Gweithredol yn ystod 2018/19 – Mark Southgate, sydd bellach yn Brif Weithredwr ym MOBIE (yn gweithio gyda George Clarke), Phil Hammond a fydd yn gadael y Gwasanaeth Sifil yn 2019 gyda'r bwriad o weithio yn y sector elusennol, Steve Hudson sydd wedi dychwelyd i Lywodraeth Cymru, Tony Thicket sy'n parhau i gydweithio'n agos â'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i arwain ein gweithrediadau yng Nghymru, a Ben Liscott, a fu farw tua diwedd 2018 ar ôl cyfnod byr o salwch.



Ben Liscott

Yn ystod y cyfnod hwn o newid mawr ar lefel weithredol, bu parhad o ran mewnbwn anweithredol, gan roi sicrwydd a chefnogaeth i'r sefydliad. Rwy'n falch o'r ffordd yr ymatebodd y sefydliad cyfan i'r heriau y gwnaethom eu hwynebu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a chroesawu'r newidiadau sydd ar waith. Rwy'n hyderus y bydd hyn yn darparu sylfaen gadarn iawn i'r Arolygiaeth Gynllunio barhau i wella perfformiad a newid y ffordd y byddwn yn gwneud pethau yn y dyfodol. Rydym wedi ymrwymo i'r strategaeth ar gyfer newid, a fydd yn adeiladu ar ragoriaeth ein gwaith ac yn arwain yr Arolygiaeth Gynllunio i fod yn sefydliad effeithlon, sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, ac sy'n cael ei gydnabod yn lle gwych i weithio.

Sarah Richards
20 Mehefin 2019

2. Datganiad Cadeirydd y Bwrdd



Rwy'n falch, dros y flwyddyn ddiwethaf, fod yr Arolygiaeth Gynllunio wedi gwreiddu ei henw da hirsefydlog unwaith eto am degwch ac amhleidioldeb, y mae rhanddeiliaid yng Nghymru a Lloegr yn ymddiried ynddynt. Mae gwaith y sefydliad wrth wraidd y ddwy system gynllunio o hyd, ac mae wedi parhau i gyflawni rôl bwysig o ran cyflawni blaenoriaethau'r ddwy Lywodraeth – trwy archwilio Cynlluniau Lleol a chynigion ar gyfer tai, seilwaith, swyddi ac asedau amgylcheddol a chymdeithasol – i greu lleoedd i gymunedau ffynnu. Mae hefyd yn helpu i amddiffyn y pethau y mae ein cymunedau'n eu gwerthfawrogi, trwy ei rôl yn gorfodi deddfwriaeth gynllunio yn deg.

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ymhlith 164 o wledydd sydd wedi ymrwmo i gyflawni Agenda 2030 y Cenedloedd Unedig¹ trwy nodau datblygu cynaliadwy. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi ymrwmo i gyfrannu at gyflawni hyn o hyd.

Yn ystod y flwyddyn hon, rydym wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael ag amseroldeb, y mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym ei fod yn flaenoriaeth allweddol iddynt. Er bod gennym hanes cryf o gyrraedd targedau heriol mewn rhai agweddau ar ein gwaith, fel Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ac yng Nghymru, nid ydym wedi gallu penderfynu ar apeliadau eraill yn ddigon cyflym. Bydd y gwaith hwn yn dwyn ffrwyth yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Fe'n cynorthwywyd i wneud hyn gan argymhellion yr adolygiad i Ymchwiliadau, dan arweiniad Bridget Rosewell. Rwy'n ddiolchgar iddi am ei dull cydweithredol wrth ymgymryd â'i thasg. Rydym hefyd yn ymwybodol bod ein rhanddeiliaid yn poeni o hyd ynghylch cysondeb ein penderfyniadau. Mae ein Cynllun Strategol yn ystyried yr argymhellion a byddwn yn mesur ein llwyddiant yn ôl cynnydd yn eu herbyn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Prif Weithredwr yr Arolygiaeth, Sarah Richards, a'n tîm cyfan wedi parhau i baratoi'r sefydliad ar gyfer y dyfodol, gyda'r nod o ddod yn esiampl o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus. Rydym wedi parhau â'n stiwardiaeth o'n hadnoddau. Bydd ein gwaith cyfredol yn gwella sut gall ein rhanddeiliaid ymgysylltu â ni, gan wneud yr hyn rydym yn ei wneud yn fwy agored, tryloyw ac yn hawdd ei ddefnyddio'n ddigidol. Bydd yn adeiladu ar enw da haeddiannol y rhai sy'n gweithio i'r Arolygiaeth ar gyfer proffesiynoldeb a ffocws ar gwsmeriaid, trwy sicrhau bod ganddynt yr arfau i wneud y gwaith. Y rhai sy'n gweithio i'r Arolygiaeth yw ein hased mwyaf, a byddwn yn parhau i wrando ar eu llais wrth ffurfio ein gwasanaeth yn y dyfodol ac yn annog eraill i ymuno â ni yn yr ymdrech hon.

¹ Transforming our world: the 2030 Agenda for Sustainable Development (<https://sustainabledevelopment.un.org/post2015/transformingourworld>)

Trudi Elliott
13 Mehefin 2019

3. Datganiad o ddiben a gweithgareddau

Ein diben o hyd yw rhoi penderfyniadau, argymhellion a chyingor diduedd i gwsmeriaid mewn modd teg, agored ac amserol.

Mae'r Arolygiaeth wedi bodoli, fel rhan werthfawr o'r system gynllunio, ers dros 100 mlynedd ar un ffurf neu'i gilydd. Rydym yn falch o'r hanes hwnnw a'r rôl rydym yn ei chwarae o hyd i gefnogi blaenoriaethau'r Llywodraeth – cynyddu'r cyflenwad tai a chyfrannu at dwf economaidd.

Mae'r sefydliad yn gyd-asiantaeth weithredol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru. Fe'i harweinir gan Brif Weithredwr a thîm o gyfarwyddwyr gweithredol, ac mae'n cynnwys arolygwyr cyflogedig ac ar contract, ynghyd â staff cymorth wedi'u lleoli mewn swyddfeydd mewn timau ym Mryste a Chaerdydd.

Gweledigaeth a chyd-destun gweithredu

Ein nod yw:

- cynnal hyder llwyr Gweinidogion a'n cwsmeriaid fel sefydliad allweddol ar gyfer cynllunio defnydd tir;
- bod ag enw da am wasanaeth cwsmeriaid rhagorol a darparu penderfyniadau amserol a diduedd o ansawdd uchel yn ein holl waith;
- bod â sefyllfa gyllidebol gynaliadwy â ffynonellau sefydledig o incwm a phwyslais ymgorfforedig ar welliant parhaus a chynhyrchedd;
- bod yn sefydliad sydd wedi ei integreiddio'n llwyr ar draws ein holl waith achos, sydd â systemau cyffredin ac arweinyddiaeth effeithiol; a
- manteisio i'r eithaf ar ein gwybodaeth a'n profiad ar lawr gwlad, gan feithrin gallu ein staff a llywio polisi.

Rydym yn gweithredu dan brif ddeddfwriaeth y system apeliadau, sef Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd), Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd), sy'n ymdrin â'r drefn ganiatáu ar gyfer prosiectau Seilwaith Cenedlaethol, a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, sy'n ymdrin â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru. Ymdrinnir â'r system Cynlluniau Lleol gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae fframweithiau a sefydlwyd gan ddeddfwriaeth gysylltiedig yn cwmpasu meysydd gwaith eraill, fel apeliadau amgylcheddol a gwaith achos hawliau tramwy.

Ein rôl a'n cyfraniad

Mae gan yr Arolygiaeth Gynllunio dair prif rôl:

- helpu cymunedau i ffurfio'r ardal lle maen nhw'n byw;
- gweithredu system gynllunio deg a chynaliadwy; a
- helpu i fodloni anghenion seilwaith y dyfodol.

Helpu cymunedau i ffurfio'r ardal lle maen nhw'n byw

Rydym yn cefnogi nodau polisi'r Llywodraeth i ddarparu mwy o dai a chynllunio lleol effeithiol trwy ein rôl yn y broses Cynlluniau Lleol. Mae cynlluniau'n

amlinellu gweledigaeth y dyfodol ar gyfer ardal leol, gan amlygu pa ddatblygiad fydd yn mynd ymhle, pam a phryd.

Ein nod yw:

- cynorthwyo awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau sy'n bodloni anghenion lleol yn llawn;
- rhannu gwybodaeth ac arbenigedd ar gynllunio i helpu i sicrhau bod y datblygiad cywir yn digwydd yn y lle cywir ar yr adeg gywir; a
- helpu i amddiffyn cymunedau rhag datblygu anaddas ac anghynaliadwy.

Gweithredu system gynllunio deg a chynaliadwy

Mae'r hawl i ymgeisydd apelio yn erbyn penderfyniad cynllunio a wneir gan awdurdod cynllunio lleol (ACL) yn un o nodweddion allweddol y system gynllunio, ynghyd ag apelio pan fydd yr awdurdod yn methu gwneud hynny cyn pen yr amser a ganiateir. Er y bydd rhai sy'n cytuno â phenderfyniadau Arolygwyr a rhai nad ydynt yn cytuno â nhw bob amser, rydym wedi ymrwmo i'r tair egwyddor arweiniol o hyd, sef didwylledd, tegwch a didueddrwydd.

Ein nod yw:

- penderfynu ar apeliadau yn unol â'n targedau amseroldeb, gan roi sicrwydd i bawb dan sylw, gan gynnwys cymunedau lleol, un ffordd neu'r llall;
- gwneud penderfyniadau o ansawdd uchel ar draws ystod o waith achos, o ddatblygiadau tai mawr i lwybrau troed unigol a meysydd pentref;
- darparu gwasanaeth effeithlon i ddinasyddion ar gyfer apeliadau ynghylch eu cartrefi eu hunain;
- rhoi cyfle i safbwyntiau pawb sydd â buddiant mewn achos gael eu hystyried; a
- chyhoeddi gwybodaeth berthnasol ar-lein, er mwyn iddi fod ar gael yn eang.

Helpu i fodloni anghenion seilwaith y dyfodol

Mae'n hanfodol bod seilwaith priodol fodoli i gefnogi datblygu cynaliadwy a thwf economaidd cysylltiedig. Rydym yn ystyried polisi'r llywodraeth ac yn cydbwyso buddiannau datblygwyr, dinasyddion lleol a phartïon eraill â buddiant yn ofalus wrth argymhell pa brosiectau y dylid eu hadeiladu.

Ein nod yw:

- darparu gwasanaeth wedi ei symleiddio i ddatblygwyr, sy'n asesu teilyngdod prosiectau arfaethedig ar raddfa fawr, fel pwerdai newydd neu ffyrdd mawr;
- cydbwyso anghenion y wlad a chynlluniau datblygwyr â'r effeithiau tebygol ar ardaloedd lleol, gan wrando'n ofalus ar safbwyntiau cymunedau, grwpiau arbenigol a buddiannau pobl eraill; a

- darparu proses ragfynegadwy ac effeithlon, gan ddarparu sicrwydd i bawb dan sylw, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol neu Weinidog perthnasol Llywodraeth Cymru sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch p'un a gaiff pob prosiect ei gymeradwyo ai peidio.

4. Risgiau allweddol

Mae ansicrwydd yn effeithio ar ein perfformiad yn erbyn ein hamcanion allweddol ac, yn benodol, ein perfformiad wrth ymdrin â gwaith achos. Un ffordd rydym yn lliniaru'r effaith honno yw trwy fonitro a rheoli risg.

Mae'r tabl isod yn dangos y risgiau a oedd yn cael eu monitro ar ddiwedd y flwyddyn a'r camau lliniarol mwyaf arwyddocaol ar gyfer pob un ohonynt.

| Risgiau Strategol | |
|---------------------------------------|--|
| Disgrifiad o'r risg | Camau lliniarol |
| Gallu a chapasiti | <ul style="list-style-type: none"> - Datblygu cynllunio strategol y gweithlu - Cyflwyno cynllunio ar gyfer olyniaeth - Ffurfioli Penaethiaid Proffesiwn |
| Sgano'r gorwel a chynllunio adnoddau | <ul style="list-style-type: none"> - Cydweithio â'r adrannau perthnasol i amlygu effaith newidiadau polisi yn y dyfodol - Rheoli risgiau sy'n dod i'r amlwg ar lefel weithredol trwy gofrestr ar wahân, gan uwchgyfeirio yn ôl yr angen - Ymgorffori newidiadau Cynllun y Sefydliad |
| Agenda gweddnewid ac arbedion | <ul style="list-style-type: none"> - Adolygu a diweddarau'r manteision disgwylidig yn rheolaidd - Asesu effaith newid yn barhaus |
| Perfformiad gweithredol | <ul style="list-style-type: none"> - Sefydlu Rhaglen Adfer Perfformiad a recriwtio adnoddau Arolygwyr ychwanegol (gweler Adran 7) - Datblygu gallu gwell o ran gwybodaeth reoli - Gwella ymgysylltiad â chwsmeriaid |
| Diweddarau technoleg a pharhad busnes | <ul style="list-style-type: none"> - Sicrhau cyllid ar gyfer newidiadau hanfodol - Rhoi adroddiadau wedi'u brysio ar waith - Uwchgyfeirio materion i'r Tîm Gweithredol |
| Adolygiad o Wariant | <ul style="list-style-type: none"> - Parhau i gysylltu ac adolygu gofynion ac amserlenni â'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol - Alinio perfformiad y dyfodol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol newydd â'r Adolygiad o Wariant |
| Gwrthwynebiad diwylliannol i newid | <ul style="list-style-type: none"> - Cynnwys staff mewn prosiectau newid - Mynegi a rhannu rhesymau cymhellol o blaid newid |

Er mwyn cefnogi rhaglen y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i baratoi ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd, sefydlodd yr Arolygiaeth brosiect i sicrhau y cafodd agweddau priodol eu rheoli'n effeithiol. Ni ystyriwyd bod y

risg yn gritigol; fodd bynnag, fel rhan o'n hymateb, ymgysylltodd y tîm Masnachol yn rhagweithiol â sefydliadau yng nghadwyn gyflenwi'r Adolygiaeth. Galluogodd hyn i ni amlygu risgiau o ran darparu nwyddau a gwasanaethau, ac yn ymwneud â hygyrchedd data, a sicrhodd y gellid cymryd camau lliniarol. Darparodd y prosiect sicrwydd mewnol ac i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae rhagor o wybodaeth am ein proses rheoli risg i'w gweld yn y Datganiad Llywodraethu yn y ddogfen hon (gweler tudalen 56).

5. Crynodeb o berfformiad

Perfformiad ariannol

Mae ein lefelau incwm yn amrywio'n sylweddol dros y blynyddoedd a hefyd yn ystod y flwyddyn, gan y caiff ein gweithgareddau taladwy eu harwain yn bennaf gan alw gan ein cwsmeriaid. Roedd cyfanswm yr incwm yn 2018/19 77% yn uwch na'r flwyddyn gynt. Cynyddodd ein gwariant ar gostau uniongyrchol, yn unol â ffocws ar wella perfformiad. Cynyddodd gwariant ar Arolygwyr £2.9m o gymharu â'r flwyddyn gynt, ond gwnaethom leihau rhai o'n gorbenion.

Bodlonwyd y cynnydd o ran gwariant gan y cynnydd mewn incwm a chyllid gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, ond cafodd ei fantoli gan arbedion hefyd. Y gyllideb refeniw net gytûn ar ddechrau'r flwyddyn oedd £36.1m i fodloni gofynion busnes arferol, ac £1.8m i ariannu gweithgareddau gweddnewid. Yn ystod y flwyddyn, cynyddwyd y gyllideb gymeradwy gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wrth i achosion busnes gael eu cymeradwyo i sicrhau cyllid refeniw pellach o £1.1m ar gyfer newid gweddnewidiol, ac £1.5m ar gyfer adfer perfformiad a mân ostyngiad yn erbyn cyllidebau busnes arferol.

Cynyddodd ein sylfaen asedau yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Cynyddodd y gyllideb gymeradwy gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol o £0.5m i £5m, a fuddsoddwyd yn ein system gwaith achos a'n prosesau, fel rhan o'r Rhaglen Gweddnewid (gweler Adran 8), yn ogystal â buddsoddi yn ein Rhaglen Moderneiddio TG (gweler Adran 9), a oedd yn rhan o raglen gyffredinol ar draws y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i ddarparu gliniaduron newydd a meddalwedd swyddfa i'r holl staff.

Ceir dadansoddiad pellach o berfformiad ariannol yn y Datganiadau Ariannol manwl (sy'n dechrau ar dudalen 99).

Perfformiad gwaith achos

Rydym yn mesur perfformiad gwaith achos ar sail canran yr achosion o fath arbennig sy'n cael eu penderfynu cyn pen cyfnod targed penodedig, gan mwyaf. Mae ein canlyniadau perfformiad i'w gweld yn Atodiad A.

Lloegr

Yn Lloegr, gwnaethom fodloni llawer o'n targedau perfformiad – penderfynwyd ar bob Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) cyn pen yr amserlenni statudol, a phenderfynwyd ar 99.4% o gynlluniau a 100% o ymchwiliadau unigol cyn pen y terfynau amser a gytunwyd gan y partïon. Penderfynwyd ar apeliadau gorfod â sylwadau ysgrifenedig a gwrandawiadau o fewn y targed, ynghyd â gwaith achos tir comin, costau a'r rhan fwyaf o waith achos hawliau tramwy.

Fel y cydnabuwyd mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon, ni fu ein perfformiad o ran ein gwaith achos apeliadau swmp yn ddigon da, ac nid ydym wedi cyflawni disgwyliadau cwsmeriaid. Roedd amseroldeb ar gyfer apeliadau Deiliaid Tai a Masnachol, ac ar gyfer gwrandawiadau ac ymchwiliadau cynllunio nad ydynt yn

unigryw yn wael o hyd ac ymhell o'r targed, a gwnaethom hefyd fethu cyrraedd ein targedau ar gyfer gwaith achos Amgylcheddol, Diogelu Coed, Gwrychoedd neu Berthi Uchel, a Pherthi.

Cymru

Bodlonwyd neu rhagorwyd ar dargedau amseroldeb ac ansawdd y tîm, yn fras. Yr unig eithriadau oedd y targed ar gyfer apeliadau â sylwadau ysgrifenedig (cynllunio Rhagfyr - Mawrth) a'r targed ar gyfer penderfynu ar apeliadau cynllunio trwy ymchwiliad. Cyfrannodd y niferoedd isel o achosion yn cael eu penderfynu trwy ymchwiliad a diwygio targedau perfformiad ar ddiwedd chwarter 3 at fethu cyflawni'r targedau hyn.

Dadansoddiad

Mae dadansoddiad o'n perfformiad yn erbyn ein hamcanion a'n blaenoriaethau allweddol, ac o ran gwaith achos, i'w weld yn yr adran Dadansoddiad o Berfformiad yn y ddogfen hon.

A photograph of a dense forest with tall, slender trees and a sun-dappled path. The trees are mostly deciduous with vibrant green foliage. Sunlight filters through the canopy, creating a pattern of light and shadow on the forest floor. The path is a mix of dirt and fallen leaves, winding through the trees.

Dadansoddiad o berfformiad

“Mae eich ymagwedd ddiuedd a phroffesiynol yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr”

Mae'r adran Dadansoddiad o Berfformiad yn rhoi manylion am ein gwaith tuag at ein blaenoriaethau strategol, yn ogystal â'n canlyniadau yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol, gan gynnwys rhai yn ymwneud ag ansawdd. Mae'n amlinellu ein heffaith gymunedol ac amgylcheddol, ac yn darparu'r data gofynnol yn ymwneud â chynaliadwyedd.

6. Portffolio Newid

Er mwyn sicrhau y cyflawnwyd set o weithgareddau â blaenoriaeth yn y ffordd orau bosibl, ym mis Rhagfyr 2018, mabwysiadodd yr Arolygiaeth ddull portffolio ar gyfer ei weithgareddau newid sylweddol yn ffurfio. Mae'r Portffolio Newid yn cynnwys y gweithgareddau hynny sy'n allweddol i gyflawni ein hamcanion strategol ac sy'n mynnu llywodraethu ychwanegol, oherwydd eu cost, effaith a risg sylweddol, fel arfer.

Cafodd y Portffolio Newid ei ddiffinio a'i gyfarwyddo gan Fwrdd Portffolio Newid, a oedd yn cynnwys Tîm Gweithredol yr Arolygiaeth a Chyfarwyddwr Cynllunio y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol fel yr Uwch Noddwr, yn ogystal â 'chyfaill beirniadol'. Darparodd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol gyllid ar gyfer agweddau ar y rhaglen ar ôl cymeradwyo achosion busnes perthnasol.

Roedd y Portffolio Newid yn cynnwys y Rhaglen Adfer Perfformiad (gweler Adran 7), y Rhaglen Gweddnewid (gweler Adran 8) a'r Rhaglen Moderneiddio Technoleg Gwybodaeth (gweler Adran 9).

7. Rhaglen Adfer Perfformiad

Roedd darparu gwasanaeth prydlon o ansawdd uchel yn parhau'n elfen hanfodol o'n rôl yn y system gynllunio, ac o'r pwys mwyaf i'n rhanddeiliaid. Buom yn gweithio ar welliannau i'n helpu i ddarparu ein gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithlon â'r ffocws mwyaf ar gwsmeriaid, a bodloni disgwyliadau cwsmeriaid.

Roedd adborth gan gwsmeriaid sy'n defnyddio ein gwasanaeth fwyaf, sef asiantau cynllunio ac ACLlau gan mwyaf, yn parhau i ddangos eu bod yn gweld gwerth uchel yn ein hansawdd a'n cywirdeb wrth benderfynu ar achosion, er bod 9 o bob 10 ohonynt yn dweud wrthym nad ydym yn ddigon cyflym o gyflwyno i benderfynu. Roedd yr adborth hefyd yn dangos ei bod yn anodd olrhain cynnydd apeliadau, a bod angen mwy o wybodaeth ar y prif bartïon am gynnydd achosion.


Roedd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol² 'Planning for new homes' ym mis Chwefror 2019 yn cydnabod cyfraniad yr Arolygiaeth at ddarparu tai trwy roi caniatâd cynllunio ar apeliadau, a nododd hefyd yr adolygiad annibynnol, a gynhaliwyd gan Bridget Rosewell CBE, a sefydlwyd gan y Llywodraeth ym Mehefin 2018. Crybwyllodd adroddiad ei hadolygiad y gellid lleihau'r amser cyfartalog y mae'n ei gymryd i benderfynu ar ymchwiliad apêl cynllunio (sy'n cael ei ddefnyddio yn yr achosion mwyaf cymhleth, fel arfer) o 47 i 26 wythnos. Gwnaeth yr adroddiad 22 o argymhellion – yn amrywio o ddull mwy rhagweithiol o reoli proses yr ymchwiliad trwy benodi Arolygwyr ynghynt, i reoli achosion yn fwy gweithredol ac atebion technolegol gwell, gan gynnwys porth ar-lein newydd. Yn gynyddol, mae gweithredu'r argymhellion hyn yn ymwneud â newid diwylliant, a byddwn yn ystyried ymestyn yr egwyddorion hyn i agweddau eraill ar ein gwaith. Hefyd, dylai'r ymgyrch recriwtio ar ddiwedd 2018 ganiatáu i ni ganolbwyntio mwy o adnoddau ar broses gwaith achos ymchwiliadau pwysig. Gwnaethom groesawu canfyddiadau'r adroddiad ac rydym yn cydnabod bod cael ein perfformiad yn ôl ar y trywydd iawn yn angenrheidiol.

Beth achosodd y materion perfformiad yn Lloegr?

Roedd sawl ffactor cyfrannol –

- cynyddodd galw ar draws pob agwedd ar waith achos, a waethygyd gan 1,350 o achosion 'ciosgau ffôn' yn 2017/18;
- cynyddodd y galw am ein gwaith seilwaith mwy cymhleth a Chynlluniau Lleol, a bydd yn parhau i wneud hynny; ac
- effeithiwyd ar gyflenwad, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â nifer yr Arolygwyr, yn benodol gan anawsterau o ran recriwtio Arolygwyr a'r amser a gymerodd iddynt ddod yn gwbl gynhyrchiol.

² HC 1923



Roedd hefyd yn anodd i ni ragweld galw yn y dyfodol yn gywir ac yn effeithiol o hyd, ac felly rheoli nifer y bobl sydd eu hangen i gyflawni'r gwaith. Rhwystrodd diffyg gwybodaeth reoli soffistigedig ein gallu i ddeall y sefyllfa, gwneud penderfyniadau effeithiol a rhagfynegi perfformiad yn y dyfodol.

Er mwyn ymateb i'r her hon, ceisiodd yr Arolygiaeth gynyddu cynhyrchedd trwy symleiddio prosesau gwaith achos a dilysu, dargyfeirio cyllid o feysydd cymorth i feysydd gweithredol ac, yn gynnwys yn 2017, sefydlu Rhaglen Gweddnewid gyfannol. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ddigon i gau'r bwch. Teimlwyd yr effaith trwy ôl-groniad cynyddol o waith, a oedd dros 9,000 o achosion apeliadau ar un adeg, ac amseroedd hwy ar gyfer gwaith achos.

Beth a wnaed am hyn?

Er mwyn ymateb i hyn, lansiodd yr Arolygiaeth raglen gwerth £13m, a ariannwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, dros 2018/19 a 2019/20, i adfer a chynnal perfformiad gweithredol ar lefelau a ddisgwylir gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid. Wrth wraidd y rhaglen hon roedd recriwtio Arolygwyr newydd gyflogedig a heb fod ar gyflog misol (contractwyr), a model newydd ar gyfer penderfyniadau gan ddefnyddio Swyddogion Cynllunio Apeliadau. Bydd systemau gwybodaeth reoli newydd yn sail i benderfyniadau effeithiol a dadansoddeg perfformiad rhagfynegol hefyd. Ategir hyn gan y porth apeliadau ar-lein newydd ac archwilio ffyrdd newydd i weithio'n fwy effeithlon, a fydd yn gwneud defnydd gwell o adnoddau presennol.

Mae'r rhaglen adfer hon yn galluogi'r Arolygiaeth i amddiffyn y lefelau cyflawni presennol ar gyfer gwaith achos â blaenoriaeth (NSIP, Cynlluniau Lleol ac ymchwiliadau tai), wrth adfer a chynnal perfformiad mewn apeliadau cynllunio, gorfodi a gwaith achos arbenigol.

Bydd yn ein galluogi i ryddhau tuag 35,000 o dai sydd 'ynghlwm' yn y broses apeliadau cynllunio ar hyn o bryd ynghynt, ac yn rhoi mwy o hyder i'r farchnad bod ein proses apeliadau yn gadarn ac yn amserol. Bydd hefyd yn ategu'r gwaith sydd ei angen i roi'r argymhellion o Adolygiad Ymchwiliadau Rosewell ar waith.

Yr ymgyrch recriwtio

Ers yn gynnar yn 2018, rydym wedi recriwtio 53 o Arolygwyr newydd, a bydd y ffigur hwn yn cynyddu 68 o Arolygwyr newydd pellach ar ôl ymgyrch recriwtio helaeth. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol i'n cronfa o Arolygwyr. Yn nodweddiadol, mae Arolygwyr newydd yn ymuno â'r Arolygiaeth ar Fand 1, lle byddant yn penderfynu ar bob achos heblaw'r rhai mwyaf cymhleth, ac yn ymgymryd â hyfforddiant dwys a pharhaus. Trwy weithio o bell ym mhob rhan o Gymru a Lloegr, cânt eu penodi i achosion o'r cychwyn cyntaf, a darperir mentora a sicrwydd ansawdd gan Arolygwyr profiadol. Rydym hefyd wedi dyrchafu grŵp mawr o Arolygwyr i Fand 2 i fodloni'r galw ar y lefel honno, yn ogystal ag agor rhaglen recriwtio dreigl ar gyfer Arolygwyr Band 2 a 3 ar gontract. Mae cynyddu cronfa'r Arolygwyr tra medrus y gellir eu penodi i ymdrin â cheisiadau NSIP yn hanfodol er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer yr archwiliadau hyn.

Roedd ein strategaeth gwella perfformiad hefyd yn cynnwys contractio gwasanaethau Arolygwyr heb fod ar gyflog i ddarparu adnodd pwysig a hyblyg. Daeth ein hymgyrch gaffael yn 2018 â'r tîm Arolygwyr heb fod ar gyflog i 84 o'r niferoedd a grybwyllwyd y llynedd ac, ar ôl cael gwybodaeth berthnasol, maent wedi dechrau gweithio ar achosion.

Er gwaethaf llwyddiant ymgyrchoedd recriwtio diweddar, rydym wedi cael trafferth recriwtio nifer yr Arolygwyr sydd ei hangen arnom i fodloni'r galw, yn hanesyddol. Un o'r heriau sylweddol y gwnaethom ei hwynebu oedd recriwtio o gronfa gyfyngedig o bobl gymwysedig wrth gystadlu â'r sector preifat a rhannau eraill o'r sector cyhoeddus. O ganlyniad, dechreuom feddwl yn greadigol ac yn wahanol ynghylch sut i ddod o hyd i Arolygwyr y dyfodol. Un cyfryw ddull newydd fu'r model newydd o swyddogion cynllunio apeliadau. Yn debyg i Arolygwyr, mae'r rhain yn gweithio o bell ac yn cyflawni rôl debyg, ond mae'r model yn galw iddynt gael eu penodi i'r apeliadau cynllunio a gorfodi symlach sy'n dilyn y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig. Nid ydynt yn gwneud penderfyniad ar yr achos (caiff hyn ei wneud gan Arolygydd ar sail argymhelliad). Mae'r rôl wedi'i llunio i ddarparu cyfle ardderchog i ddatblygu gyrfa i gynllunwyr a gweithwyr proffesiynol eraill llai profiadol, gan eu galluogi i elwa ar brofiad eang o fewn y sefydliad. Yn debyg i Arolygwyr, bydd swyddogion cynllunio apeliadau yn gallu manteisio ar raglen hyfforddiant helaeth i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth am y system gynllunio, er mwyn iddynt naill ai ddod yn Arolygwyr neu fynd ymhellach yn eu gyrfa y tu allan i'r Arolygiaeth Gynllunio. Cafwyd ymateb ardderchog i'n hymgyrch recriwtio ddiweddar, sef 82 o geisiadau – mwy na phedair gwaith y 21 o benodiadau roeddem am eu gwneud.

Er i ni recriwtio nifer sylweddol o adnoddau newydd, nid yw hyn wedi cyrraedd y lefelau gofynnol a bydd yr Arolygiaeth yn cynnal ymarfer recriwtio pellach yn gynnar yn 2019/20 ar gyfer mwy o Arolygwyr heb fod ar gyflog, Arolygwyr Band 2 ac Arolygwyr Band 3.

Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf?

Erbyn hyn, mae'r Rhaglen yn dechrau dangos arwyddion cynnar o adfer perfformiad ar gyfer achosion cynllunio sylwadau ysgrifenedig, ac mae maint y rhestr achosion sy'n aros am Arolygydd yn dechrau lleihau, ac mae'r amseroedd

amser targed wedi lleihau o dros 12 wythnos ar ddechrau'r flwyddyn i oddeutu 6 wythnos. Mae hyn yn golygu bod Arolygwyr yn cael eu neilltuo i achosion newydd ynghynt nag y buont ers misoedd lawer, ac mae defnyddwyr diweddar y gwasanaeth apeliadau wedi cael profiad o berfformiad sy'n nesáu at lefelau derbyniol (cyfnod aros o 4 wythnos). Mae hyder y gellir adfer perfformiad gweithredol yn ystod 2019/20 yn uchel o hyd. Ar ôl prawf sicrwydd allanol ar ein model rhagweld, amlygwyd cyfnod adfer o rhwng 1-3 mis (Medi – Rhagfyr 2019), a chytunwyd â'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i ddarparu perfformiad 'Dilysu i Benderfyniad' o 18 wythnos.

Dechreuom ar gynllun peilot ar gyfer achosion ymchwiliadau apeliadau cynllunio yn Chwefror 2019, gan arbrofi â rhai o'r argymhellion a wnaed gan Bridget Rosewell, fel pennu dyddiadau ymchwiliadau ynghynt a chynnwys Arolygwyr mewn achosion ynghynt, er mwyn iddynt gyfarwyddo proses yr ymchwiliad. Rydym yn datblygu adroddiadau perfformiad amser real i reolwyr weld adroddiadau perfformiad, fel amseroedd penderfynu yn erbyn y targed, nifer yr achosion byw ar system, a gwybodaeth i helpu i amlygu rhwystrau mewn achosion unigol. Bydd ein cwsmeriaid yn gweld rhagor o welliannau wrth i'n Harolygwyr newydd gwblhau eu hyfforddiant a symud ymlaen i waith achos byw.

8. Rhaglen Gweddnewid

Cyflawnodd y Rhaglen Gweddnewid rai allbynnau sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol hon i ategu ein hamcanion strategol. Ym mis Hydref 2018, cynhaliodd Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA) adolygiad o'r Rhaglen Gweddnewid, i roi syniad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, a ph'un a oedd yn gweithredu yn unol â'r bwriad. Y dosbarthiad terfynol oedd Gwyrdd/Sylweddol – 'Mae'r fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn ddigonol ac yn effeithiol'. Nid oedd unrhyw argymhellion.

Yn Nhachwedd 2018, ar ôl cyflwyno Achos Amlinellol Strategol cyfredol i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, cawsom gytundeb ganddynt i ariannu gweddill y Rhaglen Gweddnewid. Rhoddodd hyn y cyllid i ni gyflawni ein cynlluniau ar gyfer strwythur newydd, yn ogystal â chyllid i barhau i adeiladu ar y gwaith manwl a gwblhawyd eisoes i lunio proses gwaith achos newydd a datblygu porth newydd i'r cyhoedd a system gwaith achos newydd.

Mae'r ddau benderfyniad hyn yn adlewyrchu hyder y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn ein gallu i wireddu'r pethau hyn.

Llunio'r sefydliad

Dechreuom ar daith eleni i newid sut rydym yn trefnu ein hunain i ddarparu'n well i'n cwsmeriaid, ategu ein nodau strategol yn well, a chefnogi ein pobl yn well yn eu gyrfaedd yn yr Arolygiaeth Gynllunio. Dechreuom drwy ddatblygu model gweithredu targed newydd, a oedd yn ein caniatáu i ffurfio a blaenoriaethu'r gwaith, creu darlun o'r dyfodol i staff ac amlygu bylchau critigol o ran gallu.

Penderfynom fynd i'r afael â'r newid hwn mewn dau gam, a datblygu strwythur uwch sydd:

- yn darparu atebolrwydd clir ar gyfer ein perfformiad gweithredol;
- yn ein galluogi i symud adnoddau i'r gwaith â'r flaenoriaeth uchaf;
- yn cael gwared ar seilios rhwng ein llinellau gwaith i ddarparu cyfathrebu gwell; ac
- yn creu cyfleoedd mwy strwythuredig ar gyfer dilyniant a datblygu gyrfa.

Yn y cam nesaf, byddwn yn cadarnhau'r strwythur a'r timau sydd â'r capasiti a'r gallu angenrheidiol i gefnogi ein Model Gweithredu Targed sy'n dod i'r amlwg.

Gweddnewid cyflenwi gweithredol

Rydym yn symud ymlaen yn dda â'r prosiect hwn. Mae ei gwmpas yn cynnwys proses cyflenwi weithredol yr Arolygiaeth o'r dechrau i'r diwedd, a phob agwedd sy'n effeithio arni, gan gynnwys pobl, prosesau, technoleg, systemau a strwythurau. Mae hyn yn cynnwys holl waith achos yr Arolygiaeth, yn ogystal â phrosesau cysylltiedig, fel adborth gan gwsmeriaid yn ymwneud â gwaith achos.

Ein gweledigaeth ar gyfer y prosiect yw:

Gweddnewid ein prosesau cyflenwi gweithredol o'r dechrau i'r diwedd

- ei gwneud yn haws i'n cwsmeriaid ddelio â ni;
- cynorthwyo ein staff i weithio mor effeithlon ac effeithiol â phosibl;
- manteisio i'r eithaf ar ddefnyddio cyfleoedd digidol;
- darparu gwerth rhagorol am arian i drethdalwyr.

Mae'r prosesau'n dechrau wrth 'ddrws blaen' yr Arolygiaeth (pan fydd cwsmer yn ystyried cyflwyno achos) ac yn gorffen pan fydd penderfyniad/adroddiad wedi'i wneud, ei gofnodi a'i gyfleu (neu pan fyddwn yn ymdrin â chwyn neu gysylltiad pellach yn ymwneud ag achos).

Mae rhagor o wybodaeth am ein cynnydd i'w gweld yn Adran 11 (Darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol).

Strategaeth pobl

Gwnaethom ddatblygu strategaeth pobl i ategu ein cynllun strategol. Roedd yn canolbwyntio ar dair colofn waith, sef: datblygu ein sgiliau arweinyddiaeth a rheoli, datblygu arbenigedd proffesiynol ein pobl, a mwy o ffocws ar gynhwysiant, amrywiaeth a lles. Gwnaethom hyfforddi dros 150 o reolwyr llinell i wella eu sgiliau arweinyddiaeth, eu paratoi i gael sgysiau rheoli mwy adeiladol, a'u helpu i ddod yn fwy ysbrydoledig, hyderus a grymusol. Gwnaethom arbrofi â dull newydd o reoli perfformiad, a chaiff hwnnw ei gyflwyno yn 2019/20. Gwnaethom fuddsoddi mewn datblygiad proffesiynol parhaus a dechrau sefydlu fframweithiau proffesiynol ar draws y sefydliad – gyda'r nod o sicrhau y caiff pawb eu hystyried yn aelod o broffesiwn a'u parchu am eu harbenigedd. Tanategwyd hyn oll gan fwy o ffocws ar gynhwysiant; er enghraifft, fe wnaethom adolygu ein harferion recriwtio er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp. Dangoswyd ein hymrwymiad i les iechyd meddwl pan lofnododd y Prif Weithredwr addewid "Time to change" yn ein digwyddiad i'r holl staff. Mae MIND (yr elusen iechyd meddwl) wedi cydnabod ein hymdrechion yn y maes hwn, a dyfarnwyd ei Gwobr Arian Lles yn y Gweithle i ni.



9. Rhaglen Moderneiddio TG

Dechreuodd y gwaith hwn trwy sefydlogi ein system gwaith achos etifeddol, gan gael gwared â'r rhwystredigaethau a chynyddu hyder yn newidiadau'r dyfodol, a ddarparodd lwyfan ar gyfer datblygiadau technegol yn y dyfodol.

Gwnaethom ddilyn hyn trwy gynnal cynllun peilot â dyfeisiau symudol newydd (llechi cyfrifiadurol) i Arolygwyr, a ddangosodd fanteision fel mwy o gludadwyedd a chysylltedd rhwydd. Bydd newidiadau yn y dyfodol (gweler Gweddnewid cyflenwi gweithredol yn Adran 8 uchod) yn lleihau'r angen am gopiâu papur o ddogfennau ac yn hwyluso'r mynediad cynharach sydd ei angen er mwyn rhoi'r argymhellion o Adolygiad Bridget Rosewell ar waith yn llawn.

Daeth y contract â'n cyflenwr TG i ben ym Mawrth 2019 ac, ynghyd â'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, fe wnaethom weithio i ddisodli'r gwasanaethau a ddarparwyd gan Fujitsu. Erbyn hyn, LittleFish sy'n darparu ein desg gymorth.

Mae ein gliniaduron a'n llechi cyfrifiadurol newydd yn defnyddio cysylltedd diwifr, sydd wedi darparu mwy o gludadwyedd, y gallu i weithio yn unrhyw le ac ynghynt, a mynediad diogel at systemau'r Arolygiaeth. Uwchraddiwyd y WiFi yn Temple Quay House (TQH) hefyd. Mae uwchraddio i Office365 wedi darparu offer cydweithio modern a fydd yn gwella cyfathrebu ac yn ategu effeithlonrwydd gwell a'n cymwysiadau newydd i'r cyhoedd.

10. Gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

Incwm

Caiff ein hincwm trethadwy ei arwain gan alw gan ein cwsmeriaid ac, oherwydd hynny, mae'n amrywio'n sylweddol o un flwyddyn i'r llall. Roedd cyfanswm yr incwm yn 2018/19 77% yn uwch na'r flwyddyn gynt, sef £16.2m (2017/18 £9.2m). Er na allwn fyth rhagfynegi ein hincwm yn llawn ymlaen llaw, rydym wedi buddsoddi mewn gwella'r ffordd rydym yn pennu cyllidebau incwm, yn rhagamcanu ac yn rheoli ein hincwm i'n galluogi i liniaru'r risg o incwm yn amrywio o'r lefel gynlluniedig. Eleni, gwelsom gynnydd sylweddol yn ein hincwm ond, erbyn diwedd y flwyddyn, roeddem £0.6m (3.6%) yn unig uwchben ein cyllideb gytûn. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf ag NSIPau ychwanegol yn cael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn, wedi'i wrthbwyso gan refeniw is na'r disgwyl gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, cynlluniau datblygu a'r gymuned.

Gwariant

Yn unol â ffocws ar wella perfformiad, cynyddodd ein gwariant ar gostau uniongyrchol a gwnaethom leihau rhai o'n gorbenion. Cynyddodd gwariant ar Arolygwyr £2.9m o gymharu â'r flwyddyn gynt (£1.6m ar Arolygwyr cyflogedig, £1.3m ar Arolygwyr heb fod ar gyflog), a chynyddodd gwariant ar staff cymorth, gan gynnwys gweithwyr achos, £1.2m. Bodlonwyd hyn gan gynnydd mewn incwm a chyllid gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, ond cafodd ei wrthbwyso hefyd gan arbedion, ac roedd gwariant ar gostau adeiladau a swyddfa bron 20% neu £0.8m yn is o gymharu â'r flwyddyn gynt. Roedd hyn yn cynnwys ad-daliad untro o ardrethi. Bydd gostyngiadau cytûn i rent yn y dyfodol, o ganlyniad i leihau'r lle swyddfa a ddefnyddir gennym, yn mwy na gwrthbwyso hyn ac yn cyflawni arbedion sylweddol. Roedd costau taliadau cyfreithiol, taliadau costau anffafriol a thaliadau dan ein polisi ex gratia yn is o lawer eleni hefyd (£0.8m yn is).

Cynyddodd ein sylfaen asedau'n sylweddol yn ystod y flwyddyn, a chynyddodd ein gwariant cyfalaf o gyllideb wreiddiol o £0.5m i wariant terfynol o £4.5m, a gadwyd o fewn cynnydd cymeradwy i'r gyllideb. Mae hyn yn adlewyrchu buddsoddiad yn ein system gwaith achos a'n prosesau fel rhan o'n rhaglen moderneiddio TG, a ddarparodd ddyfeisiau digidol newydd a ffyrdd newydd o weithio i'n holl staff yn ystod y flwyddyn. Fel rhan o'r gwelliannau i'r ffordd rydym yn cyflawni gwaith achos, penderfynwyd disodli'r system rheoli gwaith achos yn ystod y flwyddyn hefyd. O ganlyniad i'r penderfyniad hwn, gostyngwyd gwerth yr asedau anniriaethol a adlewyrchir yn ein cyfrifon mewn perthynas â disodli'r system, sef Horizon.

Perfformiad yn erbyn y gyllideb

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom reoli ein perfformiad ariannol yn erbyn y gyllideb ar draws tri phrif bennawd: busnes arferol, gweddnewid ac adfer perfformiad.

Y gyllideb refeniw net gytûn ar ddechrau'r flwyddyn oedd £36.1m i fodloni gofynion busnes arferol, ac £1.8m i ariannu gweithgareddau gweddnewid. Yn

ystod y flwyddyn, cynyddodd y gyllideb gymeradwy gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wrth i achosion busnes gael eu cymeradwyo i sicrhau cyllid refeniw pellach o £1.1m ar gyfer newid gweddnewidiol, ac £1.5m ar gyfer adfer perfformiad (£10m ar gyfer 2019/20), ac roedd mân ostyngiad yn erbyn cyllidebau busnes arferol.

Ar ôl y newidiadau i'r gyllideb weithio, daeth y flwyddyn i ben â thanwariant o £2.8m yn erbyn y gyllideb, fel a ganlyn:

| 2018/ 19 | Cyllideb derfynol | Alldro | Tanwariant |
|---|-------------------|--------|------------|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Busnes arferol | 32,232 | 30,581 | 1,651 |
| Gweddnewid | 3,661 | 2,748 | 913 |
| Cyllid adfer perfformiad | 1,547 | 1,284 | 263 |
| Costau refeniw net (cyn dibrisiant ac amhariad) | 37,440 | 34,613 | 2,827 |

Mae'r tanwariant ar gyfer Gweddnewid yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith na aethom i unrhyw gostau yn ystod y flwyddyn yn erbyn Cynllun Ymadael Gwirfoddol, a sefydlwyd o fewn ein gwaith Lluio'r Sefydliad. Arweiniodd hyn at amrywiant o £0.7m yn erbyn y gyllideb. Cododd tanwariant arall ar weddnewid o ganlyniad i oedi cyn i'n ffrwd waith Gweddnewid Cyflenwi Gweithredol gael ei chymeradwyo gan Wasanaethau Digidol y Llywodraeth.

Fel rhan o'n hymrwymiad i wella ein perfformiad, defnyddiwyd y gwariant adfer perfformiad i recriwtio Arolygwyr newydd cyflogedig a heb fod ar gyflog, yn ogystal â buddsoddi mewn gwelliannau i'n hoffer gwybodaeth reoli. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn Adran 7. Roedd y tanwariant crybwylledig o £0.3m o ganlyniad i oedi o ran gallu recriwtio arbenigwyr technegol ar gyfer y prosiect gwybodaeth reoli, ac oherwydd bod argaeledd Arolygwyr heb fod ar gyflog ychydig yn is nag y disgwyliwyd yn wreiddiol.

Rheolwyd gweddill y gweithgareddau busnes arferol yn ofalus yn ystod y flwyddyn o fewn y sefyllfa gyffredinol hefyd. Mae'r amrywiant incwm wedi'i nodi uchod, ac roedd yr amrywiant o ran cyfanswm y costau gweithredu yn uwch na'r disgwyl oherwydd tanwariant sylweddol yn erbyn costau her gyfreithiol (£0.7m). Rydym yn clustnodi cyllid yn anffurfiol ar gyfer ex gratia a heriau cyfreithiol eraill tan ddiwedd y flwyddyn, oherwydd y risg y bydd angen cydnabod hawliadau hwyr. Gan nad oedd unrhyw hawliad mawr ar ddiwedd y flwyddyn a oedd yn bodloni rheolau cydnabyddiaeth ariannol, cofnodwyd tanwariant mawr. Ar ben hynny, ni ragwelwyd gosodiad hwyr y 4^{ydd} llawr a chytundebau eraill â'n landlord i leihau ein hatebolrwyddau eiddo yn y chwarter olaf, ac felly cyfrannodd hynny at y tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn.

Nid oes unrhyw ansicrwydd ynghylch busnes hyfyw yr Arolygiaeth, felly gwnaethom barhau i fabwysiadu sail busnes hyfyw wrth barato'i'r Datganiadau Ariannol.

11. Darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol

Ar draws sawl agwedd ar ein gwaith, gwnaethom ryngweithio ag ystod amrywiol o gwsmeriaid. Roedd y rhain yn cynnwys awdurdodau lleol, apelyddion, asiantau, datblygwyr seilwaith, gweinidogion, arbenigwyr pwnc ac, wrth gwrs, grwpiau â buddiant.

Mae gwasanaeth cwsmeriaid yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. O ran gwaith achos, gwnaethom barhau i ymfalchïo mewn sicrhau y caiff ei drin yn broffesiynol, gan ystyried pob cyflwyniad gan bob parti yng nghyd-destun polisi cynllunio lleol a chenedlaethol perthnasol, a deddfwriaeth gymwys, gan gynnwys y Ddeddf Hawliau Dynol.

Gwasanaeth ar-lein gwell

Agwedd bwysig ar ddarparu gwasanaeth gwell i'n cwsmeriaid oedd y gwaith a gyflawnwyd eleni i ailddatblygu'r Porth Gwaith Achos Apeliadau – sef y brif ffordd y cyflwynwyd gwybodaeth i ni gan yr amrywiol bartïon sy'n gysylltiedig ag apêl. Mae nifer o broblemau allweddol â'r system gyfredol:

Cywir y tro cyntaf

Roedd un o bob tair apêl roeddem yn eu derbyn naill ai â dogfennau coll neu'n annilys. Achosodd hyn oedi sylweddol wrth i'n staff gysylltu ag apelyddion i gael y dogfennau coll roedd eu hangen arnom i symud yr apêl yn ei blaen. Mae angen i ni ddiweddarau'r Porth presennol i gael yr holl wybodaeth berthnasol yn effeithiol wrth gyflwyno apêl, a helpu pobl i'w 'gwneud yn gywir y tro cyntaf'.

Trafferth gweld sut mae apêl yn mynd rhagddi

Un o'r prif broblemau y cododd apelyddion a'u hasiantau â ni oedd nad oeddent yn gallu gweld drostynt eu hunain lle'r oedd eu hapêl yn y broses. Er bod y Porth presennol yn rhoi syniad o'r camau allweddol, hoffem ddarparu mwy o dryloywder.

Safonau gwasanaeth digidol

Mae'r Porth presennol wedi'i wella sawl gwaith dros y blynyddoedd, ond mae wedi parhau ar ôl yr oes. Mae'r ffordd mae'r llywodraeth yn darparu gwasanaethau digidol wedi symud ymlaen, ac mae mwy o bwyslais ar greu profiad gwell i ddefnyddwyr. Bydd y Porth newydd yn gweithredu'n unol â'r safonau gwasanaeth digidol a amlinellir gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth, er mwyn cynnig profiad gwell i gwsmeriaid.


Caiff agweddau ar y broses eu cwblhau y tu allan i'r Porth o hyd, sy'n achosi baich gweinyddol ac yn peri rhwystredigaeth i ddefnyddwyr. Mae'r prototeip ar gyfer ein gwefan³ wedi'i seilio ar ymchwil helaeth â defnyddwyr a phroffion yn cynnwys mewnbwn gan asiantau cynllunio, apelyddion heb gynrychiolwyr,

³ Sylwer – mae'r lluniau ar y tudalennau dilynol yn brototeipiau sy'n dangos golwg a gwedd disgwylidig y wefan, a gallant fod yn wahanol i'r fersiynau 'byw' terfynol.


ACLLau a phartion â buddiant. Cydweithiodd ein tîm yn agos â'r grwpiau hyn er mwyn sicrhau bod y prototeip yn bodloni anghenion defnyddwyr, ac y gallwn symud ymlaen i'r cyfnod beta â chyfeiriad clir. Roedd adborth yn awgrymu yr hoffai defnyddwyr gael arweiniad cliriach wrth gyflwyno apeliadau, a bydd y Porth newydd yn cynnwys mwy o arweiniad cryno ar y dudalen. Mae ein tîm o ysgrifenyddwyr cynnwys yn ei brofi â'n grwpiau defnyddwyr er mwyn sicrhau ein bod wedi'i wneud yn iawn.

Apelyddion – ei gwneud yn gywir y tro cyntaf

Mae strwythur y ffurflen cyflwyno apêl yn hollbwysig o ran helpu defnyddwyr i'w gwneud yn gywir y tro cyntaf. Wedi ein hysbrydoli gan y 'Rhestr Tasgau' mewn wasanaethau digidol eraill ar draws y llywodraeth, cawsom adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr ar y dull hwn ar gyfer casglu data. Mae'r ffurflen newydd yn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr lenwi gwahanol rannau o'r ffurflen yn y drefn maent yn dymuno gwneud hynny.




Gan fod y broses apeliadau yn hir ac yn gymhleth, roedd defnyddwyr o'r farn y byddai llinell amser, yn dangos sut mae eu hapêl yn mynd rhagddi, o fudd iddynt. Roedd hyn yn berthnasol i ddefnyddwyr untro (apelyddion heb gynrychiolydd) i'w helpu i symud drwy'r broses, yn ogystal ag ACLLau, sy'n debygol o fod yn rheoli nifer o apeliadau ar y tro. Ysbrydolwyd dyluniad terfynol y llinell amser gan y patrymau dylunio sy'n cael eu defnyddio gan wasanaeth Ffurflen Dreth Hunanasesu Cyllid a Thollau EM.




Awdurdodau cynllunio lleol – deall fy apeliadau

Wrth i ni ymgysylltu ag ACLLau, sy'n ymdrin â nifer o apeliadau ar unrhyw adeg benodol, fe ddeallasom yr angen iddynt allu deall yn gyflym sut mae apeliadau'n mynd rhagddynt. Mae cyflwyno llinell amser ar 'golwg achos' yr ACLL, yn ogystal

ag amlinellu gwybodaeth allweddol am yr apêl yn glir, yn galluogi ACLlau i weld yn gyflym y camau gweithredu sydd ar gael iddynt mewn perthynas â'r apêl.



Yr holiadur yw un o'r dulliau pwysicaf y mae'r Arolygiaeth yn eu defnyddio i gasglu tystiolaeth ac, fel y cyfryw, mae'n hanfodol ei fod yn hawdd i ACLlau ei lenwi. Trwy sicrhau y gofynnir am dystiolaeth yn glir pan mae ei hangen yn unig, yn ogystal â symleiddio'r iaith a ddefnyddir, gallwn sicrhau nad yw'r broses yn rhy gymhleth i ACLlau.



Cyflwyno'r gwasanaeth newydd

Ein nod yw lansio prawf o'r gwasanaeth newydd hwn yn 2019, cyn ei gyflwyno ar gyfer yr holl waith achos erbyn canol 2020.

12. Mwy o ymgysylltu â staff

Rydym wedi ceisio gwella ymgysylltu â staff mewn sawl ffordd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys:


- rôl barhaus i'r Panel Ymgysylltu â Staff;
- yng Ngorffennaf 2018, cynhaliom ddigwyddiad i'r holl staff, gan ddod â'n staff sydd wedi'u lleoli mewn swyddfeydd a'n gweithwyr o bell at ei gilydd am ddiwrnod. Roedd mor llwyddiannus, cynhaliwyd ail ddigwyddiad ym Mawrth 2019, a'r bwriad yw cynnal digwyddiadau tebyg bob blwyddyn, cyn yr hyfforddiant blynyddol i Arolygwyr;
- buddsoddi mewn datblygu ein rheolwyr llinell ar bob lefel;
- codi proffil ein cyfathrebiadau mewnol, yn ymwneud yn benodol â'n rhaglen newid;
- ceisio barn ein pobl i lywio penderfyniadau ynghylch ffurf y sefydliad yn y dyfodol, a chynnwys llawer ohonynt mewn llunio prosesau newydd a gwell; a
- gwella ein darpariaeth lles, gan gynnwys cyfeiriadau penodol at y cymorth y gall staff ei ddisgwyl mewn amgylchiadau anodd, a rhwydwaith o Gynorthwyr Cyntaf Iechyd Meddwl.

13. Perfformiad – Lloegr

Archwiliadau cyhoeddus o Gynlluniau Lleol a rhestrau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol

Cyflwynwyd cyfanswm o 65 o Gynlluniau Lleol i'w harchwilio – sef 40 o gynlluniau strategol llawn a 25 o gynlluniau eraill, ac adnoddwyd pob un ohonynt ag Arolygydd. Gwnaethom gyhoeddi 52 o adroddiadau i ACLlau, a chanfod bod pob un o'r cynlluniau hynny yn 'gadarn'. Tynnwyd dau gynllun yn ôl. Mabwysiadodd ACLlau 49 o Gynlluniau ac, ar ddiwedd y flwyddyn, dygwyd 99 o Gynlluniau Lleol ymlaen i 2019/20.

Erbyn diwedd Mawrth 2019, o'r 338 o ACLlau, mae 297 (88%) ohonynt wedi mabwysiadu Cynlluniau Lleol, ac nid oes gan 41 (12%) ohonynt Gynllun Lleol.



Cyflwynwyd saith o Restrau Codi Tâl ar gyfer yr Ardoll Seilwaith Cymunedol i ni eu harchwilio, gwnaethom gyhoeddi pum adroddiad a rhoddwyd 10 o Restrau Codi Tâl ar waith gan ACLlau. Dygwyd wyth o achosion ymlaen i 2019/20.

Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPau)

Yn 2018/19, cyflwynwyd 23 o geisiadau ffurfiol ar gyfer NSIPau arfaethedig. Yn ogystal, ychwanegwyd 18 o brosiectau cyn-cais newydd at y rhestr ar ein gwefan (<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk>), ac fe wnaethom roi cyngor sylweddol cyn-cais i ddatblygwyr yn y cyfnod hwn.



NSIP decisions issued under the 2008 Planning Act

Gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol gyfanswm o bum penderfyniad ar geisiadau NSIP - gweler y tabl cyntaf isod. Mae'r ail dabl yn rhoi dadansoddiad o'r penderfyniadau hynny, fesul sector.

| Prosiect | Cyhoeddwyd y penderfyniad |
|-----------------------------|---------------------------|
| Twnnel Silvertown | 10/05/2018 |
| Cyffordd Testos yr A19/A184 | 12/09/2018 |
| Gorsaf Bŵer Eggborough | 20/09/2018 |
| Porthladd Tilbury 2 | 20/02/2019 |
| Gorsaf Bŵer Millbrook | 13/03/2019 |

| Sector | Nifer y penderfyniadau | Sector | Nifer y penderfyniadau |
|--|------------------------|---------------|------------------------|
| Ynni | 2 | Trafnidiaeth | 3 |
| Gwastraff | - | Dŵr Gwastraff | - |
| Ni chyflwynwyd unrhyw achosion 'Busnes a Masnachol' eleni. | | | |

Ar ddiwedd mis Mawrth 2019, roedd 65 o achosion NSIP yn yr arfaeth - 44 o achosion yn y cam cyn gwneud cais, a 21 o geisiadau ar gyfnodau rhwng cael eu derbyn a'u hargymell. Roedd un cais gyda'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol yn aros am benderfyniad. Derbyniom 20 o geisiadau am farn gwmpasu ar Aseidiadau o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) ac ni dderbyniom unrhyw geisiadau sgrinio. Gwnaethom gyhoeddi 19 o farnau cwmpasu ar EIA yn ystod y flwyddyn, pob un ohonynt o fewn y targed. Roedd cyflawni yn erbyn amserlenni statudol NSIPau yn parhau'n fesur allweddol o lwyddiant, ac mae ein perfformiad i'w weld yn Atodiad A.

Apeliadau cynllunio ac apeliadau cysylltiedig

Mae ein perfformiad yn erbyn ein targedau i'w weld yn Atodiad A.

Rydym yn cydnabod nad ydym wedi cyflawni ein targedau amseroldeb eleni, a buom yn gweithio i sicrhau ein bod yn adfer mewn modd cynaliadwy. Ceir manylion am ein rhaglen adfer perfformiad yn Adran 7.

Nid yw ein targedau amseroldeb ffurfiol yn rhoi darlun cyflawn, gan eu bod wedi'u seilio ar amser o ddechrau achos yn ffurfiol i gyhoeddi penderfyniad. Mae wedi cymryd yn hwy nag y byddem yn dymuno eleni i gyrraedd y man cychwyn ffurfiol hwnnw. Felly, o safbwynt cwsmer, mae'r tabl isod yn dangos ein hamseroldeb o dderbyn apêl ddilys i gyhoeddi penderfyniad. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ffigurau hyn a'r rhai yn Atodiad A yn adlewyrchu'r amser a gymerwyd i ddilysu apeliadau a'u rhoi ar raglen Arolygydd.

| Math o achos | 2018/19 | | 2017/18 | |
|---|-----------|----------------------|-----------|----------------------|
| | Wythnosau | Nifer a benderfynwyd | Wythnosau | Nifer a benderfynwyd |
| Nifer gyfartalog yr wythnos o dderbyn apêl ddilys i gyhoeddi penderfyniad | | | | |
| Cynllunio: Sylwadau ysgrifenedig | 26.4 | 9,313 | 19.5 | 9,697 |
| Cynllunio: Gwrandawiaidau | 36.8 | 453 | 31.1 | 528 |
| Cynllunio: Ymchwiliadau (Nad ydynt yn bwrpasol) | 64.9 | 3 | 44.3 | 282 |
| Cynllunio: Ymchwiliadau (Pwrpasol) | 44.0 | 176 | 43.8 | |
| Deiliaid tai | 14.4 | 4,453 | 13.5 | 4,670 |
| Masnachol | 22.5 | 402 | 15.9 | 565 |

Ceisiadau cynllunio mawr

Mae darpariaeth yn bodoli dan Adran 62A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Twf a Seilwaith 2013) i geisiadau am ganiatâd cynllunio a chaniatâd materion a gadwyd yn ôl gael eu gwneud yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol lle maent (a) yn cynnwys datblygiad mawr a datblygiad nad yw'n fawr, a (b) dynodwyd yr ACLL perthnasol gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Byddai'r Arolygiaeth yn ymdrin â'r ceisiadau hyn ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn ystod 2018/19, ni ddynodwyd unrhyw ACLLau, ac felly ni chafodd unrhyw achosion eu cyfeirio atom i wneud penderfyniad arnynt.

Apeliadau gorfodi a gwaith achos arbenigol

Mae ein perfformiad yn erbyn ein targedau i'w weld yn Atodiad A.

Gwellodd amseroldeb penderfyniadau ar gyfer apeliadau gorfodi eleni o gymharu â'r llynedd, a chyrraeddwyd y targedau ar gyfer achosion trwy sylwadau ysgrifenedig a'r rhai a benderfynwyd trwy wrandawriad. Mae ein gwaith adfer perfformiad yn cwmpasu nid yn unig apeliadau cynllunio ond pob math o waith achos, ac rydym yn disgwyl i'r sefyllfa ar gyfer ymchwiliadau gorfodi wella o ganlyniad i hynny.

Roedd y gwaith achos arbenigol a dderbyniwyd yn isel o hyd, felly mae pob achos yn cael effaith sylweddol ar berfformiad. Er i ni fodloni'r targedau ar gyfer achosion tir comin a chynlluniau datblygu, roedd rhywfaint o waith achos yn mynnu Arolygydd â sgiliau arbenigol, ac fe effeithiodd hynny ar ein gallu i

gyflawni'n unol â'r targed. Rydym yn parhau i gydweithio â'n sefydliadau partner i flaenoriaethu achosion o arwyddocâd.

14. Perfformiad – Cymru

Teg | Fair
Agored | Open
Diduedd | Impartial
Amserol | Timely



Parhaodd nod Llywodraeth Cymru, sef creu Cymru sy'n iach ac egniol, yn ffyniannus a diogel, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, ac yn unedig a chysylltiedig, i gael ei ategu gan waith yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru. Mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru o'r farn ei yn 'adeg hollbwysig ar gyfer cynllunio yng Nghymru', ac mae'n dibynnu ar Weinidogion Cymru i sicrhau:

“gwasanaeth Arolygiaeth Gynllunio effeithlon a phriodol i Gymru, i gyflawni'r gwaith penderfynu cynyddol yn llawn”.

Darparwyd y gwasanaeth hwn gan dîm pwrpasol yn yr Arolygiaeth, sydd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Er ei fod yn annibynnol ar LIC, fe'i hariannwyd ganddi. Roedd y tîm yn cynnwys 19 o Arolygwyr yn gweithio gartref, a recriwtiwyd naill ai o awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru, neu sy'n byw yng Nghymru, a 26 o staff gweinyddol proffesiynol wedi'u lleoli mewn swyddfa, a ddarparodd gymorth i Arolygwyr. Roedd y tîm yn cynnwys chwech o siaradwyr Cymraeg, ac mae ymarferion recriwtio yn ceisio cynyddu'r nifer hon yn weithredol. Llywiwyd pob penderfyniad ac argymhelliad gan bolisiau a luniwyd ac a fabwysiadwyd yng Nghymru gan LIC ac ACLlau yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau), Polisi Cynllunio Cymru (PCC) a Nodiadau Cyngor Technegol (TAN).

Dilynodd yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru amcanion busnes neilltuedig ac arwyddocaol, yn unol â blaenoriaethau LIC, yn ogystal â nodau strategol yr Arolygiaeth. Roedd y rhain yn destun targedau perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru, a ddiwygiwyd ymhellach yn 2018/19, yn ymwneud â'r prif agweddau ar waith achos a broseswyd (cynllunio a gorfodi). Roedd amrywiaeth eang y gwaith a gwmpaswyd gan y tîm yn cynnwys:

- archwilio cynlluniau datblygu lleol (CDLlau);
- goruchwylio astudiaethau argaeledd tir ar gyfer tai;
- apeliadau caniatâd adeiladau rhestredig;
- apeliadau yn erbyn barnu'n annilys;
- gwaith achos hawliau tramwy;
- penderfynu ar achosion fforddfraint;
- gwaith achos tir comin;
- gorchmynion prynu gorfodol;
- trwyddedu morol; a
- Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS).

I bontio'r bwlch rhwng datganoli pwerau Caniatâd Seilwaith (a ddisgwyllir) yn 2020, a chyflwyno trefn bwrpasol i Gymru, cydweithiodd y tîm â meysydd eraill o arbenigedd yn y sefydliad ehangach i helpu LIC rhoi trefniadau interim ar waith. Roedd y profiad helaeth a'r wybodaeth ddofn sydd ar gael ymhlith y corff o weithwyr proffesiynol, yn cwmpasu ystod eang o feysydd, o fudd mawr.

Mae Atodiad A yn amlinellu perfformiad yn erbyn y targedau a bennwyd a nifer yr achosion a broseswyd yn ystod y flwyddyn. Methwyd tri tharged, sef 85% o ymchwiliadau mewn 19 wythnos, 85% o achosion sylwadau ysgrifenedig mewn 14 wythnos (Rhagfyr i Fawrth) a darparu adroddiadau Arolygwyr ar archwiliadau o Gynlluniau Datblygu yn unol â'r amserlenni cytûn.

Un penderfyniad ar ymchwiliad yn unig a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn, ac fe'i cyhoeddwyd y tu allan i'r targed. Amharwyd ar yr achos penodol oherwydd i'r digwyddiad a drefnwyd yn wreiddiol gael ei ohirio o ganlyniad i salwch yr Arolygydd, a chyhoeddi argraffiad 10 o Bolisi Cynllunio Cymru. Rhoddwyd cyfle i bartion wneud sylwadau pellach yn sgil hynny. Anaml iawn y caiff digwyddiad ei ohirio oherwydd salwch, ac nid oes modd ei ragweld, ac wrth i lai o achosion gael eu hystyried trwy weithdrefnau llafar, mae'r risg o beidio â bodloni'r targed hwn wedi cynyddu.

Gostyngodd Gweinidogion Cymru y targed ar gyfer sylwadau ysgrifenedig o 15 i 14 wythnos o Ragfyr 2018. Arweiniodd gwall gweinyddol at gyfleu'r hen ddyddiad targed i'r Arolygydd. Cyhoeddwyd penderfyniad yr Arolygydd erbyn y 15^{ed} wythnos, ond y tu allan i'r targed newydd o 14 wythnos. Roedd yr achos yn ymdrin â 15 o achosion unigol gyda'i gilydd, gan arwain at 15 o achosion a oedd y tu allan i'r targed.

Gohiriwyd yr archwiliad o gynllun datblygu Abertawe am gyfnod byr. Ni roddwyd hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol ar ddechrau a diwedd y cyfnod gohirio.

Defnyddiwyd cyfarfodydd tîm ac is-grwpiau Arolygwyr i gyfleu a thrafod y methiant i fodloni'r targedau a'r rhesymau penodol am hynny. Mae cywirdeb ac amseroldeb yn allweddol o ran cyflawni'r targedau a bennwyd i ni gan Weinidogion Cymru.

O edrych arnynt yn eu cyfanrwydd, roedd llwythi gwaith ychydig yn uwch na nifer yr achosion a dderbyniwyd yn 2017/18; derbyniwyd 850 o achosion o gymharu ag 844 y flwyddyn gynt (0.71%). Cyhoeddwyd mwy o benderfyniadau yn 2018/19 na'r flwyddyn gynt; 740 yn 2017/18 o gymharu â 784 yn 2018/19 (5.95%).

Archwiliwyd y diwygiad ffurf fer cyntaf i CDLI (CDLI Eryri), cwblhawyd yr archwiliad o CDLI Abertawe, a chyflwynwyd dau gynllun datblygu i'w harchwilio, sef Wrecsam a'r ail ddiwygiad ffurf fer ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Cynyddodd nifer y cyflwyniadau o geisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) a hysbysiadau o fwriad i gyflwyno cais yn yr ail flwyddyn ers i'r drefn gael ei rhoi ar waith:

- ceisiadau DNS a gyflwynwyd – dau;
- hysbysiadau o fwriad a gyflwynwyd – dau; ac
- adroddiadau DNS a gyflwynwyd – tri.

Yn ystod y flwyddyn, lanswyd gwefan a ddatblygwyd yn benodol i weld ac olrhain ceisiadau DNS. Datblygwyd y wefan yn effeithlon ac yn gost effeithiol, gan adeiladu ar y templed ar gyfer gwefan NSIP, a fu'n rhedeg yn llwyddiannus ers peth amser.



Er mwyn cyflawni dealltwriaeth well o'r materion y mae cwsmeriaid yn eu hwynebu a sicrhau gwasanaeth sy'n bodloni anghenion cwsmeriaid, cynhaliwyd sawl digwyddiad bach i randdeiliaid ar gyfer swyddogion awdurdodau cynllunio lleol ac asiantau. Rhoddodd Arolygwyr gyflwyniadau ar bob agwedd ar orfodi – hysbysiadau, pethau ymarferol a pheryglon. Roedd y sesiynau'n rhyngweithiol ac yn cynnwys pynciau fel:

- 'Dull Arolygydd o benderfynu';
- ffocws ar gylchlythyr newydd LIC ar Sipsiwn a Theithwyr; ac
- apeliadau yn erbyn barnu'n annilys – y stori hyd yn hyn.

Mae deilliannau'r sesiynau yn cynnwys ysgrifennu penderfyniadau yng Nghymru ychydig yn wahanol, er mwyn mynd i'r afael â rhywfaint o'r adborth a gafwyd; caiff y rhesymau ar gyfer pob amod atodedig eu cynnwys wrth ochr yr amod, yn hytrach nag yng nghorffymresymiad yr Arolygydd.

15. Ansawdd – Cymru a Lloegr

Mae cynnal ansawdd ein hallbw'n yn hanfodol. Caiff pob cwyn am achos unigol ei archwilio, ac rydym yn adolygu unrhyw achos lle caiff ein penderfyniad ei herio yn yr Uchel Lys. Am y nawfed flwyddyn yn olynol, roedd llai nag un y cant o'n gwaith achos (Cymru a Lloegr) yn destun her lwyddiannus yn yr Uchel Lys, neu gwynion a gadarnhawyd/a oedd yn llwyddiannus.

| Blwyddyn (Targed 99%) | Perfformiad | Allwedd |
|--------------------------|-------------|-----------------------|
| 2009/10 | 98.7% | Ni fodlonwyd y targed |
| 2010/11 | 99.2% | Bodlonwyd y targed |
| 2011/12 | 99.6% | |
| 2012/13 | 99.5% | |
| 2013/14 | 99.4% | |
| 2014/15 | 99.5% | |
| 2015/16 | 99.6% | |
| 2016/17 | 99.5% | |
| 2017/18 | 99.3% | |
| 2018/19 | 99.6% | |

Caniataodd ein hadolygiadau parhaus o ddeilliannau cwynion a heriau cyfreithiol llwyddiannus i ni ddysgu oddi wrthynt a lledaenu'r wybodaeth honno i Arolygwyr trwy gyfuniad o ddeunyddiau hyfforddi a diweddarau arweiniad. Rhannwyd y deilliannau hyn yn rheolaidd trwy'r Grŵp Llywio Proffesiynol i'r Pwyllgor Cwsmeriaid, Ansawdd a Safonau Proffesiynol.

“O ran y modd yr aethpwyd i'r afael â'r cwynion yn fewnol, mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn llawn edmygedd. Fe ddangosant ymgysylltiad gwirioneddol â'r cwynion a godwyd a'r ffordd y gwnaeth yr Arolygydd ymdrin â'r Gwrandawriad. Da iawn am hynny.” (Cyfreithiwr)

Cynhwyswyd yr Arolygiaeth yn yr ystadegau diweddarafsydd ar gael ar gyfer 2017/18, a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd⁴. Dangosodd yr adroddiad 37 o ymholiadau, 12 o asesiadau cwynion, dau wedi'u derbyn i'w harchwilio. O'r rhain, ni chadarnhawyd unrhyw un ohonynt. Terfynwyd dau archwiliad.

⁴ [www.ombudsman.org.uk/sites/default/files/Parliamentary Complaints Stats 2017 2018 Accessible.pdf](http://www.ombudsman.org.uk/sites/default/files/Parliamentary%20Complaints%20Stats%202017%202018%20Accessible.pdf)

Gall partïon sy'n mynd i dreulïau diangen o ganlyniad uniongyrchol i wall a wnaed gan yr Arolygiaeth hawlio iawndal trwy ein cynllun ex gratia. Yn 2018/19, gwnaethom daliadau mewn perthynas â 10 o hawliadau, a ddaeth i gyfanswm o lai na £150,000.

Roedd darparu gwasanaeth rhagorol i'n cwsmerïaid yn parhau'n flaenoriaeth allweddol i ni, a rhoesom sylw i'w adborth a roddwyd i ni. Tua diwedd 2018, cynhaliom ein pedwerydd arolwg enw da blynyddol, gan anfon dros 1,200 o wahoddiadau a chael 247 o ymatebion.

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr wrthym ein bod yn ddiuedd, yn deg, yn broffesiynol ac yn ddibynadwy, ac roedd llawer ohonynt yn canmol proffesiynoldeb y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd i fynd i'r afael â'r prif feysydd sy'n peri pryder. Roedd y rhain yn ymwneud ag amseroedd ymdrin ag apeliadau a'r angen i wella ein cyfathrebu a'n harweiniad ar apeliadau. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch eglurder ein cyfathrebiadau ar-lein, ein gwefan a'r amser aros 'cyffredinol'.

16. Effaith gymunedol ac amgylcheddol

Ein hallbynnau

Mae gwaith ein Harolygwyr yn effeithio ar unigolion a'u cymunedau. Mae'r effeithiau hynny yn ffactorau pwysig pan fydd ein Harolygwyr yn ystyried achosion a ddyrannwyd iddynt. Maent yn cynnal archwiliadau, ymchwiliadau a gwrandawiadau yn yr ardal y mae cynigion yn effeithio arni, ac yn ymweld â safleoedd ar gyfer y mwyafrif o apeliadau a cheisiadau er mwyn sicrhau eu bod yn deall effaith cynigion ar yr amgylchedd.

Ein sefydliad

Mae'r modd y gwnaethom drefnu ein gwaith wedi effeithio ar ein heffaith ar yr amgylchedd.

Lle swyddfa: Parhaodd ein Harolygwyr i weithio gartref, felly ni ddarparwyd lle prwpasol iddynt. Ar achlysuron pan aethant i'n swyddfeydd ym Mryste neu Gaerdydd, roeddent yn gallu defnyddio desgiau yn ein gweithle hyblyg. Roedd ein timau swyddfa yn gallu gweithio'n hyblyg yn ein swyddfeydd a gartref gan ddefnyddio gliniaduron a llechi cyfrifiadurol. Gadawsom y 4^{ydd} llawr yn TQH yng Ngorffennaf 2018 ac fe ailosodwyd y lle gwag yn gynnar yn 2019, felly byddwn yn gwredu'r arbedion yn 2019/20.

Teithiol: Gwnaethom leihau gymaint â phosibl ar y pellter yr oedd angen i Arolygwyr deithio i gynnal gwaith achos, yn amodol ar yr angen i sicrhau eu didueddrwydd. Helpodd y gallu cynyddol i weithio gartref, trwy gyflwyno cyfleusterau TG cyfredol, i leihau effaith teithio ar yr amgylchedd. Gwnaethom annog defnyddio trafniadaeth gyhoeddus, cefnogi'r cynllun beicio i'r gwaith a darparu cawodydd i'r rhai sy'n defnyddio'r dull hwn o deithio i gymudo i'r gwaith.

Ailgylchu: Gwnaethom ddarparu cyfleusterau ailgylchu yn ein swyddfeydd – ar gyfer plastig, caniau alwminiwm, gwydr, cardbord, papur a bwyd gwastraff.

Gwaredu offer: Trwy gcontract a osodwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, cafwyd gwared ag offer TG ac eitemau trydanol diangen yn ddiogel. Gwaredwyd data ar ddisgiau cyfrifiadurol yn unol â'r rheoliadau perthnasol (Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff a Grŵp Diogelwch Electroneg Cyfathrebu). Casglwyd yr holl eitemau'n rhad ac am ddim, a'u didoli ar gyfer eu hailwampio a'u hailwerthu, neu eu hailgylchu. Cafodd yr eitemau i'w hailwerthu eu glanhau o'r holl ddata yn unol â gofynion y Llywodraeth, a'u hailwampio gyda systemau gweithredu â thrwydded Microsoft lawn i'w cyflenwi i ysgolion ac elusennau cofrestredig y DU am gost gymorthdaledig. Dychwelwyd cyfran o'r elw a wnaed i ni, a ddaeth i gyfanswm o dros £6,000 yn 2018/19. Cafodd offer nad oedd modd ei drwsio na'i ailwerthu ei ddatgymalu yn gydrannau a'i ailgylchu yn unol â thrwydded Asiantaeth yr Amgylchedd, gan gyflawni cyfradd ailgylchu o dros 95%.

Ein staff

Tua diwedd 2018/19, penderfynwyd ar ein Gwobrau 'OnePINS' cyntaf gan gynrychiolwyr staff o'n Panel Ymgysylltu â Staff, ar nifer o enwebiadau mewn pedwar categori. Roedd yr enillwyr fel a ganlyn:

Darparu 'Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol'



Debbie Seaton

Darparu 'Ffyrdd gwell o weithio'



Tîm yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth

Gwneud PINS yn 'Le gwyh i weithio'



Karen Curnock

Gwobr OnePINS Ben Linscott



Victor Ammoun

Gwnaethom gefnogi staff a oedd angen amser i gyflawni dyletswyddau ynadol neu waith llywodraeth leol, fel aelodaeth awdurdod yr heddlu. Gwnaethom annog ein staff i wirfoddoli yn eu cymunedau lleol. Yn 2018/19, gwnaethom godi symiau sylweddol o arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys Ymchwil Canser, yr elusen Tiwmor ar yr Ymennydd a Bloodwise. Codwyd cyfanswm anhygoel o dros £10,000.




Tîm 'PINS Spins' (Martin O'Brian, Andrea Mageen, Rebecca Phillips, Tony Thickett, Martin Elliott, Gavin Ewing, a Matt Thickett).

Ar ben hynny, aeth grŵp o feicwyr dewr am dro ar hyd ffyrdd Cymru yn ystod haf chwilboeth 2018, gan godi £1,018 pellach – gan fynd ymhell y tu hwnt i'w targed o £500. Mae pob un ohonynt yn fyw i adrodd yr hanes, diolch byth.

17. Adroddiad cynaliadwyedd

Yn 2018/19, gwnaethom gwblhau'r prosiect llety fesul cam mewn perthynas â'n swyddfa ym Mryste, a grybwyllwyd mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol ac sydd i'w weld isod.




Cam 1 (Ebrill 2016)

- Lleihau'r lle roeddem yn ei feddiannu o 6,465m² i 4,003m²
- Cafodd 1,991m² o'r gofod hwnnw ei ailosod a gwiredwyd arbedion



Cam 2 (Mawrth 2017)

- Lleihau'r lle a feddiannwyd o 4,003m² i 3,365m²
- Ni ailosodwyd unrhyw ofod pellach



Cam 3 (Gorffennaf 2018)

- Lleihau'r lle a feddiannwyd o 3,365m² i 2,379m²
- Ailosodwyd y holl le gwag a gwiredwyd arbedion o 1 Mawrth 2019

Mae cynlluniau ar waith i greu canolfan ranbarthol i'r Llywodraeth yn seiliedig ar ein hadeilad presennol a Rivergate House gerllaw. Felly, mae adroddiadau yn y dyfodol yn debygol o fod yn seiliedig ar y gyfran o'r ganolfan rydym yn ei meddiannu, yn hytrach na'r gofod yn TQH.

Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig

Mae'r gwaith rydym yn ei wneud yn cyfrannu at agweddau ar agenda y Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys Nodau 8 – twfeconomaid, 9 – seilwaith ac 11 – dinasoedd a chymunedau cynaliadwy.



Ymrwymiad Gwyrdd y Llywodraeth

Yn un o denantiaid TQH, gwnaethom gyfrannu at dargedau Ymrwymiad Gwyrdd y Llywodraeth ar gyfer cynaliadwyedd, gan adrodd ar ffigurau ynghyd â holl adrannau eraill y Llywodraeth a chyrrff hyd braich.

Gwnaethom fonitro ein defnydd o bapur, a oedd yn is nag yn 2017/18, sef rhyw 844 o focsys o bapur, ac yn sylweddol is na'r 3,700 a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn sylfaen, sef 2009/10. Disgwylwn allu lleihau ein defnydd o bapur ymhellach yn y dyfodol o ganlyniad i weithio'n well ar-lein. Roedd yr holl bapur a ddefnyddiom wedi ei ailgylchu 100%.

Mae'r ffigurau yn y tablau canlynol yn adlewyrchu canran y lle yn TQH y gwnaethom dalu amdano (oni nodir yn wahanol). Yn 2016/17 a 2017/18, roedd hyn yn 34%, gan leihau i 22.25% o 1 Mawrth 2019. Mae'r data a ddarparwyd yn ffigurau gwirioneddol ar gyfer Chwarteri 1-3 (Mawrth i Ragfyr), ynghyd ag amcangyfrif ar gyfer Chwarter 4 (Ionawr i Fawrth).

| Allyriadau Nwyon Tŷ Gwyr | | 2016/17 (mediannaeth o 34%) | 2017/18 (mediannaeth o 34%) | 2018/19 (mediannaeth o 34%) |
|--|---|---|--------------------------------|--------------------------------|
| Dangosyddion Anariannol (tCO2e) | Gollyngiadau crynswth ar gyfer Ystodau 1 a 2 | 424.84 | 289.51 | 172.37 |
| | Cyfanswm y gollyngiadau net ar gyfer Ystodau 1 a 2 | 0 | 0 | 0 |
| | Gollyngiadau crynswth sy'n gysylltiedig ag Ystod 3 Teithio busnes swyddogol | 503 | 467 | 459 |
| | | (Ffigurau gwirioneddol ar gyfer yr Arolygiaeth) | | |
| Gollyngiadau crynswth ar gyfer Ystodau 1 a 2 | 0 | 0 | 0 | |
| Defnydd Perthynol ar Ynni (KWh) | Trydan: Tariff werdd | 712,507 | 623,087 | 383,382 |
| | Nwy | 569,013 | 271,294 | 135,647 |
| | LPG | 0 | 0 | 0 |
| | Arall | 0 | 0 | 0 |
| Dangosyddion Ariannol (£000) | Gwariant ar Ynni | 103.6 | 82.55 | 136.93 |
| | Gwariant Trwydded Ymrwymiad Lleihau Carbon | 0 | 0 | 0 |
| | Incwm yr Ymrwymiad Lleihau Carbon o Daliadau Ailgylchu | 0 | 0 | 0 |
| | Gwariant ar deithio busnes swyddogol | 865.4 | 846.3 | 887.6 |
| | (Ffigurau gwirioneddol ar gyfer yr Arolygiaeth) | | | |

| Gwastraff | | 2016/17 (meddiannaeth o 34%) | 2017/18 (meddiannaeth o 34%) | 2018/19 (meddiannaeth o 34%) | |
|------------------------------|---------------------------------|---------------------------------|---------------------------------|---------------------------------|-------|
| Dangosyddion Anariannol (t) | Cyfanswm y gwastraff | 15.55 | 29.76 | 42.74 | |
| | Gwastraff peryglus | 0 | 0 | 0 | |
| | Gwastraff nad yw'n beryglus | Tirlenwi | 2.33 | 2.80 | 1.41 |
| | | Ailddefnyddio/Ailgyrchu | 13.21 | 13.52 | 34.05 |
| | Llosgi/Ynni o wastraff | 0 | 13.44 | 7.28 | |
| Dangosyddion Ariannol (£000) | Cyfanswm cost gwaredu | 5.3 | 10.65 | 5.65 | |
| | Cost gwaredu gwastraff peryglus | 0 | 0 | 0 | |
| | Gwastraff nad yw'n beryglus | Tirlenwi | 0.3 | 0.34 | 0.66 |
| | | Ailddefnyddio/Ailgyrchu | 5.0 | 1.60 | 1.18 |
| | | Llosgi/Ynni o wastraff | 0 | 8.72 | 3.80 |

| Defnyddio Adnoddau Cyfyngedig – Dŵr | | | 2016/17 (meddiannaeth o 34%) | 2017/18 (meddiannaeth o 34%) | 2018/19 (meddiannaeth o 34%) |
|---|---------------------|-------------|---------------------------------|---------------------------------|---------------------------------|
| Dangosyddion Anariannol (m ³) | Defnyddio dŵr | A gyflenwir | 2,281 | 1,992 | 1,243.38 |
| | | A dynnir | 0 | 0 | 0 |
| Dangosyddion Ariannol (£000) | Costau cyflenwi dŵr | | 7.0 | 6.63 | 4.22 ¹ |

1. Amcangyfrif ar sail cost 2017/18 wedi'i chynyddu 2%.

Sylwebaeth ar berfformiad

Amrywiodd nifer y defnyddwyr yn yr adeilad yn ystod y flwyddyn wrth i'r gofod gael ei adael a'i ailwampio cyn cael ei ailosod. O ganlyniad, gostyngodd y defnydd o ddŵr ac ynni, ac allyriadau. Fodd bynnag, roedd cynnydd yn y gwastraff a gynhyrchwyd.

Sylwebaeth ar effeithiau rheoladwy

Dim. Rheolwyd yr adeilad yn ganolog gan yr Adran Addysg/y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Trosolwg o effeithiau dylanwadedig

Dim. Rheolwyd yr adeilad yn ganolog gan yr Adran Addysg/y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Ymrwymadau Tryloywder fel rhan o Ofynion Adrodd Ymrwymiad Gwyrdd y Llywodraeth

Addasu'r i'r newid yn yr hinsawdd

Mae ein swyddfa wedi ei lleoli'n agos at gysylltiadau bws a rheilffordd da, sy'n lleihau'r defnydd o drafnidiaeth breifat. Mae ein technoleg gyfrifiadurol yn

cefnogi (a) mwy o weithio gartref mewn i'n staff allu cydbwysu eu gwaith â'u bywydau personol yn well, a chadw mewn cysylltiad â chydweithwyr yn y swyddfa neu mewn mannau eraill yn hawdd; (b) llai o deithio o gyfarfodydd (e.e. yn Llundain) trwy ddefnydd cynyddol o alwadau fideo; a (c) ein cynlluniau wrth gefn ar gyfer gweithio gartref pan fydd amhariadau wedi'u hachosi gan dywydd garw a phroblemau teithio.

Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol

Ar wahân i'n harolygwyr, sy'n gweithio gartref, mae ein gweithrediad wedi ei leoli mewn swyddfeydd ym Mryste a Chaerdydd. O ganlyniad, nid ydym yn effeithio ar unrhyw Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sy'n mynnu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.

Caffael gwasanaethau bwyd ac arlwyo

Mae'r contract Rheoli Cyfleusterau ar gyfer ein pencadlys ym Mryste yn cynnwys elfen i fodloni ein gofynion arlwyo.

Adeiladu cynaliadwy

Nid yw'r Arolygiaeth yn comisiynu gwaith adeiladu newydd.

Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu: Adroddiad ar Berfformiad

Yn fy rôl fel y Swyddog Cyfrifyddu, ac ar sail tystiolaeth ddogfennol a sicrwydd gan Fwrdd yr Arolygiaeth ac adolygiadau perthnasol, rwy'n fodlon bod yr Adroddiad ar Berfformiad yn adlewyrchiad teg, cytbwys a dealladwy o 2018/19.

Sarah Richards
Prif Weithredwr
20 Mehefin 2019

Adroddiad Atebolrwydd

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol



“Mae llywodraethu corfforaethol yn cynnwys cydbwysu buddiannau ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys gwleidyddion, cwsmeriaid, rheolwyr, cyflenwyr a’r cyhoedd.”

Mae'r Adroddiad Atebolrwydd yn cofnodi manylion am y cyfarwyddwyr gweithredol ac yn amlinellu'r cyd-destun ar gyfer y modd y cafodd yr Arolygiaeth ei rheoli a'i threfnu, ac mae hefyd yn cyfrif am ddefnyddio adnoddau – staff ac arian fel ei gilydd.

Llun: Rhaeadr - Nick Holmes

18. Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Ceir manylion am aelodaeth anweithredol ein Bwrdd yn y Datganiad Llywodraethu sy'n dechrau ar dudalen 56.

Rhoddir manylion am y rhai a oedd yn gyfarwyddwyr gweithredol neu'n gyfarwyddwyr gweithredol dros dro y sefydliad, ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, isod, ynghyd â'r cyfnod perthnasol.



Sarah Richards
Parhaus



Tim Guy
Parhaus



Phil Hammond
Hyd Mai 2019



Steve Hudson
O Ionawr i
Dachwedd 2018



Ben Linscott
Hyd Awst 2018



Navees Rahman
Parhaus



Mark Southgate
Hyd Tachwedd 2018



Tony Thickett
Hyd Mawrth
2019

Mynychodd Teresa Stanley, y Pennaeth Adnoddau Dynol dros dro, gyfarfodydd y Tîm Gweithredol o ddechrau'r flwyddyn hyd fis Gorffennaf 2018. Mynychodd Katie Hartwright, Pennaeth Adnoddau Dynol, y cyfarfodydd o Orffennaf hyd ddiwedd y flwyddyn.

19. Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Penododd y Swyddog Cyfrifyddu Adrannol yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol y Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Arolygiaeth Gynllunio. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau'r Arolygiaeth, wedi eu nodi yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus'⁵ a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

3

Accounting Officers

This chapter sets out the personal responsibilities of all accounting officers in central government. Essentially accounting officers must be able to assure parliament and the public of high standards of probity in the management of public funds. This chapter is drawn to the attention of all accounting officers when they are appointed.

O dan Adran 7 (2) Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo'r Arolygiaeth Gynllunio i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y cyfarwyddyd cyfrifon. Paratwir y cyfrifon ar sail gronws ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Arolygiaeth a'i halldro adnoddau net, defnydd o adnoddau, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a'r llofoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, rwyf i, fel y Swyddog Cyfrifyddu, wedi cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, yn benodol:

- ufuddhau i'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw;
- cadarnhau, cyhyd â'n bod yn ymwybodol, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohoni;
- cadarnhau fy mod wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol

⁵ <https://www.gov.uk/government/publications/managing-public-money>

a chadarnhau bod archwilwyr yr endid yn ymwybodol o'r wybodaeth honno;

- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy; a
- chadarnhau fy mod yn dwyn cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r barnau sydd eu hangen i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Sarah Richards
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
20 Mehefin 2019

20. Y Datganiad Llywodraethu

Cyflwyniad

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2018 hyd 31 Mawrth 2019. Mae'n cynnwys unrhyw faterion ar ôl diwedd y flwyddyn sy'n berthnasol. Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn cyhoeddi datganiad tebyg sy'n cwmpasu'r Adran ganolog a'i chyrrff hyd braich, ond mae hyn ar lefel uwch ac nid yw'n dyblygu'r wybodaeth a gynhwysir yn y Datganiad hwn.

Cwmpas cyfrifoldeb

Fi yw Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Arolygiaeth Gynllunio. Fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau bod ein system lywodraethu yn y sefydliad yn cefnogi cyflawni ein polisiau, nodau ac amcanion, wrth sicrhau atebolrwydd, gwerth am arian, priodoldeb a rheoleidd-dra cyllid, a diogelu asedau ac arian cyhoeddus, fel yr amlinellir yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus'.

Fe'm penodwyd yn Swyddog Cyfrifyddu gan Ysgrifennydd Parhaol a Swyddog Cyfrifyddu'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ym Mawrth 2016, a cheir crynodeb o'm cyfrifoldebau yn fy llythyr penodi. Roedd y llythyr hwnnw yn pennu fy nghyfrifoldeb i'r Gweinidog dros y modd y mae'r sefydliad yn defnyddio adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau, a'm hatebolrwydd i gael fy ngwysio gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i roi tystiolaeth ar y modd yr wyf wedi ymdrin â'm cyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Rwyf yn gyfrifol yn bersonol am reolaeth effeithiol y sefydliad yn unol â Dogfen Fframwaith yr Asiantaeth⁶ ac yn unol â rheolau arferol y Gwasanaeth Sifil ar briodoldeb a sicrhau gwerth am arian. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn ystyried dirprwyo rheolaeth dros gyfrif pennau a rheoli'r gyllideb i Lywodraeth Cymru.

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y Datganiad hwn, nid wyf wedi ceisio unrhyw gyfarwyddyd ysgrifenedig i barhau â galwad gan Weinidog i ysgwyddo cyfrifoldeb am nod, blaenoriaeth neu gam gweithredu yr oeddwn o'r farn ei fod/bod yn groes i egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus.

Rwy'n fodlon bod gennyf y lefel angenrheidiol o sicrwydd ar gyfer cyfnod y Datganiad hwn, ar sail trafodaethau dros gyfnod y flwyddyn ddiwethaf, a wybodaeth a gafwyd gan:

- gadeirydd anweithredol Bwrdd yr Arolygiaeth Gynllunio (y Bwrdd);
- y cyfarwyddwyr anweithredol eraill ar y Bwrdd, yn enwedig cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg;
- archwilwyr mewnol ac allanol; a'r
- cyfarwyddwyr gweithredol.

⁶ <https://www.gov.uk/government/publications/the-planning-inspectorate-framework-document>


Y Fframwaith Llywodraethu

Roedd ein Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y strwythurau, systemau, prosesau, diwylliant a gwerthoedd a ddefnyddiwyd gyda'i gilydd i gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad a'i weithgareddau. Roedd y system rheolaeth fewnol yn rhan barhaus ac annatod o'r fframwaith, a defnyddiwyd gwybodaeth reoli reolaidd i gefnogi'r broses benderfynu. Roedd system a phrosesau rheoli risg ffurfiol ar waith i reoli risg ar lefel yr ystyrir ei bod yn dderbyniol.

Roedd y Fframwaith Llywodraethu'n cynnwys:

- y Bwrdd a'i is-bwyllgorau;
- y Tîm Gweithredol, grwpiau gweithredol a'r uwch dîm arwain;
- byrddau rhaglenni, ffrydiau gwaith a phrosiectau;
- cynllunio busnes ac adrodd ar berfformiad;
- rheolaethau cyfreithiol, gan gynnwys dirprwyaethau gan adrannau sy'n gwneud penderfyniadau ar waith achos Seilwaith Cenedlaethol i sicrhau ein bod wedi gweithredu oddi mewn i'r cwmpas a ddarperir gan ddeddfwriaeth; a
- rheolaeth ariannol a gweithdrefnau gweinyddol, gan gynnwys goruchwyllo rheolwyr, dirprwyaethau ac atebolrwydd ariannol a chontractiol a gofnodir yn ffurfiol, gwahanu dyletswyddau, rheolaethau caffael a gwario, rheolaethau asedau sefydlog, rheolaethau recriwtio a rheolaethau yn ymwneud â chontractau ar gyfer gwasanaethau.

Ein strwythur llywodraethu 2018/19



Fe'm cefnogwyd gan Fwrdd ymgynghorol a benodwyd yn unol â'n Ddogfen Fframwaith Asiantaeth a'r rheolau ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus.

Roedd y Bwrdd yn cynnwys:

- cadeirydd anweithredol yr Arolygiaeth;
 - tri chyfarwyddwr anweithredol;
 - fi fel y Prif Weithredwr, gyda chefnogaeth gan y cyfarwyddwyr gweithredol; a
 - chynrychiolydd o'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.
- Roedd gwahoddiad agored i gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru fynychu cyfarfodydd y Bwrdd.

Roedd contractau dau o'n cyfarwyddwyr anweithredol i fod i ddod i ben ym mis Rhagfyr 2018. Gan na fyddai'r ymarfer recriwtio arfaethedig ar gyfer y cyfarwyddwyr anweithredol newydd yn cael ei gwblhau mewn pryd, ymestynnwyd y contractau hyn hyd ddiwedd Mai 2019. Recriwtiwyd cyfarwyddwyr anweithredol newydd ac rydym yn disgwyl iddynt ddechrau eu cyfnod â ni yn ystod Chwarter 2 2019/20.

Rôl y cadeirydd a'r cyfarwyddwyr anweithredol oedd defnyddio eu gwybodaeth a'u cefndir mewn materion fel cynllunio busnes, polisi, strategaeth, perfformiad, profiad cwsmeriaid, adnoddau, risg a llywodraethu, a chyfrannu at graffu cyfunol y Bwrdd ar gynlluniau a gweithrediadau'r weithrediaeth. Datblygodd ein haelodau anweithredol eu dealltwriaeth o'r sefydliad trwy gyfarfodydd gydag unigolion a thimau, a mynychu digwyddiadau i randdeiliaid a'r digwyddiad hyfforddiant blynyddol i Arolygwyr. Cefnogwyd y Bwrdd gan dri Phwyllgor, yr oedd pob un ohonynt wedi'i gadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol. Cyfarfu'r Bwrdd bob yn ddeufis, a chynhaliwyd cyfarfod ychwanegol byr ym mis Mehefin i gadarnhau'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Mae'r tabl canlynol yn dangos presenoldeb y cyfarwyddwyr gweithredol, cyfarwyddwyr anweithredol a chynrychiolwyr noddwyr deuol yr Arolygiaeth yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

| Dyddiadau Cyfarfodydd y Bwrdd | 21 Mai | 14 Meh | 26 Gor | 27 Med | 29 Tach | 31 Ion | 21 Maw |
|--|--------|--------|--------|--------|---------|--------|--------|
| Enw a rôl | | | | | | | |
| Cyfarwyddwyr Anweithredol (CA) a Noddwyr | | | | | | | |
| Trudi Elliott, Cadeirydd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| David Holt, CA | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Jayne Erskine, CA | Y | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Susan Johnson, CA | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Simon Gallagher, MHCLG | ✓ | Y | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Neil Hemington, LIC | Y | Y | Y | Y | ✓ | Y | Y |
| Y Tim Gweithredol | | | | | | | |

| Dyddiadau Cyfarfodydd y Bwrdd | 21 Mai | 14 Meh | 26 Gor | 27 Med | 29 Tach | 31 Ion | 21 Maw |
|---|--------|--------|--------|--------|---------|--------|--------|
| Enw a rôl | | | | | | | |
| Sarah Richards, Prif Weithredwr | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Tony Thickett, Cyfarwyddwr Cymru | ✓ | ✓ | Y | Y | ✓ | Y | ✓ |
| Ben Linscott, Cyfarwyddwr Arolygwyr | Y | Y | Y | - | - | - | - |
| Steve Hudson, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | Y | ✓ | Y | - | - | - | - |
| Navees Rahman, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | - | - | - | - | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mark Southgate, Cyfarwyddwr Gwaith Achos Mawr | ✓ | ✓ | - | - | - | - | - |
| Tim Guy, Cyfarwyddwr Gweddnewid | - | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Phil Hammond, Cyfarwyddwr Gwaith Achos Swmp | - | ✓ | ✓ | - | - | - | - |

A – Derbyniwyd ymddiheuriadau. Llinell doriad – Nid oedd angen mynychu.

Yn ystod y cyfnod, gwnaeth y Bwrdd:

- adolygu dangosfyrddau gwybodaeth reoli yn rheolaidd er mwyn nodi materion a risgiau, a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n briodol;
- herio perfformiad gwael yr Arolygiaeth ac adolygu cynlluniau i'w adfer;
- ystyried effaith Adolygiad Rosewell a'r ymateb iddo, ac adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol⁷ i gyflenwi Tai;
- adolygu effaith newid deddfwriaethol a newid i bolisi cynllunio ar y galw a gofynion y gweithlu; ac
- ystyried cynnydd yn erbyn cynlluniau gweddnewid yr Arolygiaeth, gan gynnwys darparu cyngor a her mewn perthynas ag achosion busnes.

Roedd y data dangosfwrdd a adolygwyd gan y Bwrdd yn adlewyrchu'r data a ddefnyddiwyd gan y Tîm Gweithredol i reoli'r busnes. Lle teimlai'r Bwrdd nad oedd y lefel wybodaeth briodol ganddo, rhoddwyd data neu esboniadau ychwanegol. Yn y flwyddyn i ddod, bydd y ffordd y darperir gwybodaeth i'r Bwrdd yn newid yn sylfaenol, wrth i'r sefydliad fanteisio ar offer gwybodaeth busnes newydd.

Cyfarfu'r Tîm Gweithredol a'r cyfarwyddwyr anweithredol, ynghyd â phenaethiaid gwasanaethau, ar bum achlysur i gynnal gweithdai a sesiynau strategol i ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes, fel datblygu'r sefydliad, Brexit, y Model Gweithredu Targed, perfformiad, gweddnewid, cynllunio'r gyllideb, a hyfforddiant cyn diwedd y flwyddyn ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Disodlwyd cyfarfod Pwyllgor y Bobl ym mis Rhagfyr gan weithdy â ffocws ar bobl, a archwiliodd ddeilliannau'r arolwg ymgysylltu â staff, diwylliant a mewnwelediad i gynllunio'r gweithlu.

⁷ Planning for New Homes - <https://www.nao.org.uk/report/planning-for-new-homes/>

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Roedd y Pwyllgor yn un o is-bwyllgorau'r Bwrdd, yn ei gefnogi mewn materion yn ymwneud â risg, rheolaeth a llywodraethu. Cadwodd y Pwyllgor ddibynadwyedd a chywirdeb y sicrwydd a roddwyd gan y Tim Gweithredol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu dan arolwg.

Cyfyngwyd aelodaeth ffurfiol y Pwyllgor i'r cyfarwyddwyr anweithredol, wedi'u cefnogi gan bennaeth gwasanaeth fel arweinydd proffesiynol y Pwyllgor, ac roedd cyfranogwyr eraill yn bresennol trwy wahoddiad. David Holt oedd cadeirydd y Pwyllgor yn ystod 2018/19. Roedd cynrychiolydd o'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn hefyd.

Yn unol â'r cylch gorchwyl cytûn, cynullwyd y Pwyllgor bob chwarter. Mae presenoldeb y cyfarwyddwyr anweithredol a dyddiadau'r cyfarfodydd i'w gweld yn y tabl canlynol.

| Enw Dyddiad cyfarfod y pwyllgor | David Holt (Cadeirydd) | Jayne Erskine (Aelod) | Susan Johnson (Aelod) | Trudi Elliott (Arsylwr) |
|---------------------------------------|---------------------------|--------------------------|--------------------------|----------------------------|
| 14 Mehefin 2018 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 27 Medi 2018 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 13 Rhagfyr 2018 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 21 Mawrth 2019 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Yn ystod y cyfnod, gwnaeth y Pwyllgor:

- adolygu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon terfynol ar gyfer 2017/18, cyn argymhell ei lofnodi gan y Bwrdd;
 - rhoi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu (Prif Weithredwr) ar faterion yn ymwneud â phriodoldeb, ar sail adolygiadau o'r risgiau strategol ac adroddiadau archwilio;
 - rhoi trosolwg a chyngor ar gyfrifoldebau'r Bwrdd ar gyfer rheoli risg, gan gynnwys drwy 'ymchwiliadau manwl' i risgiau unigol, er enghraifft seiberddiogelwch;
 - ystyried a chynghori ar y gofrestr risgiau polisi sy'n dod i'r amlwg;
 - parhau i adolygu'r Fframwaith Sicrwydd;
 - adolygu a darparu mewnwelediad er mwyn helpu llywio cyflwyno adroddiadau stiwardiaeth, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o broses diwedd blwyddyn 2017/18 i wella atebolrwydd cyfarwyddwyr;
 - adolygu a darparu her yn erbyn cynnydd o ran cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR);
 - adolygu'r fframwaith rheoli mewnol, gan gynnwys adolygu'r olwyn twyll gyda ffactorau risg y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a'r gweithdrefnau chwythu chwiban a llwgrwobrwyath;
 - monitro cynnydd yn erbyn y cynllun archwilio mewnol cytûn ar gyfer 2018/19 a chymeradwyo'r rhaglen ddrafft ar gyfer 2019/20;
 - ystyried y Datganiad Llywodraethu drafft ar gyfer 2018/19, ac awgrymu newidiadau, lle bo hynny'n briodol, i gryfhau agweddau ar lywodraethu a rheolaeth;
 - ymgymryd â hyfforddiant ar gyfrifoldebau diwedd blwyddyn ac arfer gorau;
- a

- derbyn, adolygu a chlirio adroddiad ar ‘eitemau sefydlog ym mhob cyfarfod.

Y Pwyllgor Cwsmeriaid, Ansawdd a Safonau Proffesiynol

Roedd y Pwyllgor yn un o is-bwyllgorau'r Bwrdd, gan ei gefnogi mewn materion yn ymwneud â gwasanaeth cwsmeriaid, ansawdd a chynnal safonau proffesiynol.

Cyfyngwyd aelodaeth ffurfiol y Pwyllgor i'r cyfarwyddwyr anweithredol, wedi'u cefnogi gan bennaeth gwasanaeth fel arweinydd proffesiynol y Pwyllgor, ac roedd cyfranogwyr eraill yn bresennol trwy wahoddiad. Susan Johnson oedd cadeirydd y Pwyllgor yn ystod 2018/19.

Yn unol â'r cylch gorchwyl cytûn, cynullwyd y Pwyllgor bob chwarter. Mae presenoldeb y cyfarwyddwyr anweithredol a dyddiadau'r cyfarfodydd i'w gweld yn y tabl canlynol. Roedd cynrychiolydd o'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn hefyd.

| Enw | Susan Johnson (Cadeirydd) | Jayne Erskine (Aelod) | David Holt (Aelod) | Trudi Elliott (Aelod) |
|-----------------------------|------------------------------|--------------------------|-----------------------|--------------------------|
| Dyddiad cyfarfod y pwyllgor | | | | |
| 27 Ebrill 2018 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 14 Mehefin 2018 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 8 Tachwedd 2018 | ✓ | ✓ | Y | ✓ |
| 21 Chwefror 2019 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Y – Derbyniwyd ymddiheuriadau.

Cytunodd y Pwyllgor fod dull cyson o gael sicrwydd ar y materion a drafodwyd ac a ystyriwyd. Cofnodwyd cynnydd yn erbyn y camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, ac adroddwyd arnynt ym mhob cyfarfod.

Yn ystod 2018/19, gwnaeth y Pwyllgor:

- ddadansoddi perfformiad gweithredol cyffredinol, gan ganolbwyntio ar yr elfennau hynny sydd o'r pwys mwyaf i gwsmeriaid (gan gynnwys amseroldeb a chysondeb), gan ddarparu mewnwelediad a her i gyfarwyddwyr a phenaethiaid gwasanaethau;
- adolygu cydymffurfiaid â'r gweithdrefnau ar gyfer sefydlu a chynnal safonau proffesiynol mewn penderfyniadau, gan gynnwys craffu ar sut caiff cysondeb ei gymhwyso i bob elfen o broses a gweithdrefn gwaith achos;
- edrych ar ddadansoddiad gwraidd y broblem o gwynion ac ymglyfreitha i helpu i ddeall a monitro ansawdd ein penderfyniadau;
- adolygu dyraniad a rheolaeth risgiau strategol;
- darparu cyngor a her ar y strategaeth cwsmeriaid a'r strategaeth ddigidol;
- adolygu'r dull ar gyfer rheoli sicrwydd ansawdd;
- monitro cynnydd y prosiect i roi'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ar waith; ac
- adolygu'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth.

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor o'r farn, er nad oes unrhyw feysydd sylfaenol o wendid, mae rhai

meysydd sy'n peri pryder o fewn cwmpas cylch gorchwyl y Pwyllgor. Mae enghreifftiau'n cynnwys cyflymder cyflawni mewn perthynas â'r ffrwd waith cwsmeriaid a'r strategaeth cwsmeriaid, a nodwyd ac y mae angen mynd i'r afael â nhw.

Pwyllgor y Bobl

Roedd y Pwyllgor yn un o isbwyllgorau'r Bwrdd, gan ei gefnogi mewn materion yn ymwneud ag agweddau pobl allweddol ar effeithiolrwydd cyfundrefnol. Mae'r Pwyllgor yn darparu fforwm ar gyfer sylwadau, her ac argymhellion gan gyfarwyddwyr anweithredol.

Cyfyngwyd aelodaeth ffurfiol y Pwyllgor i'r cyfarwyddwyr anweithredol, wedi'u cefnogi gan bennaeth gwasanaeth fel arweinydd proffesiynol y Pwyllgor, ac roedd cyfranogwyr eraill yn bresennol trwy wahoddiad. Jayne Erskine oedd cadeirydd y Pwyllgor yn ystod 2018/19.

Yn unol â'r cylch gorchwyl cytûn, cyfarfu'r Pwyllgor deirgwaith, a thrafodwyd materion yn ymwneud â phobl ar adegau eraill neu mewn cyfarfodydd eraill hefyd, gan gynnwys y Bwrdd. Mae dyddiadau'r cyfarfodydd a phresenoldeb y cyfarwyddwyr anweithredol i'w gweld yn y tabl canlynol.

| Enw | Jayne Erskine (Cadeirydd) | David Holt (Aelod) | Susan Johnson (Aelod) | Trudi Elliott (Aelod) |
|-----------------------------|------------------------------|-----------------------|--------------------------|--------------------------|
| Dyddiad cyfarfod y pwyllgor | | | | |
| 26 Ebrill 2018 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 13 Rhagfyr 2018 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 31 Ionawr 2019 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Yn ystod y cyfnod, gwnaeth y Pwyllgor:

- adolygu cyflog cyfartal yr Arolygiaeth a'r bwloch cyflog rhwng y rhywiau;
- cefnogi mesurau i ddechrau cau'r bylchau, yn enwedig yn ymwneud â rhywedd;
- pwysu a mesur ein cynllun Gweddnewid Pobl a sicrhau bod hyn yn parhau i gefnogi'r ffyrddau gwaith Gweddnewid eraill, a'i fod yn cyflawni'r hyn y bwriedir iddo ei gyflawni;
- ystyried blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, yn enwedig yn ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant;
- cynnal sesiwn i roi mewnwelediad i'r arolwg ymgysylltu a data cynllunio'r gweithlu, cyfatebu'r data a sicrhau mai ein blaenoriaethau yn ymwneud â phobl yw'r rhai cywir;
- cynnal 'ymchwiliad dwfn' i'r gwaith llunio'r sefydliad, gan edrych ar yr hyn a ddysgwyd o gam cyntaf y gwaith a'r ffordd orau i symud ymlaen â'r ail gam (cam olaf); a
- monitro cynnydd a dibyniaethau rhwng agweddau cysylltiedig ar y rhaglen gweddnewid.

Adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgorau

Cynhaliwyd adolygiad effeithiolrwydd 2018/19 tua diwedd 2018. Defnyddiodd arolwg ar-lein a cheisiodd farn aelodau a'r rhai a oedd wedi mynychu

cyfarfodydd y Bwrdd. Roedd yr ymatebion i'r arolwg yn dangos bod y Bwrdd yn fodlon â'r data a dderbyniwyd a bod y Bwrdd yn effeithiol. Dadansoddwyd y canlyniadau gan y tîm Cymorth Strategol, a gwnaed argymhellion i'r Bwrdd. Trafodwyd y rhain a chaiff y newidiadau arfaethedig eu hystyried, ynghyd â phenodi dau gyfarwyddwr anweithredol a dau gyfarwyddwr strategol newydd, pan gaiff newidiadau i lywodraethu cyffredinol y sefydliad eu llunio a'u rhoi ar waith yn ystod 2019/20.

Y Tîm Gweithredol

Rôl y Tîm Gweithredol (gweler Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar dudalen 53 am yr aelodaeth) oedd pennu cyfeiriad ar gyfer gwaith yr Arolygiaeth a sicrhau ei bod yn cyflawni ei hamcanion strategol o fewn y cyd-destun a bennwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a LIC, fel cyd-noddwyr. Goruchwyliodd y Tîm Gweithredol reolaeth weithredol y sefydliad o ddydd i ddydd a gwneud penderfyniadau cysylltiedig. Darparodd arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol cyfunol ar gyfer y sefydliad, yn unol â Dogfen Fframwaith yr Asiantaeth. Yn ogystal, cefnogodd y tîm rôl y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnal Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus a amlinellir yng Nghod y Gwasanaeth Sifil a delfryd ymddwyn ar gyfer Datganiad Arweinyddiaeth y Gwasanaeth Sifil.

Cyfarfu'r tîm bob wythnos ac adolygu gwybodaeth reoli yn rheolaidd er mwyn helpu canolbwyntio sylw lle'r oedd ei angen, gan gynnwys perfformiad sefydliadol (gweler hefyd y Dadansoddiad o Berfformiad sy'n dechrau ar dudalen 17) a risgiau allweddol (gweler hefyd tudalen 13).

Trefniadau noddi: Lloegr

Uwch Noddwr y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, y Cyfarwyddwr Cynllunio, oedd yr uwch gyswllt arweiniol o fewn yr Adran, yn arwain ymgysylltiad â'r Arolygiaeth ar faterion polisi, strategaeth a pherfformiad. Arweiniodd yr Is-adran Cyllid a Pherfformiad – Tai ar oruchwylio llywodraethu corfforaethol, rheolaeth ariannol a gweithgareddau sicrwydd. Fe wnaeth y tîm reoli'r broses ar gyfer cyfarfodydd y Swyddog Cyfrifyddu rhwng Prif Weithredwr yr Arolygiaeth ac Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn i adolygu a herio perfformiad a chydymffurfriad yr Arolygiaeth â'r Ddogfen Fframwaith Asiantaeth, a rhoi cyfle i godi risgiau a materion â'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. O ystyried ffocws y Llywodraeth ar gynllunio, a thai yn arbennig, roedd deialog dwyffordd rhwng swyddogion polisi'r Weinyddiaeth a thîm yr Arolygiaeth yn parhau'n allweddol.

Trefniadau noddi: Cymru

Mae trefniadau ar wahân yn berthnasol yng Nghymru, a rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm noddi trwy gyfarfodydd ffurfiol â Chyfarwyddwr Cymru, a chyswllt mwy mynych, llai ffurfiol, yn ôl yr angen.

Rhaglen Archwilio Mewnol

Archwiliodd GIAA nifer o agweddau penodol ar reolaethau a phrosesau ar draws ein busnes. Rhoddir manylion yn y tabl isod.

| Teitl Archwiliad GIAA | Dyddiad yr Adroddiad | Lefel Sicrwydd |
|---|----------------------|-------------------------------------|
| Datganiad Llywodraethu a Fframwaith Rheoli Risg | Mai 2018 | Cymedrol |
| Cydymffurfiaid â GDPR | Medi 2018 | Cymedrol |
| Recrwtio Arolygwyr | Hyd 2018 | Cymedrol |
| Gweddnewid: Cynllunio a gwireddu buddion | Hyd 2018 | Sylweddol |
| Rheolaethau ariannol allweddol | Rhag 2018 | Sylweddol |
| Strategaeth fasnachol a rheoli contractau | Maw 2019 | Ddim yn berthnasol – Llythyr rheoli |

Arweiniodd pob archwiliad â chamau gweithredu dynodedig at Gynllun Gweithredu cytûn a luniwyd i fynd i'r afael â gwendidau a chynyddu lefel y sicrwydd. Dyrannwyd cyfarwyddwr a phennaeth gwasanaeth noddi i bob archwiliad, a gydlynodd weithgarwch a rheoli'r Cynllun Gweithredu cytûn. Aethpwyd i'r afael â phob cam gweithredu â blaenoriaeth uchel a chanolig a nodwyd mewn perthynas â Chydymffurfiaid â GDPR. Casglwyd cynnydd gyda Chynlluniau Gweithredu gan GIAA ac fe'u hadolygwyd yn rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Cyfrannodd canlyniadau'r archwiliadau unigol, a'r gwaith a gyflawnwyd ar y Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig, at ystyriaeth GIAA o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y trefniadau ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu, gan ei galluogi i roi barn annibynnol ar ddiwedd y flwyddyn. Rhoddwyd y farn hon i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mehefin 2019, a rhoddwyd y farn gyffredinol 'Cymedrol'.

Rheoli Risg

Roedd y Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y Fframwaith Rheoli Risg, a ddarparodd y modd i amlygu a lliniaru effaith materion a digwyddiadau ansicr a all fod wedi effeithio ar gyflawni nodau, amcanion a pherfformiad y sefydliad. Parhaodd ein Fframwaith Rheoli Risg a'r Gofrestr Risgiau Strategol ar ein safle mewn rwyd. Nodwyd perchennog ar gyfer pob risg ar y Cofrestrau, ac ar gofrestrau eraill a ddefnyddir ar draws y sefydliad, gan gynnwys y Rhaglen Gweddnewid a phrosiectau cysylltiedig. Adolygodd a heriodd y Tîm Llywodraethu y Cofrestrau'n rheolaidd. Mae manylion am y prif risgiau ar ddiwedd mis Mawrth 2019 i'w gweld yn y tabl yn Adran 4, ynghyd â'r prif fesurau lliniaru a luniwyd i'w trin i lefel a ystyriwyd yn dderbyniol.

Thwyll, Llwgrwobrwyfaeth a Chwythu'r Chwiban

Mae ein polisiau mewn perthynas â thwyll (gan gynnwys gwrthlygredigaeth), llwgrwobrwyfaeth a chwythu'r chwiban ar gael i'r holl staff drwy ein mewnwyd.

Parhaom i ddefnyddio'r gwasanaeth 'See, Hear, Speak Up' annibynnol i ategu ein proses chwythu'r chwiban – mae gennym ein gweithdrefn ein hunain sydd wedi ei halinio â pholisi'r Gwasanaeth Sifil cyfan. Mae ein Swyddog Enwebedig wedi cael hyfforddiant ffurfiol a gall alw ar rwydwaith o Swyddogion Enwebedig eraill o fewn teulu'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (ac ar draws y gwasanaeth sifil), pe bai angen. Yn 2018/19, ni fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban. Yn 2019/20, rydym yn bwriadu cyflwyno rhaglen i godi ymwybyddiaeth, er mwyn sicrhau bod staff ar draws y busnes yn gwybod am ein polisiau ac yn gallu manteisio arnynt yn rhwydd.

Iechyd a Diogelwch

Parhaodd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch i gefnogi'r Tîm Gweithredol. Gwnaethant gyfarfod deirgwaith yn 2018/19. Mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys:

- cefnogi cyfrifoldebau statudol cynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch yr Arolygiaeth;
- sicrhau diwylliant diogelwch cadarnhaol a rhagweithiol lle caiff risgiau yn y gweithle eu hamlygu a'u lleihau; ac
- annog ymagwedd gyson at wella iechyd, diogelwch a lles staff.

Cofnodwyd cyfanswm o saith o ddamweiniau a phedair o ddamweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, a rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor amdanynt. Ymchwiliwyd yn llawn i bob damwain, gan gynnwys cynrychiolwyr Diogelwch Ochr yr Undebau Llafur (TUS), er nad adroddwyd yn ffurfiol ar yr un ohonynt i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Cofnodwyd damweiniau Arolygwyr a damweiniau y bu ond dim iddynt ddigwydd ar wahân i rai'r staff sydd wedi'u lleoli ym Mryste a Chaerdydd.

Hyfforddiant ac asesiadau cyfarpar sgrin arddangos

Gwnaethom barhau i ddefnyddio'r pecyn hyfforddiant ac asesiadau ar-lein ar gyfer gweithfannau, fel rhan o'n proses ymsefydlu ar gyfer staff newydd, ac aeth eu rheolwyr a'r Tîm Iechyd a Diogelwch i'r afael ag unrhyw faterion a amlygwyd. Ambell waith, mae hyn wedi arwain at asesiad galwedigaethol llawn o'r weithfan gan ein darparwr Rheoli Iechyd neu aseswyr arbenigol eraill.

Hyfforddiant ac arweiniad iechyd a diogelwch i Arolygwyr

Gwnaethom ddarparu hyfforddiant i'r holl staff newydd, gan amlygu materion penodol y gallant ddod ar eu traws yn eu rôl, a helpu hyfforddwyr yr Arolygwyr i fonitro cynnydd pob Arolygydd yn erbyn gofynion gorfodol yr hyfforddiant.

Pecyn ymsefydlu iechyd a diogelwch

Datblygwyd pecyn ymsefydlu ar-lein, a'i roi ar waith ar gyfer y rhai a ymunodd â'r Arolygiaeth. Mae'n cynnwys ein systemau iechyd a diogelwch a'r cymorth a ddarperir gan y sefydliad, gan gynnwys Iechyd Galwedigaethol a'r Rhaglen Gymorth i Gyflogeion.

Lles

Cynhaliwyd sawl digwyddiad yn y swyddfa ym Mryste ac yn y Digwyddiad Hyfforddi Blynyddol. Eleni, cyflwynwyd Cynorthwywyr Cyntaf Iechyd Meddwl ac esboniad o sut gall yr unigolion hyn helpu o fewn y sefydliad. Darparodd ein darparwr Iechyd Galwedigaethol brofion iechyd yn y digwyddiad hyfforddi ym mis Mawrth 2019.

Prosiect Moderneiddio Technoleg Gwybodaeth

Cynhaliwyd asesiadau risg ar gyfer meddalwedd a chaledwedd, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni anghenion staff a'r sefydliad. Gwiriwyd yr holl offer a meddalwedd arbenigol er mwyn sicrhau y cynhaliwyd eu hymarferoldeb a'u heffeithiolrwydd ar ôl eu newid. Diweddarwyd yr holl becynnau i'r fersiwn ddiweddaraf, a chyflwynwyd pecyn newydd i gynorthwyo staff â dyslecsia.

Y Comisiynydd Gwybodaeth, diogelu data a diogelwch gwybodaeth

Mae ymdrin â data'n gywir, p'un a yw'n ddata personol neu'n ddata arall, yn hanfodol er mwyn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd a sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau statudol.

Er mwyn gweithredu'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018, gwnaethom adolygu a diweddarau ein gweithdrefnau ar gyfer prosesu data personol ac ateb ceisiadau hawl i wybodaeth, gan gynnwys gweithredu Polisi Diogelu Data. Cynhaliodd GIAA archwiliad o'n gweithrediad, a gwnaeth un argymhelliad â blaenoriaeth uchel, yr ydym wedi'i roi ar waith, ynghyd â thri argymhelliad â blaenoriaeth ganolig.

Roedd ein rhwydwaith o Berchenogion Asedau Gwybodaeth eisoes ar waith, a gwnaethom gydnabod yr angen i ddarparu'r adnoddau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gynnal a gwella tystiolaeth o'n cydymffurfiad yn barhaus. Fel asiantaeth weithredol ar y cyd, darparodd y Swyddog Diogelu Data ar gyfer pob un o'n noddwyr ymdriniaeth i'r Arolygiaeth.

Caniataodd adrodd ar achosion o dorri diogelwch data, a gweithredu arnynt ac unrhyw gwynion y gwnaethom eu derbyn, i ni leihau'r risg i wrthrychau data unigol. Gwnaethom adolygu achosion o dorri diogelwch data a chwynion i wella ymwybyddiaeth fewnol a'n gweithdrefnau. Ers rhoi GDPR ar waith, rydym wedi adrodd ar dri achos o dorri'r Ddeddf Diogelu Data i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), ac fe'n gwnaed yn ymwybodol o un gŵyn a wnaed yn uniongyrchol iddynt. Mae'r manylion i'w gweld yn y tabl isod:

| Crynodeb o'r achos o dorri diogelwch data/cwyn | Canfyddiad ICO |
|---|--|
| Cyhoeddwyd penderfyniad ar apêl cynllunio a oedd yn cynnwys gormod o ddata mewn categori arbennig. | Nid oes angen unrhyw weithred bellach. |
| Anwybyddwyd cais i guddio enw a chyfeiriad parti â buddiant. | Nid oes angen unrhyw weithred bellach. |
| Anfonwyd copi o lythyr a anfonwyd 'yn gyfrinachol' gan bartïon â buddiant ar apêl at yr apelydd yn hytrach na'i ddychwelyd i'r anfonwr. | Nid oes angen unrhyw weithred bellach. |
| Cwyn i ICO – Cyhoeddwyd enw a chyfeiriad mewn perthynas â Chais Seilwaith Cenedlaethol. | Yn aros am benderfyniad ICO. |

Dilynodd ein tîm Gwasanaethau Gwybodaeth egwyddorion ISO27001, sef y safonau rhyngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth. Roeddem yn ymwybodol o fygythiad ymosodiadau seiber, a gwnaethom gymryd camau i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff a lleihau'r effaith pe byddai'r broblem hon yn codi. Cyfarfu'r Fforwm Rheoli Diogelwch Gwybodaeth bum gwaith i fonitro, datblygu a gwella'r System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth. Byddai'r Bwrdd yn cael ei hysbysu am unrhyw ddigwyddiadau difrifol (fel colli llawer o ddata neu wybodaeth bersonol, neu achos difrifol o faleiswedd), er nad oedd unrhyw achosion tebyg yn ystod y cyfnod.

Modelu dadansoddol

Roedd ein defnydd o fodelau dadansoddol yn gyfyngedig i'r rhai a'n helpodd i ragweld y galw am ein gwasanaethau, y gofynion cysylltiedig o ran adnoddau a'r effaith gysylltiedig ar berfformiad. Cawsant eu hadolygu, eu mireinio a'u diweddarau'n rheolaidd. Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yw'r Uwch Berchennog Cyfrifol ar gyfer ein modelau ar hyn o bryd.

Os byddwn yn datblygu modelau sydd â'r potensial neu'r posibilrwydd i lywio polisi'r llywodraeth yn uniongyrchol, byddwn yn sicrhau eu bod yn destun sicrwydd ansawdd mewnol ac allanol cadarn.

Rheolaethau recriwtio

Rydym wedi cynnal ymarferion recriwtio sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Pa bryd bynnag y cawsom ymholiad, gwnaethom ymgysylltu â Chomisiwn y Gwasanaeth Sifil er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r rheolau sy'n berthnasol ar draws y Gwasanaeth Sifil.

Prentisiaethau

| | 2018/19 | 2017/18 |
|---|--------------------|---------|
| Targed y sector cyhoeddus | 14 | 15 |
| Cyfanswm y prentisiaid | 13 | 17 |
| Wedi cwblhau'r brentisiaeth yn llwyddiannus | Ddim yn berthnasol | 8 |
| Heb ei chwblhau (gan gynnwys ymddiswyddo) | Ddim yn berthnasol | 3 |
| Wedi tynnu'n ôl cyn ei chwblhau | 3 | 1 |
| Wedi'i gohirio | Ddim yn berthnasol | 1 |
| Yn aros am y canlyniadau | Ddim yn berthnasol | 4 |
| Wedi cael swydd ar ôl ei chwblhau | Ddim yn berthnasol | 7 |
| Aelodaeth staff presennol a gofrestrodd am brentisiaeth | 2 | 4 |







Gweithgarwch masnachol a rheoli cyflenwyr

Darparodd swyddogaeth fasnachol yr Arolygiaeth ganolfan ganolog i ddarparu gwasanaeth proffesiynol i'r sefydliad a'i gadwyn gyflenwi. Darparodd wasanaeth a oedd yn hanfodol i wireddu prosiectau newid a gweithgarwch busnes arferol, a chanolbwyntiodd ar ddarparu yn erbyn amcanion strategol yr Arolygiaeth.

Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys:

- caffael 85 o Arolygwyr heb fod ar gyflog misol ym mis Hydref 2018, i gynnal apeliadau cynllunio fesul achos, gan gefnogi perfformiad trwy ddefnyddio adnodd cyflenwr hyblyg;
- caffael gwasanaeth ffonau symudol gwell ym mis Chwefror 2019, gyda'r prif nod o ddarparu gwasanaeth cadarn i Arolygwyr, gan eu galluogi i weithio'n ddiogel ac o bell;
- sicrhau bod adnoddau digonol ar gyfer prosiectau newid a gweithgarwch busnes arferol trwy gcontractau cadarn, sy'n gryfyn fasnachol, â darparwyr arbenigedd allanol; ac
- adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o'n prosesau 'caffael i dalu', er mwyn gwneud newidiadau tactegol a strategol, gan wella perfformiad y swyddogaeth fasnachol a phrofiad cwsmeriaid mewnol.

Mae'r diagram isod yn crynhoi ein gweithgarwch masnachol.

| | | | |
|---|---|--|---|
|  | £17.5m gwariant trwy gyflenwyr allanol |  | 47% gwariant gyda chyrrff cyhoeddus ar gyfer contractau a ddarperir drwyddynt |
|  | 28% cyfran y gwariant a dalwyd yn uniongyrchol i fentrau bach a chanolig |  | £4m gwariant wedi'i sianelu trwy Fframweithiau Gwasanaeth Masnachol y Goron |
|  | 126 o gcontractau newydd wedi'u dyfarnu trwy gydol 2018/19, heb gynnwys adnewyddiadau, estyniadau a threfniadau yn ôl y gofyn. Yn ogystal, codwyd, 4,234 o Orchmynion Prynu |  | 187 o gyflenwyr i'r Arolygiaeth Gynllunio. Dosberthir 5 o'r rhain fel cyflenwyr strategol i'r Llywodraeth |

Rheolodd yr Arolygiaeth ei chyflenwyr trwy ystod o dechnegau yn dibynnu ar werth, critigolrwydd a'r math o contract. Lle bynnag y bo'n bosib ac fel y bo'n briodol, defnyddiom ddull cydweithredol i ddarparu'r gwerth gorau am arian, cynyddu arloesedd a throsglwyddo sgiliau i staff yn y sefydliad. Fel enghraifft, o ystyried pwysigrwydd strategol y gwasanaeth a ddarperir gan Arolygwyr heb fod ar gyflog misol, datblygwyd ystod o ddangosyddion perfformiad, a bu'r rhain yn arf defnyddiol i helpu i reoli materion yn rhagweithiol wrth iddynt godi, ac amlygu cyfleoedd i wneud gwelliannau.

Anogwyd ymgysylltiad cynnar â chyflenwyr mewn modd rheoledig, ac arweiniodd hyn at y deilliannau dymunol, gan gynnwys marchnad gyfranogol, gwella nifer/ansawdd tendrau a gallu'r Arolygiaeth i ffurfio contractau sy'n fasnachol gadarn.

Datblygwyd strategaethau caffael ar gyfer caffaeliadau allweddol a oedd yn cwmpasu hyd oes y contract, o amlygu'r angen i sgorio'r gwerthwr, gan gynnwys dadansoddi risg.

Cafodd llawer o wasanaethau'r Arolygiaeth eu cyflenwi trwy Adrannau eraill y Llywodraeth, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i ddarparu gwasanaethau TGCh a theleffoni;
- Adran Gyfreithiol y Llywodraeth i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol; ac
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddarparu gwasanaethau Ystadau.

Mae trefniadau cadarn yn parhau ar waith ar ffurf Cytundebau Lefel Gwasanaeth, Memoranda Cyd-ddealltwriaeth i sicrhau bod y darpariaethau hyn yn cael eu rheoli'n rhagweithiol.

Gwrthdaro Buddiannau

Mae ein polisi Gwrthdaro Buddiannau hirsefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl staff a'n cyfarwyddwyr anweithredol ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl wrth iddo godi. Yn ogystal, caiff Arolygwyr eu hatal rhag ymgymryd â gwaith achos mewn ardaloedd ACLlau y mae ganddynt gysylltiadau diweddar neu barhaus â nhw. Caiff buddiannau eu datgan wrth eu penodi a'u diweddarau yn ôl yr angen. Mae gan sefydliadau fel y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig a Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain eu codau moeseg a'u safonau proffesiynol eu hunain, a disgwylir i unrhyw Arolygwyr sy'n perthyn i'r sefydliadau hynny lynu wrthynt hefyd.

Disgwylir i bawb roi gwybod am unrhyw wrthdaro posibl yn rhagweithiol, a bydd ein Harolygwyr yn esgusodi eu hunain o achosion ar y sail honno. Tybir bod ein polisi Gwrthdaro Buddiannau yn gymesur i'r risg dybiedig i'n didueddrwydd.

Roedd yn ofynnol i bob cyfarwyddwr a chyfarwyddwr anweithredol lenwi datganiad o unrhyw drafodion parti cysylltiedig fel rhan o broses y Cyfrifon Blyneddol.

Cyhoeddwyd ein Cofrestr o Fuddiannau Aelodau'r Bwrdd ar wefan GOV.UK ac fe'i diweddarwyd ers hynny i adlewyrchu newidiadau i aelodaeth y Bwrdd, ac ar lefel cyfarwyddwyr gweithredol. Mae'r Gofrestr i'w gweld yn

<https://www.gov.uk/government/publications/register-of-planning-inspectorate-board-member-interests-april-2014>

Mae eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd, pwyllgorau, grwpiau gweithredol ac Arolygwyr yn darparu i'r rhai sy'n bresennol ddatgan unrhyw fuddiannau tebyg. Pan ddatganwyd buddiant, roedd yr aelod yn gyfrifol am dynnu'n ôl o unrhyw drafodaeth lle y gellid tybio bod y cyfryw wrthdaro wedi dylanwadu ar ei farn/barn.

Gwerth am arian

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, roeddwn yn gyfrifol am sicrhau yr aseswyd ein gweithgareddau'n rheolaidd i ddarparu hyder ynghylch eu haddasrwydd, effeithiolrwydd, callineb, ansawdd, gwerth da ac osgoi gwallau a gwastraff arall. Darparwyd adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar agweddau ar ein system rheolaeth fewnol.

Fe'm cefnogwyd gan gyfarwyddwyr a roddodd sicrwydd i mi fod eu meysydd busnes yn cyflawni'r cymysgedd gorau o ansawdd ac effeithiolrwydd am y gost leiaf, gan gynnwys defnyddio contractau gwasanaethau ar y cyd yn cwmpasu storio ffiliau oddi ar y safle, neilltuo lle mewn gwestai a theithio.

Cydymffurfio â Chod Llywodraethu Trysorlys EM (y Cod)

Gwnaethom gydymffurfio a'r egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a amlinellir yn y Cod ym mhob agwedd berthnasol, yn gymesur i faint a chymhlethdod y sefydliad. Er mwyn sicrhau tryloywder, ac er mwyn gwarchod ein henw da ar gyfer didueddrwydd, gorfu i gyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr

anweithredol ddatgan unrhyw fusnes neu fuddiannau neu unrhyw gysylltiadau personol eraill a ellid fod wedi eu camddehongli neu achosi chwithigrwydd i'r Arolygiaeth, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol neu Lywodraeth Cymru (gweler Gwrthdaro Buddiannau uchod).

Gweithredu ar faterion llywodraethu

Nid amlygwyd unrhyw brif faterion llywodraethu yn ystod y cyfnod, nac yn yr Adroddiadau Stiwardiaeth a gwblhawyd gan bob cyfarwyddwr.

Casgliad

Fi, fel y Swyddog Cyfrifyddu, oedd yn gyfrifol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, a'r barnau sydd eu hangen i benderfynu ei bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. Ar sail fy arsylwadau, y wybodaeth a gofnodwyd yn y Datganiad hwn, yr Adroddiadau Stiwardiaeth gan y cyfarwyddwyr anweithredol a'r sicrwydd arall a roddwyd i mi, rwy'n fodlon bod trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol briodol a chymesur ar waith yn ystod y cyfnod a gwmpaswyd gan yr adroddiad hwn.

Sarah Richards
Prif Weithredwr
20 Mehefin 2019



Adroddiad cyflogau a staff

"Roedd amynedd a gofal yr Arolygydd yn ganmoladwy"

Mae'r adran hon yn cynnwys manylion am yr arian a dalwyd i uwch aelodau'r weithrediaeth a'r cyfarwyddwyr anweithredol. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth yn ymwneud â nifer y staff, undebau llafur a gwybodaeth arall, gan gynnwys datgeliadau gofynnol yn ymwneud â gwariant ar ymgynghoriaeth a phecynnau ymadael.

Llun: Castell Blaise - Nick Holmes

21. Adroddiad Cyflogau

Polisi cyflogau

Mae'r adroddiad cyflogau yn crynhoi ein polisi cyflogau a datgeliadau ar gyflog cyfarwyddwyr, fel sy'n ofynnol gan Adran 421 Deddf Cwmnïau 2006, wedi'u haddasu ar gyfer cynnwys y sector cyhoeddus.

Rôl Pwyllgor y Bobl

Mae Pwyllgor y Bobl, sy'n ymdrin â materion cyflog a gwobrwyo, yn gweithredu fel un o is-bwyllgorau'r Bwrdd, caiff ei gadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol ac mae ganddo gylch gorchwyl sy'n cwmpasu pob agwedd ar y swyddogaeth pobl, gan gynnwys cyflogau a gwobrwyo.

Polisi cyflogau'r cyfarwyddwyr

Y trefniadau cyflogau ac arfarnu perfformiad sy'n gymwys ar lefel cyfarwyddwyr ac uwch yw'r rhai sy'n gymwys i'r Uwch Wasanaeth Sifil (UWS), yn gyffredinol. Nodir prif nodweddion y trefniadau hyn yn ganolog gan Swyddfa'r Cabinet. Caiff cyflogau blyneddol eu pennu fesul unigolyn gan Bwyllgor y Bobl.

Cyflogau a hawliau pensiwn (gan gynnwys datgeliadau Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV)) ar gyfer cyfarwyddwyr ac aelodau'r bwrdd

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad ffurfiol.

Roedd cyfanswm ffigurau unigol cyflogau'r cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 fel a ganlyn (dangosir y ffigurau cymharol ar gyfer 2017/18 mewn cromfachau):

| | Cylog a ffioedd a dalwyd ¹ | Bonws | Buddion trethadwy ¹ | Buddion yn gysylltiedig â phensiwn ² | Cyfanswm ar gyfer 2018/19 (2017/18) |
|--|--|--------------------------|--------------------------------|---|-------------------------------------|
| | £000 mewn bandiau £5,000 | £000 mewn bandiau £5,000 | £ i'r £100 agosaf | £ i'r £1,000 agosaf | £000 mewn bandiau £5,000 |
| Swyddog Cyfrifyddu | | | | | |
| Sarah Richards Prif Weithredwr | 140-145 (140-145) | - (-) | - (-) | 55,000 (55,000) | 195-200 (195-200) |
| Cyfarwyddwyr Gweithredol | | | | | |
| Tim Guy Cyfarwyddwr Gweddnwid | 105-110 (105-110) | - (-) | - (-) | 42,000 (42,000) | 145-150 (145-150) |
| Phil Hammond Cyfarwyddwr Gwaith Achos Swmp | 75-80 (70-75) | - (-) | - (-) | 39,000 (16,000) | 115-120 (90-95) |
| Steve Hudson Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (o fis Ionawr 2018 hyd fis Tachwedd 2018) | 40-45 65-70 cyfwerth ag amser llawn (10-15) (65-70 cyfwerth ag amser llawn) | - (-) | - (-) | 26,000 (3,000) | 70-75 (15-20) |

| | Cyflog a ffioedd a dalwyd ¹ | Bonws | Buddion trethadwy ¹ | Buddion yn gysylltiedig â phensiwn ² | Cyfanswm ar gyfer 2018/19 (2017/18) |
|---|--|--------------------------|--------------------------------|---|-------------------------------------|
| | £000 mewn bandiau £5,000 | £000 mewn bandiau £5,000 | £ i'r £100 agosaf | £ i'r £1,000 agosaf | £000 mewn bandiau £5,000 |
| Ben Linscott Cyfarwyddwr Arolygwyr (hyd fis Awst 2018) | 20-25 85-90 cyfwerth ag amser llawn (105-110) | - (-) | - (-) | 1,000 (5,000) | 20-25 (110-115) |
| Navees Rahman Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ³ | 75-80 (75-80) | - (-) | - (-) | 31,000 (30,000) | 105-110 (100-105) |
| Mark Southgate Cyfarwyddwr Gwaith Achos Mawr (hyd fis Tachwedd 2018) | 50-55 85-90 cyfwerth ag amser llawn (85-90) | - (-) | - (-) | 20,000 (34,000) | 70-75 (120-125) |
| Tony Thickett Cyfarwyddwr Cymru | 95-100 (95-100) | - (-) | - (-) | 17,000 (5,000) | 115-120 (100-105) |
| Cyfarwyddwyr Anweithredol | | | | | |
| Trudi Elliott Cadeirydd, Cyfarwyddwr, Anweithredol (o fis Ebrill 2018) | 20-25 (-) | - (-) | - (-) | - (-) | 20-25 (-) |
| Sara Weller Cyfarwyddwr, Anweithredol (hyd fis Medi 2017) | - (10-15 15-20 cyfwerth ag amser llawn) | - (-) | - (-) | - (-) | - (10-15) |
| Jayne Erskine Cyfarwyddwr, Anweithredol | 10-15 (10-15) | - (-) | - (-) | - (-) | 10-15 (10-15) |
| David Holt Cyfarwyddwr, Anweithredol | 15-20 (10-15) | - (-) | - (-) | - (-) | 15-20 (10-15) |
| Susan Johnson Cyfarwyddwr, Anweithredol | 15-20 (10-15) | - (-) | - (-) | - (-) | 15-20 (10-15) |

1. Oherwydd eu statws swyddfa ddeuol, roedd gan Ben Linscott a Tony Thickett hawl i gael eu talu am dreuliau teithio/llety, sydd wedi'u cynnwys yn y golofn Cyflog a ffioedd a dalwyd (a ailgategoreiddiwyd o'r golofn Buddion trethadwy yn 2017/18). Yn yr un modd, caiff yr holl dreuliau teithio/llety yr aed iddynt wrth gyflawni busnes arferol cyfarwyddwyr anweithredol, eu hystyried yn drethadwy, ac fe'u hailgategoreiddiwyd o'r golofn Buddion Trethadwy i'r golofn Cyflog a ffioedd a dalwyd yn 2018/19.

2. Mae buddion yn gysylltiedig â phensiwn wedi'u hailfandio i'r £1,000 agosaf, yn hytrach na bandiau o £5,000, yn unol ag arweiniad Swyddfa'r Cabinet. Ailddatganwyd ffigurau y llynedd yn unol â hynny.

3. Ailddatganwyd y ffigur ar gyfer buddion yn gysylltiedig â phensiwn ar gyfer Navees Rahman, gan y darparwyd ffigur wedi'i ail-gyfrifo ar gyfer y cyfnod hyd at 31/3/19, i addasu ar gyfer lwfans cyflogwr blaenorol.

Datgeliad pensiynau'r cyfarwyddwyr

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad ffurfiol.

| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfundaliad cysylltiedig wrth gyrraedd oed pensiwn | Cyfanswm pensiwn cronedig wrth gyrraedd oed pensiwn ar 31/3/19 a'r cyfundaliad cysylltiedig | CETV ar 1/4/18 ¹ | CETV ar 31/3/19 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV |
|--|---|---|-----------------------------|------------------------|--------------------------------|
| | £000 mewn bandiau £2,500 | £000 mewn bandiau £5,000 | £000 i'r £1,000 agosaf | £000 i'r £1,000 agosaf | £000 i'r £1,000 agosaf |
| Sarah Richards Prif Weithredwr | 2.5-5 | 10-15 | 106 | 169 | 44 |
| Tim Guy Cyfarwyddwr Gweddnewid | 0-2.5 | 20-25 | 267 | 334 | 24 |
| Phil Hammond Cyfarwyddwr Gwaith Achos Swm p | 0-2.5 ynghyd â chyfundaliad o 0-2.5 | 35-40 ynghyd â chyfundaliad o 85-90 | 590 | 687 | 25 |
| Steve Hudson Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (o fis Ionawr 2018 hyd fis Tachwedd 2018) | 0-2.5 | 15-20 | 210 | 258 | 15 |
| Ben Linscott Cyfarwyddwr Arolygwyr (hyd fis Awst 2018) | 0-2.5 ynghyd â chyfundaliad o 0-2.5 | 35-40 ynghyd â chyfundaliad o 110-115 | 848 | 857 | 1 |
| Navees Rahman Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | 0-2.5 | 15-20 | 167 | 214 | 11 |
| Mark Southgate Cyfarwyddwr Gwaith Achos Mawr (hyd fis Tachwedd 2018) | 0-2.5 | 20-25 | 258 | 297 | 12 |
| Tony Thickett Cyfarwyddwr Cymru | 0-2.5 | 40-45 | 743 | 842 | 17 |

1. Mae'r CETV ar 1/4/18 wedi'i ailddatgan ar gyfer Navees Rahman, gan y darparwyd ffigur wedi'i ail-grifio ar gyfer y cyfnod hyd at 31/3/19, i addasu ar gyfer lwfans cyflogwr blaenorol.

Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafu ar ôl asesiad actiwaraid o fuddiannau cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd ar

lefel uwch y mae datgeliad yn gymwys iddo. Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr aelod i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol a gronwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETVau yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan fydd buddion pensiwn yn cael eu codi.

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y Trysorlys. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Iawndal wrth ymddeol yn gynnar neu golli swydd

Nid ydym wedi talu unrhyw iawndal i gyfarwyddwyr wrth iddynt ymddeol yn gynnar neu golli eu swydd.

Taliadau i gyfarwyddwyr blaenorol

Nid oes gan gyfarwyddwyr unrhyw hawl i gael tâl ar ôl eu dyddiad ymadael. Fodd bynnag, roedd taliad ychwanegol yn angenrheidiol fel y'i diffiniwyd yn yr adran Pecynnau Ymadael.

Datgeliad cyflog teg

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad ffurfiol.

Mae'n ofynnol i gyrrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y Cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yn eu sefydliad a chyflog canolrifol gweithlu'r sefydliad. Mae'r cyfrifiad wedi'i seilio ar staff cyfwerth ag amser llawn ar ddyddiad olaf y cyfnod adrodd bob blwyddyn.

| | 2018/19 | 2017/18 |
|--|---------|---------|
| Band Cyfanswm Cyflog y Cyfarwyddwr ar y Cyflog Uchaf (£'000) | 140-145 | 140-145 |
| Cyfanswm Canolrifol – Arolygydd | 56,484 | 51,828 |
| Cymhareb Cyflogau – Arolygydd | 2.5 | 2.7 |
| Cyfanswm Canolrifol – Cymorth | 25,157 | 26,220 |
| Cymhareb Cyflogau – Cymorth | 5.7 | 5.4 |

Cyflog wedi'i fandio y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf yn y flwyddyn ariannol 2018/19 oedd £140,000 - £145,000 (2017/18: £140,000 - £145,000). Roedd hyn 5.7 gwaith (cymorth); 2.5 gwaith (Arolygwyr) (2017/18: 5.4 (cymorth); 2.7

(Arolygwyr)) yn fwy na chyflog canolrifol y gweithlu, sef £25,157 (cymorth); £56,484 (Arolygydd) (2017/18: £26,220 (cymorth); £51,828 (Arolygydd)).

Rydym wedi cynnal adolygiad cyflogau cyfartal i benderfynu a yw'r cyflogau a delir yn briodol ar gyfer y gwaith a wneir, ac nad ydynt yn achosi unrhyw heriau o ran cyflog teg. Bydd y gwaith hwn yn llywio ein strategaeth gyflogau gyfredol.

Cyhoeddwyd gwybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer yr Arolygiaeth Gynllunio ar GOV.UK yn <https://www.gov.uk/government/publications/mhclg-gender-pay-gap-report-and-data-2018>.

Yn 2018/19, ni dderbyniodd unrhyw gyflogai gyflog yn uwch na'r cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf (2017/18: dim). Roedd cyflogau'n amrywio o £107,248 i £13,477 (2017/18 £107,130 i £10,970) ac eithrio'r cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf. Mae'r cyfanswm cyflog yn cynnwys cyflog, tâl anghyfunol yn gysylltiedig â pherfformiad a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

22. Adroddiad Staff

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad ffurfiol.

Nifer y staff

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19, roeddem yn cyflogi (cyfwerth ag amser llawn, ar gyfartaledd) 636 o staff (gweler y tabl isod). Roedd y cyfanswm hwn yn cynnwys 345 o fenywod a 402 o ddynion (cyfwerth ag amser llawn, ar gyfartaledd: 276 o fenywod; 360 o ddynion), a oedd yn cynnwys un fenyw a chwech o ddynion ar lefel Uwch Weision Sifil. Roedd nifer y staff yn cynnwys cymysgedd o gyflogeion amser llawn a rhan-amser, Arolygwyr cyflogedig sy'n gweithio gartref a staff swyddfa yn swyddfydd Caerdydd a Bryste. Hefyd, gwnaethom ddefnyddio gwasanaethau 85 o Arolygwyr heb fod ar gyflog misol (2017/18: 53) ar sail gytundebol am ffi er mwyn caniatáu adnoddau hyblyg a gwerth am arian.

Roedd nifer gyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a oedd yn cael eu cyflogi gennym yn barhaol (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2018/19 | 2017/18 |
|---------------------------------------|---------|---------|
| Band Cyflog 2 yr Uwch Wasanaeth Sifil | 1 | 1 |
| Band Cyflog 1 yr Uwch Wasanaeth Sifil | 6 | 6 |
| Gradd 6-7 (Uwch aelodau staff) | 25 | 19 |
| Arolygydd cyflogedig | 270 | 255 |
| Cymorth | 93 | 88 |
| Gweithwyr achos | 241 | 228 |
| Cyfanswm | 636 | 597 |
| Llai Secondiadau | (1) | (2) |
| Ychwanegu staff asiantaeth | 15 | 11 |
| Cyfanswm a gyflogwyd | 650 | 606 |

Polisiau staff

Recriwtio

Gwneir ein holl recriwtio ar sail cystadleuaeth deg ac agored, a chaiff detholiadau eu seilio ar deilyngdod. Mae prosesau recriwtio'n deg a chânt eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn ystyried unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth cyflogaeth.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Fel rhan o'n hymrwymiad i degwch a hyrwyddo cydraddoldeb, cydweithiwn yn agos â chydweithwyr yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i ymgorffori amrywiaeth yn ein swyddogaethau busnes a'r modd rydym yn

darparu gwasanaethau, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cydraddoldeb, gan hyrwyddo arfer gorau mewn amgylchedd o onestrwydd, tegwch a chyfle cyfartal.

Gwnaeth yr Arolygiaeth ragor o welliannau yn ymwneud â'r thema cynhwysiant a thriniaeth deg yng nghanlyniadau Arolwg Pobl 2018. Gan adeiladu ar ganlyniadau a oedd eisoes yn gryf; roedd dros 84% o ymatebwyr o'r farn eu bod yn cael eu trin yn deg, bron i 90% o'r farn eu bod yn cael eu trin gyda pharch yn y gwaith, a 75% yn credu bod gwahaniaethau unigol yn cael eu parchu hefyd.

Mae cyfran y staff sy'n ystyried eu hunain yn anabl yn parhau'n fach, sef 11.8%, er bod y ffigur hwn yn gynydd bach o gymharu â 2017/18. Wrth recriwtio staff, rydym yn parhau i sicrhau cyfweiliad i ymgeiswyr anabl sy'n bodloni gofynion craidd y swydd ddisgrifiad a manyleb yr unigolyn, dan y cynllun Hyderus o ran Anabledd.

Undebau llafur

Mae'r sefydliad yn cydnabod dau undeb yn ffurfiol: Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS), sy'n cynrychioli staff swyddfa, a Prospect, sy'n cynrychioli Arolygwyr. Cynhaliwyd ymgynghoriadau ffurfiol â'r undebau trwy gyfarfodydd Whitley, yn bennaf, a gynhaliwyd ym mis Ebrill, mis Gorffennaf, mis Hydref a mis Rhagfyr 2018, a mis Mawrth 2019. Rydym hefyd yn cydweithio â'r undebau a'n cyflogeion, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, ar gynigion rheoli sydd â pherthynas uniongyrchol â'r ffordd mae staff yn gweithio, gan sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin o'r effaith ar unigolion. Mae gwybodaeth am bolisiau cyflogaeth perthnasol a newidiadau ar gael i'r holl staff drwy'r safle mewnwyd.

Mae'n ofynnol i ni gyhoeddi gwybodaeth yn y tablau canlynol yn unol â Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017.

| Cynrychiolaeth Undeb Llafur | |
|--|------------------------|
| Cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod | Cyferth ag amser llawn |
| 23 | 21.72 |

| % o'r amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster | |
|---|--------------------|
| Canran yr amser | Nifer y cyflogeion |
| 0% | 7 |
| 1-50% | 16 |
| 51-99% | 0 |
| 100% | 0 |

| % o'r bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster | |
|---|----------------|
| Cyfanswm cost amser cyfleuster | £47,902.84 |
| Cyfanswm bil cyflogau ⁸ | £34,240,024.31 |
| Cost amser cyfleuster fel canran o'r bil cyflogau | 0.14% |

| Gweithgareddau Undeb Llafur â thâl | |
|--|------|
| Amser a dreuliwyd ar weithgareddau Undeb Llafur â thâl fel canran o'r cyfanswm oriau amser cyfleuster â thâl | 100% |

Rheoli presenoldeb

Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd drwy absenoldeb salwch, ar gyfartaledd, yn 2018/19 oedd 6.1 diwrnod. Mae hyn islaw Cyfartaledd y Gwasanaeth Sifil, sef 6.8 ar gyfer yr un cyfnod. Mae rhai o'r absenoldebau o ganlyniad i faterion cymhleth yn ymwneud ag anabledau. Rydym yn cydweithio'n agos â rheolwr llinell er mwyn sicrhau y rhoddir cymorth priodol i unigolion, trwy ddefnyddio addasiadau rhesymol, cyfweiliadau dychwelyd i'r gwaith a'r Rhaglen Cymorth i Gyflogeion.

Costau staff

Mae'r tabl isod yn cynnwys cyfanswm y costau staff ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, fel y dangosir yn y Datganiadau Ariannol.

| | 2018/19 | 2017/18 |
|-----------------------------|---------|---------|
| | | £'000 |
| Cyflogau | 25,878 | 23,758 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 2,851 | 2,637 |
| Costau pensiwn eraill | 5,497 | 5,035 |
| Is-gyfanswm | 34,226 | 31,430 |
| Staff asiantaeth | 589 | 341 |
| Cyfanswm y costau staff net | 34,815 | 31,771 |

Buddion pensiwn

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cynlluniau buddion diffiniedig amlgyflogwr heb eu hariannu yw Prif Gynllun

⁸ Mae ffigur y cyfanswm bil cyflogau yn gynrychioliadol o daliadau cyflog, lle mae costau staff yn cynnwys addasiadau cyfrifyddu sy'n angenrheidiol ar gyfer y datganiadau ariannol.

Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a adwaenir fel 'Alpha', na allwn nodi ein cyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol ynddynt. Cynhaliwyd y prisiad actiwaraid llawn diwethaf ar 31 Mawrth 2012.

Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (<http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/resource-accounts/>).

Ar gyfer 2018/19, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £5,482,057 yn daladwy i PCSPS (2017/18: £5,053,174) fel un o bedair cyfradd yn yr ystod 20.0% i 24.5% (2017/18: 20% i 24.5%) o gyflog pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd, fel arfer, ar ôl prisio'r cynllun llawn. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i fodloni costau'r buddion sy'n cronni yn ystod 2018/19 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid â chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £15,220 (2017/18: £17,545) i un neu fwy o banel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oed ac yn amrywio o 8% i 14.75% o gyflog pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn gwneud cyfraniad cyfatebol o hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £40, 0.5% o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i PCSPS i dalu cost darparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol pe byddai'r cyflogeion hyn yn marw yn y swydd neu'n ymddeol oherwydd afiechyd.

Y cyfraniadau a oedd yn daladwy i'r darparwyr pensiynau partneriaeth ar 31 Mawrth 2019 oedd £1,249 (2017/18: £1,172). Y cyfraniadau rhagdaledig ar y dyddiad hwnnw oedd £dim (2017/18: £nil).

Ni ymddeolodd un unigolyn (2017/18: dim unigolion) yn gynnar oherwydd afiechyd; cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol a gronwyd yn ystod y flwyddyn oedd £dim (2017/18: £nil).

Gwariant ar ymgynghoriaeth

Yn 2018/19, aeth yr Arolygiaeth Gynllunio i gostau o lai na £60,000 (2017/18: £dim) ar gontractau yn y categori ymgynghoriaeth. Fodd bynnag, nid oedd angen cymeradwyaeth Swyddfa'r Cabinet ar gyfer unrhyw un o'r rhain, gan eu bod y tu allan i gwmpas rheolaethau gwario Swyddfa'r Cabinet.

Ymrwymadau oddi ar y gyflogres

Gwnaethom ymrwymo i nifer o gontractau oddi ar y gyflogres (gweler y tablau dilynol am ddadansoddiad pellach). Roedd dros 80% o'r ymrwymadau hyn ar gyfer gwasanaethau Arolygwyr heb fod ar gyflog misol (ar sail gytundebol am ffi), i ddarparu'r hyblygrwydd angenrheidiol yng ngweithlu'r Arolygwyr. Roedd gweddill yr ymrwymadau oddi ar y gyflogres i gefnogi angen penodol yn y sefydliad.

| Yr holl ymrwymadau oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2019, am fwy na £245 y dydd ac sy'n para mwy na chwe mis | Ym mis Mawrth 2019 |
|--|--------------------|
| Nifer yr ymrwymadau presennol. | 102 |
| Ohonynt... | |
| Y nifer sydd wedi bodoli am lai na blwyddyn adeg yr adroddiad. | 98 |
| Y nifer sydd wedi bodoli am rhwng blwyddyn a dwy flynedd adeg yr adroddiad. | 4 |
| Y nifer sydd wedi bodoli am rhwng dwy a thair blynedd adeg yr adroddiad. | - |
| Y nifer sydd wedi bodoli am rhwng tair a phedair blynedd adeg yr adroddiad. | - |
| Y nifer sydd wedi bodoli am bedair blynedd neu fwy adeg yr adroddiad. | - |

Ar ryw adeg, bu pob un o'r ymrwymadau presennol oddi ar y gyflogres, a amlinellir uchod, yn destun asesiad risg ynghylch p'un a oes angen sicrwydd bod yr unigolyn yn talu'r swm cywir o dreth ac y ceisiwyd y sicrwydd hwnnw, yn ôl yr angen.

| Y holl ymrwymadau newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, am fwy na £245 y dydd ac sy'n para mwy na chwe mis | Ym mis Mawrth 2019 |
|---|--------------------|
| Nifer yr ymrwymadau newydd, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019. | 106 |
| Ohonynt... | |
| Nifer yr aseswyd bod IR35 yn berthnasol iddynt | - |
| Nifer yr aseswyd nad yw IR35 yn berthnasol iddynt | 106 |
| Nifer a ymrwymodd yn uniongyrchol (drwy Gwmnïau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSC) wedi'i contractio i'r asiantaeth) ac sydd ar gyflogres yr asiantaeth | - |
| Nifer yr ymrwymadau a ailaseswyd at ddibenion cysondeb/sicrwydd yn ystod y flwyddyn | 7 |
| Nifer yr ymrwymadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn yr adolygiad cysondeb | - |


| Unrhyw ymrwymadau oddi ar y gyflogres ar gyfer aelodau'r Bwrdd, a/neu, uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 | Ym mis Mawrth 2019 |
|--|--------------------|
| Nifer yr ymrwymadau oddi ar y gyflogres ar gyfer aelodau'r bwrdd, ac/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol. | - |
| Cyfanswm nifer yr unigolion ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres yr ystyriwyd eu bod yn 'aelodau'r bwrdd ac/neu'n uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol' yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigur hwn gynnwys ymrwymadau ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres. | 12 |

Pecynnau ymadael

Cyfrifir am gostau ymadael yn llawn naill ai yn y flwyddyn ymadael neu, lle gwneir ymrwymiad rhwymol i ymadael yn y flwyddyn ddilynol, caiff costau eu cronni. Caiff costau ymddeol oherwydd afiechyd eu bodloni gan y cynllun pensiwn.

Nid oedd unrhyw ymadawiadau gorfodol o ganlyniad i ddileu swydd nac ymadawiadau eraill yn ystod 2018/19.

Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwilio



“Hoffwn dalu teyrnged i’r Arolygydd a diolch iddi am ei hagwedd broffesiynol a dymunol yn ystod yr ymchwiliad maith ac anodd hwn. Rwy’n credu bod ei hamhleidioldeb yn rhywbeth y byddwn yn ei gofio am amser maith.”

Mae'r adran hon yn darparu'r datgeliadau manwl y mae'n ofynnol i ni eu gwneud, ac fe'i hategir gan y manylion yn y Datganiadau Ariannol, sy'n dechrau yn Adran 28.

23. Dyraniadau'r Gyllideb ac Alldro

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad ffurfiol.

Ariennir yr Arolygiaeth Gynllunio drwy'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru. Cytunir ar ddyraniadau pedair blynedd mynegol cychwynnol fel rhan o ymarferion Adolygiad o Wariant Trysorlys EM, ac yna cânt eu mireinio'n flynyddol yn ôl yr angen drwy gylch cynllunio busnes y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Er 1 Ebrill 2011, fe'n hariennir o gyllidebau gweinyddol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru (ac eithrio rhai costau nad ydynt yn rhai arian parod a ariennir gan raglenni) a chaiff y dosbarthiad hwn o'n cyllid ei adolygu'n flynyddol.

Mae'r cyfrifon manwl ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 wedi'u cynnwys yn rhan 'Datganiadau Ariannol' y cyhoeddiad hwn. Darperir crynodeb byr o'n perfformiad yn erbyn y gyllideb yn y tabl isod.

| 2018/19 | Cyllideb wreiddiol £'000 | Cyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro £'000 |
|---|-----------------------------|-------------------------------|-----------------|
| Costau staff a chostau cysylltiedig | | | 34,815 |
| Costau rhedeg nad ydynt yn ymwneud â chyflog | | | 16,045 |
| Derbynebau | | | (16,247) |
| Costau net | 35,131 | 37,440 | 34,613 |
| Costau gweinyddol a ariennir a glustnodwyd | 1,000 | 1,612 | 1,471 |
| Cyfanswm y costau gweinyddol | 36,131 | 39,052 | 36,084 |
| Costau nad ydynt yn arian parod a ariennir gan raglenni | 161 | 161 | 13 |
| Cyfanswm gwariant gweithredu ⁹ | 36,292 | 39,213 | 36,097 |

⁹ Mae'r tabl hwn yn adlewyrchu gwariant gweithredu net is na'r gwariant gweithredu net ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r olaf yn cynnwys costau ymchwil a datblygu yr ydym yn eu trin fel gwariant cyfalaf at ddibenion cyllidebol ac wedi'i hepgor o'r cyfanswm gwariant gweithredu yn y tabl hwn.

| | | | |
|------------------|-----|-------|-------|
| Gwariant cyfalaf | 500 | 5,000 | 4,452 |
|------------------|-----|-------|-------|

Mae'r tabl uchod yn dangos ar gyfer Costau Net, mae'r gwariant gwirioneddol £2.8m yn is na'r dyraniad cyllid diwygiedig.

Y gyllideb refeniw net gytûn ar ddechrau'r flwyddyn oedd £36.1m i fodloni gofynion busnes arferol, ac £1.8m i ariannu gweithgareddau gweddnewid. Yn ystod y flwyddyn, cynyddwyd y gyllideb gymeradwy gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wrth i achosion busnes gael eu cymeradwyo i sicrhau cyllid refeniw pellach o £1.1m ar gyfer newid gweddnewidiol, ac £1.5m ar gyfer adfer perfformiad a mân ostyngiad yn erbyn cyllidebau busnes arferol.

Roedd y tanwariant yn erbyn cyllideb o £2,8m yn ymwneud â'r gweithgareddau canlynol, y cyllidebwyd ar eu cyfer ac a ariannwyd ar wahân gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol:

- gweddnewid - £0.9m – yn ymwneud yn bennaf â chostau cynllun ymadael yn wirfoddol nad oedd eu hangen, ac oedi o ran cyflwyno newidiadau i'n system gwaith achos
- adfer perfformiad - £0.3m – yn adlewyrchu oedi o ran recriwtio cymorth arbenigol i wella ein systemau gwybodaeth reoli, a llai o argaeledd o Arolygwyr heb fod ar gyflog misol o gymharu â'n cynlluniau gwreiddiol
- busnes arferol - £1.6m – incwm cynyddol yn erbyn cyllideb o £0.6m, ynghyd â llai o wariant ar gostau gweithredu net. Roedd costau ystadau a swyddfa yn is yn yr alldro rhag y rhagwelwyd. Roedd hyn o ganlyniad i ddod o hyd i denant i rentu lle gwag yn annisgwyl yn ystod y chwarter olaf, a chytuno ar ostyngiadau eraill yn ymwneud ag ystadau. Roedd costau yn ymwneud â her gyfreithiol hefyd yn is o lawer nag y cyllidebwyd ar eu cyfer. Oherwydd natur costau ex gratia a'r angen posibl i gydnabod hawliadau yn hwyr yn y flwyddyn, nid ydym yn rhagweld tanwariant, er mwyn gallu defnyddio cyllid yn y flwyddyn yn erbyn pwysau eraill o ran costau, ac felly daw'r flwyddyn i ben â thanwariant sylweddol.

Mae'r tabl isod yn dangos y dyraniadau dros dro presennol a'r rhagdybiaethau gweithio ar gyfer y gyllideb.

| | 2019/20 |
|--|---------|
| | £'000 |
| Costau net | 36,667 |
| Costau gweinyddol a ariennir a glustnodwyd | 1,000 |
| Cyfanswm y costau gweinyddol | 37,667 |
| Costau a ariennir gan raglenni | 10,000 |
| Cyfanswm gwariant gweithredu | 47,667 |
| Gwariant cyfalaf | 2,200 |
| | |

Cafodd yr Arolygiaeth Gynllunio gyllideb fynegol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, a fydd yn cael ei chadarnhau mewn dirprwyaeth gyllidebol ffurfiol. Gallai'r ffigurau newydd, gan gynnwys dosbarthiad cyllideb fel costau gweinyddol.

24. Taliadau credydwy

Cyhoeddodd y Llywodraeth ym mis Tachwedd 2008 y dylai holl sefydliadau'r llywodraeth anelu at dalu anfonebau, yn enwedig gan fentrau bach a chanolig, cyn pen deng niwrnod. Fe wnaeth cyhoeddiad Cyllideb 2010 ddiwygio'r targed hwn i dalu 80% o'r holl anfonebau nad oes anghydfod yn eu cylch cyn pen pum niwrnod ar gyfer holl adrannau'r llywodraeth ganolog. Ein polisi yw talu pob bil nad oes anghydfod yn ei gylch o fewn pum niwrnod o dderbyn anfoneb ddilys neu yn unol â'r telerau cytundebol cytûn, os nodir fel arall.

Yn 2018/19, gwnaethom dalu 81% o'r 3,241 o anfonebau a dderbyniwyd cyn pen pum niwrnod. Mae hyn o gymharu â pherfformiad y flwyddyn flaenorol, sef 78% o 2,259 o anfonebau. Ym mis Tachwedd 1998, daeth y Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) i rym, gan roi hawl statudol i fusnesau bach hawlio llog gan fusnesau mawr (a phob corff yn y sector cyhoeddus) ar daliadau sy'n fwy na 30 diwrnod yn hwyr. Daeth deddfwriaeth ddiwygiedig (Rheoliadau Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr 2002) i rym ar 7 Awst 2002 gan roi hawl i bob busnes, waeth beth yw ei faint, hawlio llog statudol am dalu dyledion masnachol yn hwyr. Ni dderbyniwyd unrhyw hawliadau yn ystod 2018/19 (nid oedd unrhyw hawliadau yn 2017/18).

25. Ffioedd a Thaliadau

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad ffurfiol.

Rydym wedi cydymffurfio â'r gofynion dyrannu costau a thaliadau a amlinellir yng nghyfarwyddyd Trysorlys EM a Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus ar gyfer ffioedd a thaliadau. Caiff gwaith achos y mae cyfanswm ei ffioedd yn fwy nag £1m ei ddadansoddi isod.

| | 2018/19 | | | 2017/18 | | |
|-------------------------------------|---------------|-----------------|--------------|---------------|----------------|--------------|
| | Cost | Incwm | Net | Cost | Incwm | Net |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Seilwaith Cenedlaethol ¹ | 4,849 | (6,334) | (1,485) | 3,609 | (802) | 2,807 |
| Cynlluniau Lleol | 5,383 | (4,976) | 407 | 4,234 | (3,909) | 325 |
| Gwaith Achos Arbenigol ² | | | | | | |
| Mawr Arall | 4,273 | (1,621) | 2,652 | 3,738 | (1,204) | 2,534 |
| Cyfansymiau | 14,505 | (12,931) | 1,574 | 11,581 | (5,915) | 5,666 |

1. Mae costau'n cynnwys elfen o waith cyn gwneud cais, sy'n cynnwys cyn cydnabod incwm, felly gall costau a'r incwm cysylltiedig rychwantu blynyddoedd ariannol gwahanol.

2. Caiff costau Gwaith Achos Arbenigol Mawr arall ond eu hadennill yn rhannol o'r gwaith rydym yn ymgymryd ag efar ran adrannau eraill y llywodraeth.

26. Rheoleidd-dra gwariant

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad ffurfiol.

Cyflwynir adroddiad ar wariant ar golledion a thaliadau arbennig, fel y'i diffinnir ym Mhennod 4 ac Atodiadau 4.10 i 4.13 o Rheoli Arian Cyhoeddus, i Drysorlys EM drwy'r rhiant Adran. Ceir manylion am nifer a gwerth yr achosion ym mhob categori isod.

| | 2018/19 | | 2017/18 | |
|-----------------------|-------------------|-------|-------------------|-------|
| | Nifer yr achosion | £'000 | Nifer yr achosion | £'000 |
| Datganiad o Golledion | 39 | 130 | 32 | 126 |
| Taliadau Arbennig | 27 | 156 | 49 | 820 |

Mae colledion yn cynnwys: hawliadau a hepgorwyd neu a adawyd; a thaliadau canslo teithiau. Mae taliadau arbennig yn cynnwys: taliadau ex gratia; difrod i geir llog.

Manylion achosion dros £300,000:

Nid oedd unrhyw achos adroddadwy yn 2018/19 (un achos o £429,376 yn 2017/18).

27. Rhwymedigaethau amodol bychan

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad ffurfiol.

Mae costau ex gratia yn daliadau anstatudol, a wneir yn gyffredinol o ganlyniad i gydnabod camgymeriad a oedd yn achosi gwariant diangen i'r hawliwr. Gall hyn gynnwys achosion lle y canfyddir camweinyddiaeth gan yr Ombwdsmon Seneddol. Ar sail blynyddoedd blaenorol, mae posibilrwydd bychan y gallwn dderbyn hawliad sylweddol am gostau sy'n ymwneud â gwaith a gwblhawyd cyn 31 Mawrth 2019. O ystyried y dosbarthiad bychan, nid yw'n bosibl amcangyfrif gwerth, ond pe bai angen, byddem yn ceisio cyllid ychwanegol gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol fel rhan o gyflwyniadau arferol ein hadolygiad o wariant.

Ar 29 Mawrth 2017, cyflwynodd Llywodraeth y DU ei hysbysiad i adael yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn unol ag Erthygl 50. Dechreuodd tanio Erthygl 50 broses ddwy flynedd o drafodaethau rhwng y DU a'r UE. Ar 11 Ebrill 2019, cadarnhaodd y llywodraeth gytundeb â'r UE i gael estyniad hyd at 31 Hydref 2019 fan bellaf, gyda'r opsiwn o adael ynghynt, cyn gynted i'r fargen gael ei chadarnhau.

Mae unrhyw newidiadau dilynol i ddeddfwriaeth, rheoleiddio a threfniadau cyllid yn destun canlyniad y trafodaethau. Nid yw'r Arolygiaeth yn cael ei hariannu'n uniongyrchol gan yr UE; fodd bynnag, oherwydd yr effaith bosibl yn sgil newidiadau i ddeddfwriaeth a rheoleiddio, datgelir rhwymedigaeth amodol bychan anghyfrifadwy.

Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu: Adroddiad Atebolrwydd

Yn fy rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, ac ar sail tystiolaeth ddogfennol a sicrwydd gan Fwrdd yr Arolygiaeth ac adolygiadau perthnasol, rwy'n fodlon bod yr Adroddiad Atebolrwydd yn adlewyrchiad cywir o 2018/19. Gallaf gadarnhau bod yr adroddiad hwn yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac, yn benodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni, oherwydd i mi sicrhau y rhoddwyd yr holl wybodaeth berthnasol iddynt.

Sarah Richards
Prif Weithredwr
20 Mehefin 2019

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin.

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwibodaeth a archwiliwyd.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Arolygiaeth Gynllunio ar 31 Mawrth 2019 a'r gwariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a roddwyd o dan y Ddeddf honno.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyriaeth berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwysu at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) (y DU a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol o'm tystysgrif. Mae'r safonau hynny yn mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safon Foesebol Ddiwygiedig y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2016. Rwyf yn annibynnol ar yr Arolygiaeth Gynllunio yn unol â'r gofynion moesebol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesebol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol a phriodol i fod yn sail i'm barn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes hyfyw

Mae'n ofynnol i mi ddod i gasgliad ynghylch priodoldeb defnydd y rheolwyr o gyfrifyddu ar sail busnes hyfyw, ac, ar sail y dystiolaeth archwilio a gafwyd, p'un a oes ansicrwydd perthnasol yn bodoli yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai fwrw cryn amheuaeth ar allu'r Arolygiaeth i barhau fel busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeng mis, o leiaf, o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Os dof i'r casgliad fod yna ansicrwydd perthnasol, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw yn fadrodidiad archwilydd at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os yw'r cyfryw ddatgeliadau yn annigonol, i addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd hyd at ddyddiad fadrodidiad archwilydd. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol achosi i'r endid beidio â pharhau fel busnes hyfyw. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatgan perthnasol, p'un a achoswyd hynny trwy dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol ag ISAs (y DU) bod amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol pe gellid disgwyl iddynt, yn unigol neu'n gyfunol, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol ag ISAs (y DU), rwyf yn arfer barn broffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd:

- yn nodi ac yn asesu risgiau cam-ddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol, p'un a achoswyd hynny trwy dwyll neu wall, yn cynllunio ac yn cyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, ac yn cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'm barn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiadau perthnasol yn deillio o dwyll yn uwch nag un sy'n deillio o wall, gan y gallai twyll gynnwys cydgyllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camliwiadau, neu drechu rheolaeth fewnol;
- yn cael dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol i'r amgylchiadau, ond nid at y diben o fynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol yr Arolygiaeth Gynllunio;

- yn gwerthuso priodoldeb polisiau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd, a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig a wnaed gan y rheolwyr;
- yn gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, a ph'un a yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynrychioli'r trafodion a'r digwyddiadau sylfaenol mewn modd sy'n cyflawni cyflwyniad teg.

Rwyf yn cyfathrebu gyda'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseru cynlluniedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod f'archwiliad.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Gwybodaeth Arall

Mae'r Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth sydd wedi'i harchwilio, y datganiadau ariannol a fadroddiad archwilydd ar hynny. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw unrhyw wybodaeth arall yn anghyson yn faterol â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gefais yn yr archwiliad neu ei fod, fel arall, yn ymddangos ei fod wedi'i gam-ddatgan yn faterol. Os dofi'r casgliad, ar sail y gwaith a gyflawnais, bod y wybodaeth arall hon wedi'i cham-ddatgan yn faterol, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae rhannau'r Adroddiad Atebolrwydd i'w harchwilio wedi eu paratoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- yng ngolau'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r endid a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau materol yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac wedi'u paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion rwyfyn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ei gylch mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:


- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol neu nid wyf wedi derbyn yr adroddiadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a rhannau'r Adroddiad Atebolrwydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion neu'r adroddiadau cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae'n ofynnol i mi eu cael ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiad ag arweiniad Trysorlys EM.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau ar y datganiadau ariannol hyn.

Gareth Davies
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London, SW1W 9SP
25 Mehefin 2019

Datganiadau Ariannol ar gyfer y f lwyddyn i ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019



“Roedd ansawdd y gwasanaeth mor dda wrth archwilio'r Cynllun Lleol, ni wnaethom betruso wrth gyflogi [yr Arolygiaeth] ar gyfer archwiliad dilynol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol.”

Mae fformat a chynnwys y datganiadau ariannol yn yr adran hon yn unol ag arweiniad perthnasol y Trysorlys/Swyddfa'r Cabinet.

Llun: Ffoledd Blaise - Nick Holmes

28. Datganiad o wariant net cynhwysfawr

| | | 2018/19 £'000 | 2017/18 £'000 |
|---------------------------------------|-------|------------------|------------------|
| | Nodyn | | |
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | | (2,518) | (2,560) |
| Incwm gweithredu arall | | (13,729) | (6,613) |
| Incwm gweithredu | 4 | (16,247) | (9,173) |
| Costau staff | 3a | 34,815 | 31,771 |
| Costau gweinyddol eraill | 3b | 19,546 | 14,855 |
| Cyfanswm gwariant gweithredu | | 54,361 | 46,626 |
| Gwariant net ar gyfer y flwyddyn | | 38,114 | 37,453 |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau par.

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 105 i 120 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

29. Datganiad o'r sefyllfa ariannol

| | | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2018 |
|---|----|----------------|----------------|
| | | £'000 | £'000 |
| Nodyn | | | |
| Asedau anghyfredol | | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 5 | 2,235 | 9 |
| Asedau anniriaethol | 6 | <u>252</u> | <u>1,514</u> |
| Cyfanswm yr asedau anghyfredol | | 2,487 | 1,523 |
| Asedau cyfredol | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 8 | 8,658 | 5,624 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 9 | <u>2,477</u> | <u>3,775</u> |
| Cyfanswm yr asedau cyfredol | | <u>11,135</u> | <u>9,399</u> |
| Cyfanswm yr asedau | | <u>13,622</u> | <u>10,922</u> |
| Rhwymedigaethau cyfredol | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n daladwy | 10 | (8,820) | (7,977) |
| Darpariaethau | 11 | <u>(13)</u> | <u>-</u> |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol | | <u>(8,833)</u> | <u>(7,977)</u> |
| | | | |
| Asedau llai rhwymedigaethau | | <u>4,789</u> | <u>2,945</u> |
| | | | |
| Ecwiti trethdalwyr | | | |
| Cronfa gyffredinol | | <u>4,789</u> | <u>2,945</u> |
| Cyfanswm ecwiti trethdalwyr | | <u>4,789</u> | <u>2,945</u> |

Cymeradwywyd y cyfrifon ar dudalennau 105 i 128 gan Fwrdd yr Arolygiaeth ar 13 Mehefin 2019 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

Sarah Richards
Prif Weithredwr
20 Mehefin 2019

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 105 i 120 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

30. Datganiad o lifoedd arian

| | | 2018/19 | 2017/18 |
|---|------|----------|----------|
| | | £'000 | £'000 |
| Nodyn | | | |
| Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu | | | |
| Gwariant gweithredu net | | (38,114) | (37,453) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion heb fod yn arian parod | 3b,4 | 1,609 | 450 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 8 | (3,034) | (1,138) |
| Llai symudiad yn y ddarpariaeth dyledion drwg | 3b | 47 | 76 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach sy'n daladwy | 10 | 843 | 2,736 |
| Llai symudiadau mewn symiau sy'n daladwy yn ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r SOCNE | 5,6 | (1,154) | 33 |
| Defnydd o ddarpariaethau | 11 | - | (199) |
| All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu | | (39,803) | (35,495) |
| Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | 5 | (1,277) | - |
| Prynu asedau anniriaethol | 6 | (4) | (88) |
| All-lif arian parod o weithgareddau buddsoddi | | (1,281) | (88) |
| Cyllido net | | 39,786 | 37,155 |
| (Gostyngiad)/cynnydd net mewn symiau arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y cyfnod | 9 | (1,298) | 1,572 |
| Symiau arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod | 9 | 3,775 | 2,203 |
| Symiau arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod | 9 | 2,477 | 3,775 |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 105 i 120 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

31. Datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr

| Nodyn | Cronfa gyffredinol | Cronfa ailbrisio wrth gefn | Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn |
|--|--------------------|----------------------------|--------------------------------|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans ar 31 Mawrth 2017 | 3,070 | 1 | 3,071 |
| Newid yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer 2017/18 | | | |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr | (37,453) | - | (37,453) |
| Taliadau heb fod yn arian parod – cyflog yr archwilydd | 3b 57 | - | 57 |
| Taliadau tybiannol | 3b 115 | - | 115 |
| Cyllid gan y Weinyddiaeth, Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | 37,155 | - | 37,155 |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | 1 | (1) | - |
| Balans ar 31 Mawrth 2018 | 2,945 | - | 2,945 |
| Newid yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer 2018/19 | | | |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr | (38,114) | - | (38,114) |
| Taliadau heb fod yn arian parod – cyflog yr archwilydd | 3b 57 | - | 57 |
| Taliadau tybiannol | 3b 115 | - | 115 |
| Cyllid gan y Weinyddiaeth, Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | 39,786 | - | 39,786 |
| Balans ar 31 Mawrth 2019 | 4,789 | - | 4,789 |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 105 i 120 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

32. Nodiadau i'r Cyfrifon

Nodyn 1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu ac amcangyfrifon

Nodyn 1.1 Polisiau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2018/19 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Mae'r polisiau cyfrifyddu a gaiff eu cynnwys yn FReM yn cymhwyso'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fo FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol yr Arolygiaeth at ddibenion rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisiau penodol a fabwysiadwyd gennym isod. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

Nodyn 1.1a Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i roi cyfrif am ailbrisió eiddo, peiriannau ac offer.

Nodyn 1.1b Amcangyfrifon a barnau cyfrifyddu

Mae paratoi gwybodaeth ariannol sy'n cydymffurfio ag IFRS yn mynnu defnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu penodol. Mae hefyd yn ofynnol bod rheolwyr yn arfer eu barn wrth gymhwyso'r polisiau cyfrifyddu. Yr amcangyfrifon a'r barnau cyfrifyddu allweddol yw cronladau, darpariaethau (gweler Nodyn 11) a rhwymedigaethau amodol (gweler Nodyn 12). Caiff amcangyfrifon eu seilio ar wybodaeth hysbys yn y busnes a thueddiadau'r gorffennol.

Nodyn 1.1c Treth ar werth

Roedd y rhan fwyaf o weithgareddau'r Arolygiaeth Gynllunio y tu allan i faes TAW ac, yn gyffredinol, nid yw treth allosod yn gymwys ac nid yw treth fewnbnw ar bryniannau yn adenilladwy, ac eithrio dan delerau Cyfarwyddyd y Trysorlys dan adran 41(3) Deddf Treth Ar Werth (VATA) 1994. Codir TAW na ellir ei hadennill ar y categori gwariant perthnasol neu caiff ei chynnwys yng nghost prynu cyfalaf asedau sefydlog. Pan godir treth allosod neu pan fo TAW fewnbnw yn adenilladwy, dangosir y symiau heb gynnwys TAW.

Nid ydym wedi ein cofrestru ar gyfer TAW ar wahân ond rydym yn gweithredu o dan rif cofrestru TAW y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Nodyn 1.1ch Incwm gweithredu

Yn y gorffennol, cyfrifwyd incwm fel gwerth y gwasanaethau a ddarperir o weithgareddau arferol yr Arolygiaeth a gwblhawyd yn ystod blwyddyn ariannol. O ran gwaith achos megis ymchwiliadau Cynlluniau Lleol, a all ymestyn dros nifer o flynyddoedd ariannol, cyfrifir incwm ar y gwaith a gwblhawyd hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol a'i gronni. Yn unol ag IFRS 15, caiff incwm ei gydnabod

erbyn hyn pan gaiff rhwymedigaeth perfformiad ei bodloni e.e. trwy ddarparu gwasanaeth i gwsmer. Wrth gymhwyso'r safon newydd, ni wnaed unrhyw newidiadau i'r ffordd y caiff incwm ei drin, gan fod gwerth y gwasanaethau a ddarparwyd wrth ei drin yn hanesyddol yn alinio â phryd caiff y rhwymedigaethau perfformiad eu bodloni, sef darparu gwasanaethau trwy gyfeirio at yr amser a dreuliwyd ar waith achos.

Mae'r prif wasanaethau a gynigir i'w gweld yn y dadansoddiad segmentaidd yn Nodyn 2 i'r Datganiadau Ariannol, sy'n disgrifio'r meysydd gwasanaeth ac yn dangos ymraniad yr incwm. Darperir dadansoddiad o'r gwasanaethau y codir ffi amdanynt, sef Nodyn 4 i'r Datganiadau Ariannol, at ddibenion ffioedd a thaliadau yn unig.

Nodyn 1.1d Prydlesi gweithredu

Dosberthir prydlesi heblaw prydlesi cyllidol yn brydlesi gweithredu. Codir prydlesi gweithredu ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros oes y brydles, gan ystyried unrhyw gymhellion prydles yn unol â thelerau Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 17.

Nodyn 1.1dd Costau tybiannol

Yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus, caiff costau tybiannol ar y gyfradd briodol eu cynnwys ar gyfer ffioedd archwilio a gwasanaethau a ddarperir gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Nodyn 1.1e Eiddo, peiriannau ac offer

Caiff eiddo, peiriannau ac offer eu datgan ar werth teg gan ddefnyddio cost amnewid wedi ei dibrisio. Pan gânt eu cydnabod gyntaf, fe'u mesurir ar eu cost gan gynnwys unrhyw gostau, megis gosod, y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r gwaith o'u hadfer i gyflwr gwaith. Ailddatgenir yr holl eiddo, peiriannau ac offer ar werth teg bob blwyddyn, gan ddefnyddio mynegrifau a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) sy'n briodol i gategori'r ased. Yn y blynyddoedd diwethaf, ni chymhwyswyd yr ailddatganiad oherwydd bod y gwerth yn anfaterol. Isafswm y lefel ar gyfer cyfalafu eiddo, peiriannau ac offer yw £5,000, neu £5,000 ar gyfer eitemau cyfanredol. Mae eitemau sy'n is na'r gwerth hwn yn cael eu codi fel costau ac fe'u dangosir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Yn 2018/19, bu newid i'r polisi cyfrifyddu i gynnwys eitemau cyfanredol uwchben £5,000. Gwnaed y newid hwn i'r polisi i wella cydnabyddiaeth asedau yn y Datganiadau Ariannol, a bydd hefyd yn sicrhau bod ein polisiau'n alinio'n agosach â rhai ein hadran noddi. Cyfalafwyd darpariaeth offer bwrdd gwaith a thelathrebu symudol newydd ar y sail hon. Ystyriwyd effaith y newid i'r polisi cyfrifyddu, mewn perthynas ag eitemau a gostiwyd mewn blynyddoedd blaenorol ond sy'n cael eu defnyddio o hyd ar 31 Mawrth 2019 a 30 Mawrth 2018, i weld p'un a oedd addasiad ar gyfer blynyddoedd blaenorol yn briodol. Oherwydd oed unrhyw asedau sy'n parhau i gael eu defnyddio ac nad oeddent wedi'u cyfalafu'n flaenorol, ystyriwyd bod y gwerth yn anfaterol ac ni wnaed unrhyw addasiad.

Nodyn 1.1f Dibrisiant

Caiff eiddo, peiriannau ac offer eu dibrisio ar gyfraddau a gyfrifir er mwyn dileu cost yr asedau dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig ar sail llinell syth, fel a ganlyn:

Technoleg Gwybodaeth (TG Strategol) 3 blynedd

Nodyn 1.1ff Asedau anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys gwerth cyfalafog systemau a ddatblygwyd yn fewnol neu feddalwedd a brynwyd, trwyddedau meddalwedd a systemau sy'n cael eu datblygu. Caiff gwerth asedau anniriaethol eu datgan fel y gost, llai amorteiddio ac amhariad. Ni chaiff asedau anniriaethol eu hailbrisio; mae'r sefydliad o'r farn nad yw sail cost amnewid wedi'i hamorteiddio yn faterol wahanol i werth teg.

Nodyn 1.1g Amorteiddio ac amhariad

Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio ar gyfraddau a gyfrifir er mwyn dileu'r asedau dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig ar sail llinell syth, fel a ganlyn:

Meddalwedd a gynhyrchir yn fewnol 8 mlynedd

Caiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu hamorteiddio o'r pwynt y dechreuir defnyddio'r ased. Rhestrir amorteiddio fel traul ac fe'i dangosir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Nodyn 1.1ng Prydlesi cyllidol

Caiff telerau holl brydlesi'r Arolygiaeth Gynllunio eu hadolygu a, lle mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn berchen ar y risgiau a'r taliadau, caiff prydlesi eu trin yn brydlesi cyllidol.

Hefyd, fe wnaeth yr Arolygiaeth Gynllunio adolygu pob contract gwasanaeth (e.e. contractau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau TG) er mwyn penderfynu a yw'r contractau'n cynnwys prydles gyllidol ymgorfforedig, o dan delerau IAS 17 fel y'i dehonglir gan y Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) 4.

Nodyn 1.1h Darpariaethau

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol sydd ag amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth (gweler Nodyn 11).

Nodyn 1.1i Adrodd segmentaidd

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio, fel un o Asiantaethau Gweithredol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, yn adrodd dan un segment gweithredol yn unig: Lleoliaeth. Teimlir ei bod yn fwy priodol felly i seilio'r dadansoddiad segmentaidd ar brif feysydd gwaith achos, ar sail y strwythur adrodd mewnol.

Nid yw'r asedau a'r rhwymedigaethau wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad segmentaidd gan nad yw'r rhain wedi eu dosrannu, ond yn hytrach wedi eu defnyddio ar draws y sefydliad (gweler Nodyn 2).

Nodyn 1.1l Offerynnau ariannol

Daeth Offerynnau Ariannol IFRS 9 i rym o 2018/19. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi adolygu'r safon newydd ac nid yw'n effeithio ar y datganiadau ariannol nac yn mynnu unrhyw addasiadau.

Nodyn 1.1ll Safonau cyfrifyddu a dehongliadau nas mabwysiadwyd hyd yn hyn

Cyhoeddwyd y safonau, diwygiadau a'r dehongliadau canlynol, ond nid ydynt ar waith hyd yn hyn:

| Newid a gyhoeddwyd | Cyhoeddwyd gan IASB | Blwyddyn ariannol y byddai'r newid yn gymwys iddi'n gyntaf |
|------------------------------|---------------------|--|
| IFRS 16 Prydlesi | Ionawr-16 | Daw i rym o 2019/20 |
| IFRS 17 Contractau Yswiriant | Mai-17 | Daw i rym o 2021/22 |

Mae effaith bosibl IFRS 16 ac IFRS 17 i'w chadarnhau o hyd ac mae'n ddibynnol ar unrhyw ddehongliad neu addasiad a gymhwysir gan FReM. Mae unrhyw gyfryw ddehongliadau neu addasiadau yn cael eu penderfynu ar hyn o bryd, ac nid yw canlyniad y gwaith hwn yn hysbys hyd yn hyn.

Nodyn 1.1m Busnes hyfyw

Yn gyffredin â sefydliadau eraill y Llywodraeth, caiff ein rhwymedigaethau yn y dyfodol eu hariannu gan adnoddau a gymeradwyir yn flynyddol gan y Senedd. Disgwylir i'r symiau sy'n ofynnol ar gyfer 2019/20 gael eu cymeradwyo cyn Toriad y Senedd ac nid oes unrhyw reswm i gredu na cheir cymeradwyaeth yn y dyfodol i gefnogi gweithgareddau busnes arferol. Yn unol â hynny, ystyriwyd ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes hyfyw drwy gydol yr adroddiad hwn ac wrth baratoi Datganiadau Ariannol 2018/19.

Nodyn 2. Datganiad o gostau gweithredu yn ôl segmentau

Rydym yn adrodd dan un segment gweithredol yn unig, sef Lleoliaeth. Felly, yn lle hynny, rydym wedi seilio'r dadansoddiad segmentaidd ar brif feysydd gwaith achos.

Nid yw'r asedau a'r rhwymedigaethau wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad segmentaidd gan y cânt eu defnyddio ar draws y sefydliad, ac ni chânt eu dosrannu na'u hadrodd arnynt yn y modd hwn i uwch arweinwyr.

Caiff yr Arolygiaeth Gynllunio y rhan fwyaf o'i chyllid gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (tybiannol trwy gronfeydd wrth gefn) ond cafodd oddeutu 30% o'i chostau yn 2018/19 eu hadennill drwy godi tâl ar gymysgedd o adrannau eraill y llywodraeth ganolog, cyrff llywodraeth leol neu unigolion a busnesau preifat.

| | 2018/19 | | | 2017/18 | | |
|---|---------------|-----------------|---------------|---------------|----------------|---------------|
| | Cost | Incwm | Net | Cost | Incwm | Net |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Apeliadau cynllunio | 26,954 | - | 26,954 | 25,071 | - | 25,071 |
| Seilwaith Cenedlaethol | 4,849 | (6,334) | (1,485) | 3,609 | (802) | 2,807 |
| Cynlluniau Lleol | 5,383 | (4,976) | 407 | 4,234 | (3,909) | 325 |
| Apeliadau gorfodi | 5,379 | - | 5,379 | 4,903 | - | 4,903 |
| Hawliau Tramwy | 1,218 | - | 1,218 | 1,222 | - | 1,222 |
| Apeliadau Cynllunio Adeiladau Rhestrdig | 525 | - | 525 | 600 | - | 600 |
| Gorchmynion Prynu Gorfodol | 257 | (111) | 146 | 279 | (233) | 46 |
| Gwaith Achos Arbenigol Mawr Arall | 4,273 | (1,621) | 2,652 | 3,738 | (1,204) | 2,534 |
| Incwm gan Lywodraeth Cymru | - | (2,518) | (2,518) | - | (2,560) | (2,560) |
| Rhaglen Gweddnewid | 4,236 | - | 4,236 | 1,875 | - | 1,875 |
| Arall | 1,287 | (687) | 600 | 1,095 | (465) | 630 |
| Cyfansymiau | 54,361 | (16,247) | 38,114 | 46,626 | (9,173) | 37,453 |

Disgrifiad o'r segmentau

1. Apeliadau cynllunio: Mae hwn yn cwmpasu'r apeliadau cynllunio arferol sy'n effeithio ar ddeiliaid tai, hysbysebu a mân apeliadau masnachol.
2. Seilwaith Cenedlaethol: Mae hwn yn ymwneud â gwaith yr ymgymerir ag ef ar gynigion ar raddfa fawr sy'n cefnogi'r economi, a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, gan gynnwys rheilffyrdd, gorsafoedd cynhyrchu ynni, porthladdoedd a meysydd awyr. Mae'r costau hyn yn

- cynnwys elfen o waith cyn gwneud cais, sy'n digwydd cyn i'r incwm gael ei gydnabod, felly gall costau a'r incwm cysylltiedig rychwantu blynyddoedd ariannol gwahanol.
3. Cynlluniau Lleol: Mae hwn yn cwmpasu gwaith yr ymgymerir ag ef yn ymwneud ag archwilio cynlluniau lleol ACLlau.
 4. Apeliadau gorfodi: Dyma lle gwneir apêl yn erbyn hysbysiadau gorfodi pan ymgymerir â datblygiad heb ganiatâd cynllunio neu pan nad yw'n unol â chais cynllunio cymeradwy.
 5. Hawliau Tramwy: Gwaith a wneir wrth adolygu gorchmynion yn ymwneud â hawliau tramwy yw hyn.
 6. Apeliadau Cynllunio Adeiladau Rhestredig: Mae hwn yn cwmpasu apeliadau'n ymwneud â gwaith yr ymgymerir ag ef mewn perthynas ag adeiladau rhestredig.
 7. Gorchmynion Prynu Gorfodol: Gwaith yr ymgymerir ag ef mewn perthynas â gwrthwynebiadau a geir yn ymwneud â Gorchymyn Prynu Gorfodol yw hyn.
 8. Gwaith Achos Arbenigol Mawr Arall: Mae hwn yn cwmpasu gwaith yr ymgymerir ag ef ar ran adrannau eraill y llywodraeth. Caiff y costau hyn eu hadennill yn rhannol yn unig o'r gwaith rydym yn ymgymryd ag ef ar ran adrannau eraill y llywodraeth.
 9. Rhaglen Gweddnewid: Rhaglen o newid mawr yw hon sy'n ceisio cyflawni tair blaenoriaeth strategol: gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid; gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd; a mwy o ymgysylltu â staff. At ddibenion dadansoddi segmentaidd, mae'r costau'n deillio o elfennau a ariennir gan: gyllidebau Gweddnewid; Adfer perfformiad; cyfalaf; a chyllidebau busnes arferol.
 10. Arall: Mae hwn yn cwmpasu'r holl waith arall na restrir uchod ac yn cynnwys gwneud penderfyniadau costau sy'n deillio o apeliadau/hysbysiadau gorfodi a dynnir yn ôl a gwneud penderfyniadau ar apeliadau Hysbysiadau Prynu, yn bennaf. Gall y gwaith hwn gynnwys pynciau fel gorchmynion cadw coed a thrafnidiaeth.

Nodyn 3. Gwariant gweithredu

Nodyn 3a. Costau staff

Cyflogau Cyfarwyddwyr

Mae cyflogau cyfarwyddwyr wedi'u cynnwys yn Costau Staff ond mae mwy o fanylion yn i'w gweld yn Adran 21 yn yr Adroddiad atebolrwydd.

Costau staff

Mae costau staff yn cynnwys:

| | 2018/19 | 2017/18 |
|---------------------------|---------|---------|
| | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | 25,878 | 23,758 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 2,851 | 2,637 |
| Costau pensiwn eraill | 5,497 | 5,035 |
| Is-gyfanswm | 34,226 | 31,430 |
| Staff asiantaeth | 589 | 341 |
| Cyfanswm costau staff net | 34,815 | 31,771 |

Nodyn 3b. Costau gweinyddol eraill

| | | 2018/19 | 2017/18 |
|---|-------|---------|---------|
| | Nodyn | £'000 | £'000 |
| Rhenti dan brydlesi gweithredu: | | | |
| Llogi offer a pheiriannau | | 152 | 186 |
| Prydlesi gweithredu eraill | | 1,417 | 1,517 |
| | | 1,569 | 1,703 |
| Eitemau anariannol: | | | |
| Dibrisiant | 5 | 209 | 15 |
| Amorteiddio | 6 | 338 | 339 |
| Amhariad asedau | | 924 | - |
| Darpariaeth ar gyfer dyledion amheus | | (47) | (76) |
| Cyflog yr Archwilydd ¹ | | 57 | 57 |
| Taliadau adenilladwy y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ² | | 115 | 115 |
| Gwasanaethau Hyfforddi'r Ardoll Brentisiaethau | | 19 | 6 |
| Cynnydd mewn darpariaeth yn ystod y flwyddyn | | 13 | - |
| Ôl-gofnodi darpariaethau | | - | - |
| | | 1,628 | 456 |
| Gwariant arall: | | | |
| Ffioedd i Arolygwyr heb fod ar gyflog misol ³ | | 2,239 | 856 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | | 2,009 | 1,641 |
| Costau adeiladau | | 760 | 1,212 |
| Gwasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol ³ | | 1,678 | 1,730 |
| Gwasanaethau Cymorth | | 2,466 | 1,436 |
| Ymchwil a Datblygu | | 2,017 | 691 |
| Technoleg gwybodaeth | | 2,608 | 2,362 |
| Costau ex gratia | | 136 | 391 |
| Costau anffafriol | | 333 | 657 |
| Drwgddyledion | | 130 | 126 |
| Telathrebu | | 182 | 353 |
| Hyfforddiant a chynadleddau | | 835 | 327 |
| Gwasanaethau post | | 157 | 157 |
| Cyflenwadau swyddfa | | 196 | 209 |
| Costau dileu swydd a chostau ymadael eraill ⁴ | | 1 | 22 |
| Costau gweinyddol eraill ⁵ | | 602 | 526 |
| | | 16,349 | 12,696 |
| Cyfanswm | | 19,546 | 14,855 |

1. Yn cynrychioli'r ffi archwilio dybiannol mewn perthynas ag ardystiad blynyddol y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol o ddatganiadau ariannol yr Arolygiaeth Gynllunio. Nid oedd unrhyw gyflog yn ddyledus am waith heb fod yn waith archwilio.

2. Mae taliadau adenilladwy y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyfrifyddu ac Adnoddau Dynol.

3. Ailddosbarthwyd ffioedd a threuliau cyfarwyddwyr anweithredol yn 2017/18 a 2018/19 i Wasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol, yn unol â chyfrifon y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

4. Y costau dileu swydd yn 2018/19 yw'r gwerth gweddilliol o ymadawiadau 2017/18.

5. Mae costau gweinyddol eraill yn cynnwys ffioedd proffesiynol, cyhoeddiadau, dodrefn/ffitiadau a gwasanaethau cyfieithu.

Nodyn 4. Incwm gweithredu

| | 2018/19 | 2017/18 |
|--|---------------|--------------|
| | £'000 | £'000 |
| Ffioedd a thaliadau | | |
| Cynlluniau Lleol | 4,976 | 3,909 |
| Seilwaith Cenedlaethol | 6,334 | 802 |
| Gorchmynion Prynu Gorfodol | 111 | 233 |
| Gwaith achos arbenigol mawr arall | 1,621 | 1,204 |
| | <u>13,042</u> | <u>6,148</u> |
| Cyfanswm ffioedd a thaliadau | 13,042 | 6,148 |
| Nwyddau a gwasanaethau | | |
| Incwm gan Lywodraeth Cymru | 2,518 | 2,560 |
| Cyfanswm Nwyddau a Gwasanaethau | 2,518 | 2,560 |
| Incwm amrywiol | | |
| Adennill costau anffafriol | 650 | 453 |
| Arall ¹ | 18 | 6 |
| | <u>668</u> | <u>459</u> |
| Cyfanswm incwm amrywiol | 668 | 459 |
| Cyfanswm incwm tybiannol amrywiol ¹ | 19 | 6 |
| | <u>16,247</u> | <u>9,173</u> |
| Cyfanswm incwm gweithredu | 16,247 | 9,173 |

1. Mae incwm tybiannol, yn ymwneud â'r cynllun ardoll prentisiaethau, wedi'i ail-gatgoreiddio o Arall i Gyfanswm incwm tybiannol amrywiol.

Nodyn 5. Eiddo, peiriannau ac offer

| | Technoleg Gwybodaeth |
|-------------------------------------|-------------------------|
| | £'000 |
| Cost neu brisiad | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 55 |
| Ychwanegiadau ¹ | 2,435 |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 2,490 |
| Dibrisiant | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 46 |
| Tâl a godwyd yn ystod y flwyddyn | 209 |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 255 |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019 | 2,235 |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 9 |
| Cyllido asedau | |
| Yn berchen arnynt ar 31 Mawrth 2019 | 2,235 |
| | Technoleg Gwybodaeth |
| | £'000 |
| Cost neu brisiad | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 482 |
| Gwarediadau | (427) |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 55 |
| Dibrisiant | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 458 |
| Tâl a godwyd yn ystod y flwyddyn | 15 |
| Gwarediadau | (427) |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 46 |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018 | 9 |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 24 |
| Cyllido asedau | |
| Yn berchen arnynt ar 31 Mawrth 2018 | 9 |

1. Nid yw'r ychwanegiadau a gofnodwyd yn y Datganiad Llifoedd Arian yn cynnwys symud asedau sydd wedi cronni, na fu unrhyw lifoedd arian ar eu cyfer.

Nodyn 6. Asedau anniriaethol

| | Technoleg Gwybodaeth a Gynhyrchwyd yn Fewnol |
|-------------------------------------|---|
| | £'000 |
| Cost neu brisiad | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 4,397 |
| Amhariad ¹ | (924) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 3,473 |
| Am orteiddio | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 2,883 |
| Tâl a godwyd yn ystod y flwyddyn | 338 |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 3,221 |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019 | 252 |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 1,514 |
| Cyllido asedau | |
| Yn berchen arnynt ar 31 Mawrth 2019 | 252 |
| | |
| | Technoleg Gwybodaeth a Gynhyrchwyd yn Fewnol |
| | £'000 |
| Cost neu brisiad | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 4,342 |
| Ychwanegiadau ² | 55 |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 4,397 |
| Am orteiddio | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 2,544 |
| Tâl a godwyd yn ystod y flwyddyn | 339 |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 2,883 |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018 | 1,514 |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 1,798 |
| Cyllido asedau | |
| Yn berchen arnynt ar 31 Mawrth 2018 | 1,514 |

1. Yn 2018/19, roedd system rheoli dogfennau newydd yn cael ei datblygu, gan arwain at amharu'r system bresennol i adlewyrchu'r gwerth gostyngol yn ei defnydd.

2. Mae mwyafrif y gwerth sy'n weddill yn ymwneud â'n system rheoli dogfennau.

Nodyn 7. Offerynnau Ariannol

Gan y bodlonir ein gofynion arian parod trwy'r broses Amcangyfrif, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig mewn creu a rheoli risg nag a fyddai'n berthnasol i gorffnad yw yn y sector cyhoeddus. Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol, yn unol â'n gofynion prynu a defnyddio disgwylidig, felly nid ydym yn agored i lawer o risg o ran credyd, hylifedd na'r farchnad.

Nodyn 8. Symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

| | 2018/19 | 2017/18 |
|---|--------------|--------------|
| | £'000 | £'000 |
| Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | | |
| Symiau masnach sy'n dderbyniadwy ¹ | 2,043 | 987 |
| Symiau eraill sy'n dderbyniadwy: | | |
| TAW | 122 | 131 |
| Arall ^{1,2} | 228 | 193 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronodig | 6,265 | 4,313 |
| Cyfanswm | <u>8,658</u> | <u>5,624</u> |

1. Mae symiau masnach sy'n dderbyniadwy a symiau eraill sy'n dderbyniadwy wedi'u hailgategoreiddio ar gyfer 2017/18 i gywiro cam-godio'r math o waith yn flaenorol.

2. Mae arall yn cynnwys balansau sy'n daladwy gan sefydliadau ac adrannau eraill y llywodraeth nad ydynt yn ymwneud â gwaith rheolaidd ar sail ffi a blaensymiau ac adenillion amrywiol y gyflogres.

Nodyn 9. Arian parod a chyfwerth ag arian

| | 2018/19 | 2017/18 |
|---|--------------|--------------|
| | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 3,775 | 2,203 |
| Newid net i falansau arian parod a chyfwerth ag arian parod | (1,298) | 1,572 |
| Balans ar 31 Mawrth | <u>2,477</u> | <u>3,775</u> |

Cedwir yr holl falansau arian parod yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

Nodyn 10. Symiau masnach sy'n daladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---------|---------|
| | £'000 | £'000 |
| Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | | |
| Symiau masnach sy'n daladwy | 25 | 145 |
| Symiau eraill sy'n daladwy: | | |
| TAW, trethiant a nawdd cymdeithasol | 760 | 696 |
| Trydydd parti | - | 2 |
| Arall ¹ | 1,000 | 767 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 7,035 | 6,367 |
| Cyfanswm y symiau taladwy ar 31 Mawrth | 8,820 | 7,977 |

1. Mae arall yn cynnwys arall didyniadau'r gyflogres.

Nodyn 11. Darpariaethau

| | Ex gratia | Costau anffafrio | Cyfan-sw m |
|--------------------------|-----------|------------------|------------|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2018 | - | - | - |
| Darparwyd yn y flwyddyn | - | 13 | 13 |
| Balans ar 31 Mawrth 2019 | - | 13 | 13 |

| | Ex gratia | Costau anffafrio | Cyfan-sw m |
|--|-----------|------------------|------------|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2017 | 199 | - | 199 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (199) | - | (199) |
| Balans ar 31 Mawrth 2018 | - | - | - |

Dadansoddiad o amseriad disgwylidig llifoedd gostyngol

| | 2018/19 | 2017/18 |
|-----------------------------|---------|---------|
| | £'000 | £'000 |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 13 | - |

Ex gratia

Taliadau anstatudol yw taliadau ex-gratia, a wneir yn gyffredinol o ganlyniad i gamgymeriad cydnabyddedig sy'n achosi gwariant diangen i'r hawliwr. Gall hyn gynnwys achosion lle mae'r Ombwdsmon Seneddol yn canfod camweinyddu. Y ddarpariaeth yw'r amcangyfrif gorau ar sail ar y wybodaeth sydd ar gael.

Costau anffafriol

Costau ymgyfreitha yw costau anffafriol, y gellid mynd iddynt yn dilyn ceisiadau aflwyddiannus i wrthwynebu her i benderfyniad Arolygydd yn yr Uchel Lys. Y ddarpariaeth yw'r amcangyfrif gorau ar sail y wybodaeth sydd ar gael.

Nodyn 12. Rhwymedigaethau amodol a ddatgelir dan IAS 37

Roedd dau fath o rwymedigaeth amodol yn bodoli ar 31 Mawrth 2019, na ddarparwyd ar eu cyfer yn y cyfrifon. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- (a) Taliadau ex gratia y gellid eu gwneud i apelyddion neu bartïon eraill i apêl o ganlyniad i gamgymeriad cydnabyddedig sy'n achosi gwariant diangen i'r hawliwr. Mae'n anodd iawn rhagweld amseriad a gwerth y taliadau hyn, ond yr amcangyfrif gorau o'r rhwymedigaeth amodol yw £467,000 (2017/18 £dim);
- (b) Costau ymgyfreitha y gellid mynd iddynt yn dilyn ceisiadau aflwyddiannus i wrthwynebu her i benderfyniad gan Arolygydd yn yr Uchel Lys. Mae'n anodd rhagweld amseriad a gwerth y dyfarniadau hyn. Rydym wedi adolygu tystiolaeth o flynyddoedd blaenorol ar nifer yr achosion a arweiniodd at daliad, a thrwy gymhwysu'r duedd hon i'r achosion yn y flwyddyn gyfredol, amcangyfrifwn rwymedigaeth amodol o £110,000 (2017/18: £118,000).

Nodyn 13. Ymrwymadau dan brydlesi

Meddiannir a defnyddir dau eiddo ar gyfer gweithgareddau gweithredol ar brydles gan adrannau'r llywodraeth (Cymru a Lloegr) ar contractau y gellir eu canslo.

Nodyn 14. Ymrwymadau ariannol eraill

Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn rheoli contract sylweddol ar gyfer gwasanaethau technoleg ar ein rhan, ac adlewyrchir yr ymrwymiad yn llawn yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi dechrau Rhaglen Gweddnewid, ac adlewyrchir hyn yn y cynnydd mewn ymrwymadau ym mis Mawrth 2019. Mae'r taliadau yr ydym wedi ymrwymo iddynt, ar gyfer gwasanaethau technoleg a theleffoni yn bennaf, fel a ganlyn:

| | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---------|---------|
| | £'000 | £'000 |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn ¹ | 1,119 | 481 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim mwy na phum mlynedd | 152 | 78 |

1. Gellir defnyddio hyd at 25% o'r ymrwymiad hwn ar wariant cyfalaf i ddatblygu asedau anniriaethol newydd.

Nodyn 15. Trafodion partiön cysylltiedig

Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yw'r parti cysylltiedig sy'n rheoli a'r parti sy'n rheoli, yn y pen draw.

Ystyrir bod Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig, y mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi cynnal nifer sylweddol o drafodion perthnasol â hi yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal, mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi cynnal nifer fawr o drafodion perthnasol ag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff y llywodraeth ganolog a sefydliadau llywodraeth leol yn ymwneud â'i busnes arferol.

Rhaid i aelodau Anweithredol a Gweithredol y Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiant personol neu fusnes a all, neu y gellir tybio y gallai, ddylanwadu ar eu barn fel aelod o'r Bwrdd. Yn ystod y flwyddyn, nid oes unrhyw aelod o'r Bwrdd, nac unrhyw barti cysylltiedig arall, wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol â ni.

Mae cyflogau uwch reolwyr/aelodau'r Bwrdd i'w gweld yn yr Adroddiad Cyflogau (gweler Adran 21).

Nodyn 16. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Cyflwynir datganiadau ariannol yr Arolygiaeth Gynllunio gerbron Dau Dŷ'r Senedd gan Ysgrifennydd Gwladol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae IAS 10 yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddatgelu'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r cyfrifon. Hwn yw'r dyddiad yr anfonir y cyfrifon ardystiedig gan reolwyr yr Arolygiaeth Gynllunio at Ysgrifennydd Gwladol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 25 Mehefin 2019.

Atodiadau



“Diolch i chi am eich ymateb cyflym a chynhwysfawr – bu’r Arolygiaeth yn gynorthwyol iawn yn ystod pob cam o’r broses”

Llun: Isambard Kingdom Brunel, Temple Quarter - Nick Holmes

Atodiad A Perfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol

Lloegr (Allwedd ar dudalen 125)

Nid yw Atodiad A yn destun archwiliad

| | 2018/19 | 2017/18 |
|---|------------------|------------------|
| Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol | | |
| Cyhoeddi 100% o holl farnau cwmpasu'r AEA cyn pen 42 diwrnod o'u derbyn | 100% | 100% |
| Cyhoeddi 100% o holl farnau sgrinio'r AEA cyn pen 21 o'u derbyn | Amh. | Amh. |
| Penderfynu ar dderbyn 100% yr holl geisiadau cyn pen 28 diwrnod | 100% | 100% |
| Cwblhau 100% o'r holl archwiliadau cyn pen 6 mis | 100% | 100% |
| Cyflwyno 100% o'r holl argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol cyn pen tri mis | 100% | 100% |
| Apeliadau Cynllunio | 2018/19 | 2017/18 |
| Penderfynu ar 80% o sylwadau ysgrifenedig cyn pen 14 wythnos o'r dyddiad dechrau | 58.8% (9,318) | 76.7% (9,697) |
| Penderfynu ar 80% o wrandawiadau cyn pen 14 wythnos o'r dyddiad dechrau | 23.6% (453) | 31.4% (528) |
| Penderfynu ar 80% o ymchwiliadau (nad ydynt yn bwrpasol) cyn pen 22 wythnos o'r dyddiad dechrau | 0.0% (3) | 13.7% (51) |
| Penderfynu ar 100% o ymchwiliadau (pwrpasol) yn unol â'r amserlen gytûn | 99.4% (176) | 98.7% (231) |
| Penderfynu ar 80% o apeliadau deiliaid tai cyn pen 8 wythnos o'r dyddiad dechrau | 75.9% (4,453) | 85.3% (4,670) |
| Penderfynu ar 80% o apeliadau masnachol cyn pen 8 wythnos o'r dyddiad dechrau | 62.9% (402) | 80.0% (565) |
| Apeliadau Gorfodi (A174, A39 a Thystysgrifau Datblygiad Cyfreithlon) | 2018/19 | 2017/18 |
| Penderfynu ar 80% o sylwadau ysgrifenedig cyn pen 32 wythnos o'r dyddiad dechrau | 88.7% (1,868) | 84.5% (1,474) |
| Penderfynu ar 80% o wrandawiadau cyn pen 33 wythnos o'r dyddiad dechrau | 83.2% (167) | 58.2% (177) |
| Penderfynu ar 80% o ymchwiliadau cyn pen 43 wythnos o'r dyddiad dechrau | 62.1% (195) | 56.3% (247) |
| Hawliau Tramwy, Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus | 2018/19 | 2017/18 |
| Penderfynu ar 80% o sylwadau ysgrifenedig cyn pen 27 wythnos o'r dyddiad dechrau | 81.25% (39) | 82% (38) |
| Penderfynu ar 80% o wrandawiadau cyn pen 29 wythnos o'r dyddiad dechrau | 33.3% (1) | 60% (5) |
| Penderfynu ar 80% o ymchwiliadau cyn pen 35 wythnos o'r dyddiad dechrau | 77.5% (4) | 72% (18) |
| Hawliau Tramwy, Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad | 2018/19 | 2017/18 |
| Penderfynu ar 80% o sylwadau ysgrifenedig cyn pen 27 wythnos o'r dyddiad dechrau | 73.5% (25) | 92% (61) |
| Penderfynu ar 80% o wrandawiadau cyn pen 29 wythnos o'r dyddiad dechrau | 83.3% (5) | 78% (9) |
| Penderfynu ar 80% o ymchwiliadau cyn pen 35 wythnos o'r dyddiad dechrau | 77.5% (45) | 90% (29) |

| | | |
|---|----------------|----------------|
| Atodlen 14 | | |
| Penderfynu ar 80% o gyfarwyddiadau cyn pen 17 wythnos o'r dyddiad dechrau | 46.2% (56) | 83% (23) |
| Penderfynu ar 80% o apeliadau cyn pen 26 wythnos o'r dyddiad dechrau | 45.83% (11) | 99% (71) |
| Tir Comin | 2018/19 | 2017/18 |
| Penderfynu ar 80% o'r rheiny heb wrthwynebiadau cyn pen 12 wythnos o'r dyddiad dechrau | 89% (33) | 83% (41) |
| Penderfynu ar 80% o'r rheiny â gwrthwynebiad cyn pen 26 wythnos o'r dyddiad dechrau | 92% (22) | 94% (16) |
| Penderfynu ar 80% o'r rheiny â gwrthwynebiad (Arolygydd) cyn pen 52 wythnos o'r dyddiad dechrau | 84% (15) | 100% (16) |
| Apeliadau Amgylcheddol | 2018/19 | 2017/18 |
| Penderfynu ar bob math o apêl cyn pen 28 wythnos o'r dyddiad dechrau | 33% (6) | 25% (4) |
| Gorchmynion Diogelu Coed | 2018/19 | 2017/18 |
| Penderfynu ar 80% o sylwadau ysgrifenedig cyn pen 14 wythnos o'r dyddiad dechrau | 1% (292) | 3% (287) |
| Penderfynu ar 80% o wrandawiadau/ymchwiliadau cyn pen 26 wythnos o'r dyddiad dechrau | 13% (54) | 0% (27) |
| Gwrychoedd neu Berthi Uchel | 2018/19 | 2017/18 |
| Penderfynu ar 80% o sylwadau ysgrifenedig cyn pen 24 wythnos o'r dyddiad dechrau | 1.7% (56) | 2% (47) |
| Perthi | 2018/19 | 2017/18 |
| Penderfynu ar 80% o bob math o apêl cyn pen 28 wythnos o'r dyddiad dechrau | 0% (4) | 50% (2) |
| Ceisiadau am gostau | 2018/19 | 2017/18 |
| Penderfynu ar 50% o bob math o apêl cyn pen 10 wythnos o'r dyddiad dechrau | 55% (139) | 59% (132) |
| Cynlluniau datblygu | 2018/19 | 2017/18 |
| Cwblhau archwiliadau Cynlluniau Datblygu (Cynllun Lleol) o fewn yr amserlen a gytunwyd gyda'r ACLI | 100% (52) | 98% (54) |
| Cwblhau archwiliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol o fewn yr amserlen a gytunwyd gyda'r ACLI | 100% (5) | 100% (14) |
| Bodlonrwydd cwsmeriaid | 2018/19 | 2017/18 |
| Sicrhau bod 80% o'r partïon y gwnaed arolwg ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r broses/gweithdrefnau apelio | 74% (249) | 79% (303) |
| Cymru | | |
| Amseroldeb ¹⁰ | 2018/19 | 2017/18 |
| Penderfynu ar 90% o'r holl apeliadau cynllunio a benderfynwyd drwy sylwadau ysgrifenedig (rhan 1 a rhan 3 o Reoliadau 2017) cyn pen 8 wythnos | 98.8% (116) | 91.7% (105) |
| Penderfynu ar 85% o'r holl apeliadau cynllunio a benderfynwyd drwy sylwadau ysgrifenedig (rhan 4) cyn pen 15 wythnos (Ebrill – Tachwedd) | 92.5% (256) | 98.4% (245) |
| Penderfynu ar 85% o'r holl apeliadau cynllunio a benderfynwyd drwy sylwadau ysgrifenedig (rhan 4) cyn pen 14 wythnos (Rhagfyr – Mawrth) | 81.2% (124) | 98.9% (87) |

¹⁰ Newidiodd y ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r broses apelïadau yng Nghymru rai o'r targedau o fis Rhagfyr 2018. Lle bo'n berthnasol, mae perfformiad ar gyfer y ddau gyfnod wedi'i ddangos ar wahân.

| | | |
|--|---------------|---------------|
| Penderfynu ar 85% o'r holl apeliadau cynllunio a benderfynwyd drwy wrandawiadau cyn pen 21 wythnos (Ebrill – Tachwedd) | 93.5% (34) | 100% (52) |
| Penderfynu ar 85% o'r holl apeliadau cynllunio a benderfynwyd drwy wrandawiadau cyn pen 21 wythnos (Rhagfyr – Mawrth) | Amh. | 87.5% (10) |
| Penderfynu ar 85% o'r holl apeliadau cynllunio a benderfynwyd drwy ymchwiliadau cyn pen 29 wythnos (Ebrill – Tachwedd) | 0% (1) | 100% (3) |
| Penderfynu ar 85% o'r holl apeliadau cynllunio a benderfynwyd drwy ymchwiliadau cyn pen 29 wythnos (Rhagfyr – Mawrth) | Amh. | 100% (1) |
| Penderfynu ar 85% o'r holl apeliadau gorfodi a benderfynwyd drwy sylwadau ysgrifenedig cyn pen 28 wythnos (Ebrill – Tachwedd) | 91.7% (24) | 100% (20) |
| Penderfynu ar 85% o'r holl apeliadau gorfodi a benderfynwyd drwy sylwadau ysgrifenedig cyn pen 27 wythnos (Rhagfyr – Mawrth) | 92.3% (13) | Amh. |
| Penderfynu ar 85% o'r holl apeliadau gorfodi a benderfynwyd drwy wrandawiadau ac ymchwiliadau cyn pen 41 wythnos | 100% (9) | 95.7% (23) |
| Bodloni'r amserlen a bennir gan LIC mewn perthynas ag argymhellion a wneir gan yr Arolygiaeth ar apeliadau a adferwyd a cheisiadau a alwyd i me wn | 100% (5) | 100% (1) |
| Cyflwyno argymhellion ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol cyn pen 36 wythnos | 100% (3) | 100% (2) |
| Darparu Arolygydd i archwilio Cynlluniau Datblygu ym mhob achos ar y dyddiad y gofynnir amdano gan yr ACLI | 100% (2) | 100% (3) |
| Darparu adroddiadau Arolygwyr ar archwiliadau o Gynlluniau Datblygu yn unol â'r amserleni cytûn | 50% (2) | 100% (2) |

Lloegr ar y cyd â Chymru

| Ansawdd | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---------------------------|---------|
| Mae 99% o benderfyniadau Arolygwyr yn rhydd rhag cwyn a gadarnhawyd neu her gyfreithiol lwyddiannus | 99.6% (Cymru 99.7%) | 99.3% |

Allwedd

| | |
|--------------------|-----------------------|
| Bodlonwyd y targed | Ni fodlonwyd y targed |
|--------------------|-----------------------|

Mae'r canlyniadau'n dangos y ganran a oedd yn bodloni'r targed, wedi'i dilyn gan nifer yr achosion y penderfynwyd arnynt mewn cromfachau.

Atodiad B

Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chysylltiadau

Gwasanaethau
Cwsmeriaid Lloegr



The Planning Inspectorate
Customer Services Team
Area 3Q
Temple Quay House
2 The Square
Temple Quay
Bristol BS1 6PN

Ffôn: 0303 444 5000

E-bost: enquiries@planninginspectorate.gov.uk

Ymholiadau Cyffredinol
Cymru



Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn: 0303 444 5940

E-bost: wales@planninginspectorate.gov.uk

Swyddfa'r Wasg



The Planning Inspectorate
Press Office
Area 3Q
Temple Quay House
2 The Square
Temple Quay
Bristol BS1 6PN

Ffôn: 0303 444 5004/ 0303 444 5005

E-bost: press.office@planninginspectorate.gov.uk

Twitter: @PINSgov

Gwefannau corfforaethol

Loegr: <https://www.gov.uk/government/organisations/planning-inspectorate>

Cymru: <https://planninginspectorate.gov.wales/>

Porth Gwaith Achos Apeliadau: <https://acp.planninginspectorate.gov.uk/>

Yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd: <https://www.ombudsman.org.uk>

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: <https://www.ombwdsmon.cymru/>

CCS0319712780
978-1-5286-1094-0